Senedd Cymru
**Biliau Aelod**

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): Memorandwm Esboniadol

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Sam Rowlands AS ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru.

## Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol

Yn fy marn i, byddai darpariaethau Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), a gyflwynwyd gennyf i ar 24 Tachwedd 2023, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Sam Rowlands AS

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil

24 Tachwedd 2023

# Cynnwys

**Datganiad ynghylch Cymhwysedd Deddfwriaethol ............................ i**

**Rhan 1: Memorandwm Esboniadol ........................................................ 1**

**1. Cyflwyniad ............................................................................. 1**

**2. Cymhwysedd deddfwriaethol ..................................................... 2**

**3. Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael ............................ 3**

Amcanion polisi ........................................................................ 3

Pam mae angen y Bil a’r manteision cysylltiedig ........................... 4

Beth sy’n digwydd mewn mannau eraill yn y DU? ......................... 37

Crynodeb o’r bennod ................................................................ 38

**4. Yr hyn y mae’r Bil yn ei wneud a pham ...................................... 40**

Hawl disgyblion i gael o leiaf bedair noson a phum niwrnod o brofiad addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim (adran 1): ............................ 41

Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i ariannu’r ddarpariaeth (adran 2) ........ 48

Gwneud bwyd a llety yn rhad ac am ddim i ddisgyblion ar gyfer cyrsiau addysg awyr agored breswyl sy’n rhan o’r cwricwlwm (adran 3) ................................ 49

Yr hyn nad yw'r Bil yn ei wneud ................................................. 49

Crynodeb o’r Bennod ................................................................ 50

**5. Cefnogaeth i’r Bil ac ymgynghori â’r cyhoedd ............................ 52**

Ymgynghoriad anffurfiol cyntaf ................................................... 52

Ymgynghoriad ar amcanion polisi’r Bil ......................................... 53

Ymgynghoriad plant a phobl ifanc ............................................... 56

Ymgynghoriad ar y Bil drafft ...................................................... 58

Sut mae fersiwn terfynol y Bil yn wahanol i'r cynigion cychwynnol a/neu’r Bil drafft ........ 60

Crynodeb o'r gefnogaeth i'r Bil ........ 62

**6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth ........ 63**

**Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol ........ 67**

**7. Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ........ 69**

Costau ac anfanteision nad ydynt wedi’u mesur ........ 70

Y Manteision Cymdeithasol ac Economaidd ........ 70

Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd ........ 73

8. Opsiwn 1: parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol ........ **74**

9. Opsiwn 2: Cyflwyno Bil ........ **75**

Tybiaethau o ran costau ........ 75

Amcangyfrifon o’r costau ........ 80

**10. Asesiadau Effaith Penodol ........ 97**

A) Asesiad o’r Effaith ar y System Gyfiawnder (Rheol Sefydlog 26.6 (xii)) ........ 97

B) Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ........ 99

C) Yr Effaith ar y Gymraeg ........ 113

D) Asesiadau effaith eraill ........ 115

**Rhan 3 – Nodiadau Esboniadol a Mynegai o’r Rheolau Sefydlog ........ 116**

**11. Nodiadau Esboniadol ........ 116**

Cyflwyniad ........ 116

Trosolwg Cyffredinol o’r Ddeddf ........ 116

Sylwebaeth ar yr adrannau ........ 116

**12. Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog ........ 119**

**13. Rheol Sefydlog 26.6C Atodlen o Ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol ..........................................................................124**

# Rhan 1: Memorandwm Esboniadol

## 1. Cyflwyniad

**1.** Ar 12 Gorffennaf 2022, llwyddodd Sam Rowlands AS yn y balot a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 26.87 y Senedd ar gyfer yr hawl i gael caniatâd i gyflwyno Bil Aelod.

**2.** Ar 26 Hydref 2022 cynhaliwyd dadl 'caniatâd i fwrw ymlaen', a chytunodd y Senedd y gallai Sam Rowlands gyflwyno Bil o fewn 13 mis i ddyddiad y ddadl honno er mwyn rhoi'r cynnig a ddewiswyd yn y balot cynharach ar waith.

**3.** Y cynnig oedd sefydlu Bil i roi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod pobl ifanc sy'n cael addysg a gynhelir yn cael y cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl, am o leiaf wythnos, ar ryw adeg yn ystod eu blynyddoedd ysgol. Y cynnig hefyd oedd bod y Bil yn sefydlu rhwymedigaeth statudol i ddyrannu cyllid i ddarparwyr addysg a gynhelir i'w galluogi i wneud hyn.

**4.** Bydd y Bil yn ceisio datblygu dull cydgysylltiedig sydd wedi'i ariannu i roi cyfle i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru[1] gael profiad addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, anableddau, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol. Bydd hyn yn newid profiad addysg awyr agored breswyl o fod yn weithgaredd cyfoethogi i fod yn elfen o hawl yn y Cwricwlwm i Gymru, gan ei dynnu o'r elfen ansicrwydd mewn cyllid awdurdodau lleol ac ysgolion, a sicrhau tegwch i blant a phobl ifanc Cymru.

[1] Mae ysgol a gynhelir fel y'i diffinnir yn adran 79 o Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021: ysgol gymunedol, sefydledig neu wirfoddol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru; neu ysgol arbennig gymunedol a gynhelir gan awdurdod lleol yng Nghymru, ac eithrio ysgol arbennig gymunedol a sefydlwyd mewn ysbyty.

# 2. Cymhwysedd deddfwriaethol

**5.** Mae Rheolau Sefydlog y Senedd yn darparu ar gyfer cyflwyno Biliau gan Aelodau unigol o'r Senedd, yn ogystal â Llywodraeth Cymru, pwyllgorau'r Senedd a Chomisiwn y Senedd, mewn meysydd lle mae gan y Senedd gymhwysedd deddfwriaethol.

**6.** Mae adran 107 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Senedd wneud cyfreithiau ar gyfer Cymru a elwir yn Ddeddfau Senedd Cymru. Mae adran 108A yn darparu nad yw Deddf gan y Senedd yn gyfraith i'r graddau y mae unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**7.** Mae darpariaethau Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ("y Bil") o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd,

# 3. Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo ei chael

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o amcanion polisi'r Bil, yn nodi pam mae angen y Bil ac yn gosod y Bil yng nghyd-destun deddfwriaeth a datblygiadau perthnasol eraill mewn mannau eraill yn y DU.

## Amcanion polisi

**8.** Pwrpas y Bil yw galluogi pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir i brofi addysg awyr agored breswyl. Bydd gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith mewn ysgolion a gynhelir, a hynny yn rhad ac am ddim.

**9.** Bydd y Bil yn newid addysg awyr agored breswyl o fod yn rhywbeth sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm, sy'n aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth 'braf i'w gael', i fod yn hawl o dan y cynnig addysg i blant a phobl ifanc, er mwyn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan ar ryw adeg. Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddiwygio'r Cwricwlwm i Gymru fel ei fod yn cynnwys darparu cwrs addysg awyr agored breswyl unwaith yn ystod addysg disgyblion, sy'n cyfateb i o leiaf bedair noson a phum niwrnod. Gall hyn ddigwydd ar un ymweliad neu gellir ei ymestyn dros fwy nag un ymweliad.

**10.** Mae'r Bil yn sefydlu addysg awyr agored breswyl fel rhan annatod o addysg a datblygiad personol unrhyw ddisgybl mewn ffordd sy'n cyfoethogi'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd addysg awyr agored mewn lleoliad preswyl i gynnydd a datblygiad plant a phobl ifanc.

**11.** Mae'r Bil yn darparu ar gyfer mynd ati mewn modd cydgysylltiedig sydd wedi'i ariannu i roi cyfle i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru brofi addysg awyr agored breswyl, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, anghenion dysgu ychwanegol (ADY), anableddau, cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol. Bydd newid addysg awyr agored breswyl o fod yn weithgaredd sy'n cyfoethogi i fod yn elfen o hawl yn y cwricwlwm yn goresgyn natur ad hoc yn aml y ddarpariaeth bresennol, ac yn sicrhau tegwch i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

**12.** Bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi **canllawiau** ar sut y bydd hawl o'r fath yn gweithio'n ymarferol yn ogystal â **chod statudol** ynghylch sut y bydd addysg awyr agored breswyl yn rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Bil yn darparu i ddisgyblion gael hawl i o leiaf bedair noson a phum niwrnod o addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm, er **nid oes dim i atal ysgol rhag trefnu profiadau ychwanegol y tu allan i'r cwricwlwm**.

**13.** Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu **hannog – ond nid yn cael eu gorfodi – i gymryd rhan** mewn addysg awyr agored breswyl. Fodd bynnag, mae'r cynigion hyn yn golygu y bydd ganddynt **gyfle i i fynd ar gwrs, pe dymunant, a hynny yn rhad ac am ddim, yn ystod eu bywyd ysgol.** Mae ymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a chyfyngiadau ariannol yn rhwystrau sylweddol i rai disgyblion fanteisio ar y cyfleoedd pan fydd eu hysgol yn trefnu profiad awyr agored preswyl.[2] Yn syml, bydd y Bil yn **sicrhau na chaiff unrhyw blentyn neu berson ifanc ei atal rhag profi addysg awyr agored breswyl unwaith yn ystod bywyd ysgol, dim ond oherwydd na all teulu'r disgybl ei fforddio.**

**14.** Mae'r Bil yn gofyn i **Lywodraeth Cymru ddarparu'r cyllid angenrheidiol** i alluogi a hwyluso darpariaeth addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn ceisio sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad yw arian yn cael ei ddargyfeirio o gyllidebau addysg craidd.

## Pam mae angen y Bil a'r manteision cysylltiedig

**15.** Mae angen y Bil am ddau brif reswm:

- **Sefydlu cwrs addysg awyr agored breswyl fel 'hawl' yn y cwricwlwm yn hytrach na 'chyfoethogi' yn unig**, gan gydnabod a gosod cwrs addysg awyr agored breswyl fel agwedd allweddol ar addysg statudol. **Bydd hyn yn mynd i'r afael â sefyllfa lle nad yw pob ysgol yn trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl.** Yn 2022/23, dim ond dwy o bob tair ysgol drefnodd cwrs o'r fath yng Nghyfnod Allweddol[3] 2 a dim ond tua hanner drefnodd cwrs yng Nghyfnodau Allweddol

[2] Sam Rowlands AS, Papur ystadegol: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Hydref 2022) – papur a gyhoeddwyd cyn dadl y Senedd ar y cynnig ar 26 Hydref 2022.
[3] Yn dilyn cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, mae un continwwm dysgu yn disodli'r 'cyfnodau allweddol'. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cyfeirio at 'gyfnodau allweddol' er hwylustod.

3 a 4.[4] (Mae paragraffau 40 i 43 yn rhoi mwy o fanylion am lefelau cyfranogi presennol.)

- Rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc mewn ysgolion a gynhelir gymryd rhan unwaith, a hynny yn rhad ac am ddim, mewn cwrs addysg awyr agored breswyl drwy ddarparu'r modd ariannol i'w galluogi i wneud hynny. Bydd hyn mynd i'r afael â sefyllfa lle gall anghydraddoldeb economaidd a ffactorau eraill olygu bod plant a phobl ifanc ar eu colled, naill ai oherwydd nad yw eu hysgol yn trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl neu, os yw eu hysgol yn gwneud hynny, na allant gymryd rhan oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae data'n awgrymu, mewn tua thraean o'r ysgolion sy'n trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl, fod llai na 75% o ddisgyblion yn cymryd rhan. (Mae paragraffau 44 i 46 yn rhoi rhagor o fanylion.)

**16.** Mae ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynigion yn y Bil yn dangos bod cefnogaeth gref ac y cytunir bod angen y ddeddfwriaeth hon. Trafodir hyn ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol hwn.

**17.** Yn ogystal, canfu arolwg ym mis Mai 2022 o 31,640 o ddisgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd yn y DU fod 93% o bleidleiswyr oed cynradd a 96% o bleidleiswyr oed uwchradd wedi dweud y dylai disgyblion fynd ar ymweliadau allgyrsiol sy'n cynnwys profiadau bywyd cadarnhaol a sgiliau newydd.[5]

**18.** Mae cyhoeddiadau Llywodraeth Cymru, ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a ddyfynnir yn y Memorandwm Esboniadol hwn ac ymchwil annibynnol o bob rhan o'r byd i gyd yn cyfeirio at fanteision addysgol cyrsiau addysg awyr agored breswyl, ac eto mae'n amlwg nad yw pob plentyn yn gallu cael gafael ar fanteision o'r fath. Bydd y Bil yn sicrhau mwy o degwch gan geisio cynnig cyfleoedd i 100% o blant. Mae'r adrannau a ganlyn yn esbonio'n fanylach:

- cefndir addysg awyr agored breswyl (paragraffau 19 i 24);
- y broblem gyda'r sefyllfa bresennol (paragraffau 25 i 48);
- sut mae'r Bil yn ategu ac yn cefnogi polisïau presennol (paragraffau 49 i 78);

[4] Data EVOLVE a ddarparwyd gan EduFocus.
[5] School Travel Organiser, 'Votes for School: Should you go on school trips' (2022)

- manteision ehangach y Bil ac addysg awyr agored breswyl (paragraffau 79-89); a
- sut mae addysg awyr agored breswyl yn helpu i gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (paragraffau 90 i 101).

## Cefndir i addysg awyr agored breswyl

**19.** Mae gan addysg awyr agored breswyl hanes hir a balch yng Nghymru, gyda'r Ganolfan Outward Bound gyntaf yn cael ei sefydlu yn Aberdyfi ym 1941. Dilynodd nifer o awdurdodau lleol, elusennau a chwmnïau preifat, gan sefydlu eu canolfannau addysg awyr agored eu hunain o amgylch yr arfordir, ar lannau afonydd ac yn y mynyddoedd, ac wrth wneud hynny cawsant eu cydnabod yn rhyngwladol am ansawdd y profiadau y maent yn eu cynnig i bobl o bob oed. Mae ansawdd y dirwedd yn parhau i gael ei gydnabod ac mae'n adnodd unigryw i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, ac mae'r dreftadaeth awyr agored gref hon wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored sydd werth £1.6 biliwn yng Nghymru.[6]

## Diffiniad o addysg awyr agored breswyl

**20.** Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cwmpasu ystod o weithgareddau sy'n digwydd mewn lleoliad preswyl, sy'n cynnwys cyfranogwyr sy'n byw gyda'i gilydd mewn cymuned dros dro oddi cartref. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys bod yn yr awyr agored fel rhan ganolog o'r profiad, gallant fod ag elfen heriol, anturus sy'n aml yn cynnwys rhywfaint o weithgarwch corfforol, bob amser yn parchu'r amgylchedd naturiol, ac yn ceisio defnyddio'r amgylchedd awyr agored fel cyfrwng i drawsnewid y profiad yn wybodaeth, sgiliau, agweddau ac ymddygiad. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys chwaraeon cydnabyddedig fel dringo, caiacio, cyfeiriannu neu hwylio, gweithgareddau hamdden awyr agored fel gwersylla neu gerdded bryniau, a gweithgareddau awyr agored sydd wedi'u cynllunio'n bwrpasol ar gyfer eu heffaith addysgol megis cyrsiau rhaffau, llwybrau a heriau menter.

**21.** Gall Llywodraeth Cymru benderfynu diffinio addysg awyr agored breswyl yn fwy pendant yn y cod statudol neu'r canllawiau, neu'r ddau, y bydd yn rhaid iddi eu dyroddi o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, fel y'i diwygiwyd gan y Bil.

[6] Miller Research Evaluation Consulting, Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o'r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru (2023)


## Pam mae plant a phobl ifanc yn mynd ar gyrsiau preswyl

**22.** Mae plant yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysg awyr agored breswyl am amrywiaeth o resymau. Yn benodol, maent yn rhan bwysig o brofiadau llawer o blant o bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd, gan ddatblygu'r drefniadaeth, yr hunanddibyniaeth a'r gwydnwch sydd eu hangen i ffynnu mewn lleoliad ysgol uwchradd. Mae rhai yn ystyried ymweliadau sydd wedi'u gwreiddio yng nghalendrau ysgolion cynradd fel rhan o 'daith bywyd', sy'n aml yn un o uchafbwyntiau'r flwyddyn ysgol, ac yn wir, yr ysgol gynradd gyfan. Mae plant hefyd yn dysgu am iaith, diwylliant a'r amgylchedd drwy ymweliadau o'r fath, gyda chydnabyddiaeth bod agwedd breswyl yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r sgil hwn.

## Manteision allweddol

**23.** Mae manteision addysg awyr agored breswyl, a ategir gan ymchwil academaidd a gwerthusiadau sector, wedi'u hen sefydlu a'u deall gan yr athrawon sydd eisoes yn rhoi o'u hamser a'u hegni i gynllunio a chynnal yr ymweliadau (Ffigur 1). Disgrifir manteision ac effeithiau cyrsiau addysg awyr agored breswyl ymhellach ym mharagraffau 60 i 101 o'r bennod hon a pharagraffau 212 i 224 o Bennod 7.

Ffigur 1: Trosolwg o fanteision addysg awyr agored breswyl[7]




[7] Defnyddir gyda chaniatâd y Sefydliad Addysg Awyr Agored

**24.** Mae addysg awyr agored breswyl yn chwarae rhan allweddol yn addysg plant a phobl ifanc Cymru a phob blwyddyn, mae miloedd o ddisgyblion cynradd ac uwchradd yn cael cyfle i fynd ar gyrsiau preswyl aml-ddiwrnod ledled y wlad, gan gael profiadau ac atgofion sy'n para am oes ac, i lawer, maent yn uchafbwynt yn ystod eu gyrfa ysgol. Fel y trafodir yn yr adran a ganlyn, mae'r cyfle i fynd ar gyrsiau preswyl, fodd bynnag, yn anghyfartal, ac mae gwahaniaeth sylweddol rhwng gwahanol ysgolion o ran yr hyn a gynigir ynghyd â gallu'r plant i fanteisio ar y cynnig. Efallai y bydd rhai ysgolion yn cynnig mwy nag un cyfle tra nad yw eraill yn cynnig unrhyw gyfle o gwbl. Nod y Bil hwn yw mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwnnw, gan ddarparu chwarae teg fel y gall pob plentyn gael budd cyfartal o'r profiad sydd ar gael.

## Y broblem gyda'r sefyllfa bresennol

### Sefyllfa annheg: yr angen am y Bil

**25.** Wrth wraidd y Bil mae delfryd o degwch, cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. O dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn[8] mae gan blant yr hawl i addysg sy'n datblygu personoliaeth, doniau a galluoedd plentyn i'r graddau mwyaf posibl (Erthyglau 28 a 29). Deellir yn eang fod addysg awyr agored breswyl yn cynnig ystod o fanteision a all wella bywydau plant a phobl ifanc ond, oherwydd tlodi ac anfantais, nid yw'r cyfle ar gael i gyfran sylweddol o boblogaeth Cymru.

**26.** Mae adroddiad cynnydd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru (2022)[9] yn tynnu sylw at effaith negyddol barhaus pandemig Covid-19, a waethygodd anghydraddoldeb ac sydd hyd yn oed yn waeth yn sgil pwysau costau byw.

**27.** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru, 'Pris tlodi disgyblion',[10] sef cyhoeddiad sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o'r effaith y mae tlodi yn ei chael ar fywydau plant gan gyfeirio'n benodol at eu haddysg, yn nodi:


> *Mae nifer cynyddol o blant mewn tlodi o deuluoedd sy'n gweithio lle mae un neu'r ddau riant/gofalwyr mewn gwaith cyflog isel ac yn aml yn disgyn ychydig y tu allan i'r trothwy i'w plant fod yn gymwys i gael cymorth ariannol ychwanegol i helpu gyda chost yr ysgol, fel hawl i*

[8] Unicef, Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
[9] Llywodraeth Cymru, Strategaeth tlodi plant: adroddiad cynnydd 2022
[10] Plant yng Nghymru, Pris tlodi disgyblion (2019)

*brydau ysgol am ddim, ac felly yn disgyn rhwng craciau'r union systemau a ddylai fod ar waith i'w cefnogi.*

**28.** Cyfeirir at ymweliadau ysgolion, gan gynnwys cyrsiau addysg awyr agored breswyl, fel maes sy'n peri pryder, ac mae'r canllawiau'n nodi ymhellach fod "colli allan ar gymryd rhan ym mywyd yr ysgol (teithiau, gweithgareddau, defnyddio offer, dewisiadau pwnc) oherwydd costau, yn arwain at hunan-barch isel, diffyg hyder a llesiant gwaeth ymysg dysgwyr". Mae'r canllaw yn mynd ymlaen i awgrymu y dylai ysgolion ystyried a yw cost ymweliadau yn realistig i rieni, sy'n strategaeth a allai, er yn anffodus, leihau hyd neu gynnwys y cynnig ei hun. Mae Ffigur 2 yn crynhoi'r canlyniadau negyddol sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol o'u cymhwyso i gyd-destun cyrsiau addysg awyr agored breswyl.

Ffigur 2: Canlyniadau negyddol anfantais economaidd-gymdeithasol




**29.** Disgrifir yr effaith ar blant yn glir, gyda "ddim yn gallu mynd ar dripiau ysgol" yn un o'r tri phrif bryder a fynegwyd gan blant.[11] Mae plant sy'n byw mewn tlodi neu dan anfantais eu hunain yn aml yn ymwybodol iawn o'u hamgylchiadau eu hunain a gallant ddioddef bwlio ac allgáu cymdeithasol o ganlyniad i beidio â chymryd rhan. Gall disgyblion deimlo embaras a siom o fod yn colli allan ac yn ogystal â cholli allan ar y cwrs

[11] Plant yng Nghymru, Pris tlodi disgyblion (2019)

addysg awyr agored breswyl ei hun, bydd yn colli allan ar edrych ymlaen a'r bwrlwm yn arwain at y cwrs, a'r dysgu, yr atgofion a'r straeon dilynol sy'n deillio o'r profiad.

**30.** Nodwyd bod "rhwystrau ariannol" yn un o'r rhwystr mwyaf rhag cael cyfle i fynd ar gyrsiau addysg awyr agored breswyl yn y ddau ymgynghoriad cyffredinol (a gafodd ei nodi gan 93% o'r ymatebwyr)[12] ac yn yr ymgynghoriad plant a phobl ifanc (a gafodd ei nodi gan 85% o'r ymatebwyr).[13] Gweler paragraffau 32 i 39 a 44 i 48 yn y bennod hon am ragor o wybodaeth am gyfyngiadau ariannol a Phennod 5 am fanylion yr ymgynghoriadau.

**31.** O dan Ddeddf Addysg 1996,[14] ni all ysgolion godi tâl am ymweliadau ysgol[15] sy'n gysylltiedig â dyletswydd a osodir gan neu o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 neu ar gyfer ymweliadau sy'n darparu addysg yn ystod oriau ysgol, er y gallant godi tâl am fwyd a llety. Mae hyn yn golygu na all llawer o ysgolion alluogi ymweliad i fynd yn ei flaen oni bai eu bod yn cael digon o gyfraniadau gwirfoddol gan rieni i dalu amdano neu os ydynt yn ei ariannu o'u hadnoddau eu hunain. Gall hyn atal ysgolion rhag trefnu ymweliadau sy'n ymwneud â'r cwricwlwm ac ymweliadau eraill megis cyrsiau addysg awyr agored breswyl.

**32.** Mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylid codi tâl ar blant y mae eu rhieni'n cael budd-daliadau penodol (sy'n adlewyrchu'n fras eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim) ar gyfer costau bwyd a llety ar gyrsiau preswyl.[16] Fodd bynnag, nid yw pawb sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn manteisio ar hynny oherwydd stigma neu embaras ac, yn hollbwysig, nid yw llawer o deuluoedd incwm isel yn cyrraedd y trothwy hawl i gael prydau ysgol am ddim. Y disgyblion hyn sydd fwyaf mewn perygl o golli allan ar gyrsiau addysg awyr agored breswyl oherwydd efallai na fydd teuluoedd yn gallu fforddio'r cyfraniadau a awgrymir.

**33.** Nid yw hyn yn ymwneud â'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth ychwanegol yn unig, er enghraifft drwy gymorthdaliadau awdurdod lleol neu ysgol, ond, yn arwyddocaol, y

[12] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023)
[13] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)
[14] Deddf Addysg 1996, adrannau 451-452
[15] Er bod Deddf Addysg 1996 a chanllawiau Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r gair 'tripiau', defnyddir y term 'ymweliadau' drwy gydol y Memorandwm Esboniadol hwn.
[16] Llywodraeth Cymru, Canllawiau llywodraethwyr i'r gyfraith: Pennod 17, Codi tâl am weithgareddau ysgol

teuluoedd hynny nad ydynt yn bodloni’r meini prawf hynny ond sy’n byw ychydig uwchlaw’r trothwy ‘incwm isel’.

**34.** Fel arfer, caiff cyrsiau addysg awyr agored breswyl eu hariannu gan gyfraniadau ariannol rhieni. Gall teuluoedd incwm isel sy’n derbyn budd-daliadau perthnasol dderbyn cymorth ariannol, ond mae’r graddau y mae’r arian hwnnw ar gael yn amrywio rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion. Lle darperir cymorth, gall fod gwahaniaeth amlwg ac annheg rhwng y gost i deulu sy’n derbyn budd-daliadau a’r gost i deulu nad ydynt (ac felly ddim yn gymwys i gael cymorth) ond sydd serch hynny mewn caledi ariannol.

**35.** Yn ôl adroddiad ystadegol Llesiant Cymru (2023),[17] mae plant yn fwy tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol o gymharu â’r boblogaeth yn gyffredinol. Cyfradd y plant mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl talu costau tai) oedd 31% rhwng 2019 a 2021 a 28% rhwng 2020 a 2022.

**36.** Mae gallu rhieni i gyfrannu at gyrsiau preswyl eu plant yn peri pryder. Dros y cyfnod rhwng 2017 a 2020, roedd 71% o’r plant a oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol yn byw ar aelwydydd sy’n gweithio (tua 140,000 o blant). Roedd hyn wedi cynyddu o 60% yn y cyfnod rhwng 2012 a 2015.[18] Nid yw adroddiadau Llesiant Cymru dilynol yn rhoi ffigur wedi’i ddiweddaru.

**37.** Fodd bynnag, dim ond 22% sy'n cael eu cydnabod gan y procsi a ddefnyddir ar gyfer amddifadedd ymhlith disgyblion ysgol, sef bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.[19] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i dargedu adnoddau ychwanegol at blant difreintiedig. Weithiau mae hyn yn cael ei dargedu at deuluoedd plant, megis drwy brydau ysgol am ddim a'r Grant Hanfodion Ysgolion,[20] tra mewn achosion eraill mae hyn wedi’i anelu at ysgolion i gefnogi eu canlyniadau addysgol, megis drwy’r Grant Datblygu Disgyblion,[21] sy’n ategu incwm ysgolion ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

**38.** Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, mae diffyg amlwg felly rhwng y rhai sy’n byw mewn tlodi a’r rhai sy’n cael cymorth ariannol sy’n canolbwyntio ar yr ysgol. Ar ben hynny, nid

---

[17] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru: 2023
[18] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru: 2021
[19] Llywodraeth Cymru, Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023 (Medi 2023)
[20] Llywodraeth Cymru, Grant Hanfodion Ysgol
[21] Llywodraeth Cymru, Grant Datblygu Disgyblion

yw canllawiau cyfredol Llywodraeth Cymru[22] yn cefnogi'n amlwg y defnydd o'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer ariannu cyrsiau preswyl ac, er bod potensial i ysgolion gefnogi teuluoedd difreintiedig gyda chostau o'r fath, mae'n amlwg nad yw'r opsiwn hwnnw ar gael i nifer sylweddol o blant sy'n byw mewn tlodi.

**39.** Gall ysgolion gynnig cyrsiau addysg awyr agored breswyl ond gallant fod yn amhosibl i rieni, gyda chostau yn eu hatal, ac mae'r sefyllfa'n waeth i deuluoedd mwy o faint. Y gyfradd tlodi yn y DU ymhlith plant â dau neu fwy o frodyr a chwiorydd yn 2021/22 oedd 42%, o gymharu â 23% a 22% ymhlith plant mewn teuluoedd sydd ag un neu ddau blentyn.[23]

### Lefelau cyfranogiad presennol mewn addysg awyr agored breswyl

**40.** Mae data o system ymweliadau EVOLVE,[24] a ddefnyddir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ac eithrio un wrth drefnu ymweliadau addysg awyr agored breswyl, yn dangos nad yw pob ysgol yn trefnu ymweliadau addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion.[25]

- Yn y flwyddyn academaidd 2022/23, roedd tua dwy ran o dair (67%) o ysgolion cynradd Cymru ac ysgolion canol (pob oed) wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion Cyfnod Allweddol 2.[26] Mae hyn yn golygu na chafodd traean, neu bron i 400 o ysgolion, a'u plant, gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 2.

---

[22] Llywodraeth Cymru, Grant Datblygu Disgyblion: canllawiau

[23] Canolfan Ymchwil mewn Polisi Cymdeithasol, Prifysgol Loughborough, Local indicators of child poverty after housing costs, 2021/22 (Mehefin 2023)

[24] Mae angen i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru hysbysu am cyrsiau addysg awyr agored breswyl er mwyn i gynghorydd addysg awyr agored eu cymeradwyo. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn defnyddio system Evolve, a ddarperir gan Edufocus, ac eithrio Castell-nedd Port Talbot. Mae data a ddarparwyd yn uniongyrchol gan Edufocus wedi'i gyfuno er mwyn defnyddio'r data a gyflwynir yn y ddogfen hon.


[25] Wrth wneud arsylwadau am lefelau cyfranogiad, defnyddir data ar lefel ysgol yn hytrach na data ar lefel disgybl oherwydd, pan fydd disgyblion wedi mynychu fwy nag unwaith, bydd hyn yn arwain at gyfrif lluosog. Dim ond unwaith y cyfrir ysgolion a aeth ar fwy nag un cwrs preswyl mewn cyfnod allweddol, er mwyn cyfrifo cyfrannau ysgolion. Nid oedd yn bosibl gwneud hyn o fewn y data ar lefel disgybl.

[26] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 780 o'r 1165 o ysgolion cynradd a chanol (pob oed) yng Nghymru sy'n darparu addysg Cyfnod Allweddol 2 / Blynyddoedd 3 i 6 (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.

- Roedd **ychydig dros hanner (54%)** o ysgolion uwchradd a chanol (pob oed) wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion **Cyfnod Allweddol 3** (Blynyddoedd 7 i 9)[27] yn 2022/23 a **llai na hanner (48%)** wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion **Cyfnod Allweddol 4** (Blynyddoedd 10 i 11).[28] Mae hyn yn golygu na chafodd ychydig llai na hanner, neu tua 90 o ysgolion, a'u plant, gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 3. Ni chafodd dros hanner, neu tua 100 o ysgolion, a'u disgyblion, gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 4.

- O'r 37 o ysgolion arbennig yng Nghymru, trefnodd 9 (24%) cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn 2022/23.[29]

Ffigur 3: Cyfran yr ysgolion nad ydynt yn trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn 2022/23




*Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata EVOLVE a ddarparwyd gan Edufocus*

[27] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 106 o'r 197 o ysgolion uwchradd a chanol (pob oed) yng Nghymru (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.
[28] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 94 o'r 197 o ysgolion uwchradd a chanol (pob oed) yng Nghymru (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.
[29] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 9 o'r 37 o ysgolion arbennig yng Nghymru (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.

**41.** Mae'n bosibl bod pandemig COVID-19 yn parhau i effeithio ar nifer yr ysgolion sy'n trefnu ymweliadau, er bod data EVOLVE ar gyfer 2018/19 yn dangos bod lefelau 2022/23 yn adlewyrchu'r darlun hirdymor yn hytrach nag effaith ar ôl y pandemig yn unig.

- Yn 2018/19, fel yn 2022/23 roedd tua dwy ran o dair (65%) o ysgolion cynradd Cymru ac ysgolion canol (pob oed) wedi trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 2.[30]

- Gwnaeth 76% o ysgolion canol (pob oed) ac uwchradd drefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 3 yn 2018/19[31] – sy'n uwch nag yn 2022/23 ond yn dal i olygu na wnaeth chwarter yr ysgolion drefnu cyrsiau o'r fath. Yng Nghyfnod Allweddol 4, roedd y gyfran yn 2018/19 yn debyg (52%)[32] i 2022/23 (48%).

- O'r 39 o ysgolion arbennig yng Nghymru yn 2018/19, trefnodd 14 (36%) cyrsiau addysg awyr agored breswyl.[33] Mae hyn yn uwch na 2022/23 (24%).

---


[30] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 771 o'r 1181 o ysgolion cynradd a chanol (pob oed) yng Nghymru sy'n darparu addysg Cyfnod Allweddol 2 / Blynyddoedd 3 i 6 (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.

[31] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 150 o'r 197 o ysgolion uwchradd a chanol (pob oed) yng Nghymru (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.

[32] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 103 o'r 197 o ysgolion uwchradd a chanol (pob oed) yng Nghymru (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.

[33] Mae hyn yn seiliedig ar ddata EVOLVE o 14 o'r 39 o ysgolion arbennig yng Nghymru (mae ysgolion yng Nghastell-nedd Port Talbot wedi'u heithrio o'r cyfanswm ysgolion gan nad ydynt wedi'u cynnwys yn y data EVOLVE). Nid yw gweithgareddau Gwobr Dug Caeredin wedi'u cynnwys.

Ffigur 4: Cyfran yr ysgolion nad ydynt yn trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn 2018/19




*Ffynhonnell: Dadansoddiad o ddata EVOLVE a ddarparwyd gan Edufocus*

**42.** Er bod rhai ysgolion yn cynnig cwrs addysg awyr agored breswyl cwrs addysg awyr agored breswyl bob yn ail flwyddyn, am yn ail â gwyliau mewn dinas er enghraifft, ni all ysgolion eraill greu'r amodau sy'n galluogi eu plant i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl. Caiff cost cwrs preswyl a chost cludiant cysylltiedig i'r lleoliad ac oddi yno eu nodi fel rhwystrau sylweddol. Mae'r pwysau costau byw diweddar wedi gorfodi llawer o ysgolion i dorri'n ôl ar yr hyn y maent yn ei gynnig i'w plant. Dywedodd Ymddiriedolaeth Sutton[34] yn ddiweddar fod 50% o ysgolion yn Lloegr wedi torri nôl ar ymweliadau addysgol o ganlyniad i bwysau ariannol.

### Amrywiad ar draws awdurdodau lleol

**43.** Mae data EVOLVE hefyd yn dangos gwahaniaethau rhwng awdurdodau lleol yng nghyfran eu hysgolion sy'n trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl:

- Yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd hyn yn amrywio o 28% i 90% yn 2022/23 ac o 26% i 83% yn 2018/19.

[34] Ymddiriedolaeth Sutton, Headteachers report sharp increase in costs to teaching assistants, school trips, support staff and sports (Ebrill 2023)

- Yng Nghyfnod Allweddol 3, roedd hyn yn amrywio o 0% i 83% yn 2022/23 ac o 40% i 100% yn 2018/19.
- Yng Nghyfnod Allweddol 4, roedd hyn yn amrywio o 0% i 83% yn 2022/23 ac o 0% i 100% yn 2018/19.
- Ymhlith ysgolion arbennig, roedd hyn yn amrywio o 0% i 100% yn 2022/23 ac yn 2018/19.[35]


**Arolwg o ysgolion gan OEAP Cymru (Hydref 2022)**

**44.** Mae tystiolaeth gan Banel Ymgynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) Cymru[36] hefyd yn awgrymu pan fo ysgolion yn trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl, nad yw pob disgybl yn gallu cymryd rhan. Mae Ffigur 5 isod yn dangos nifer yr ysgolion sy'n nodi cyfraddau cyfranogiad disgyblion mewn cyrsiau addysg awyr agored breswyl ar wahanol raddau (h.y. dywedodd 211 o'r 329 o ysgolion, a ymatebodd i gwestiwn arolwg OEAP Cymru, fod dros 75% o'u disgyblion wedi cymryd rhan). Fodd bynnag, mewn dros draean o'r ysgolion a ymatebodd (118 o 329), o'r plant hynny a gafodd gyfle i gymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl , mae llai na 75% o'r plant yn cymryd rhan. Mae hyn yn dangos yn glir nad yw cyfle ar ei ben ei hun yn ddigon i sicrhau mynediad at brofiadau preswyl.

[35] Dadansoddiad o ddata EVOLVE a ddarparwyd gan Edufocus

[36] Adroddwyd gan Sam Rowlands AS, Papur Ystadegol: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Hydref 2022). Rhoddodd OEAP Cymru arolwg ym mis Hydref 2022 i'r Cynghorydd Addysg Awyr Agored ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n defnyddio ei system EVOLVE i reoli ymweliadau addysgol. Gwnaethant, yn eu tro, ddosbarthu'r arolwg ar-lein i ysgolion a gynhelir i'w gwblhau a'i gyflwyno. Anfonodd OEAP Cymru yr arolwg ar-lein hefyd at y Cynghorydd Addysg Awyr Agored yn yr awdurdod lleol ychwanegol nad yw'n defnyddio system OEAP Cymru. Felly rhannwyd yr arolwg gyda phob awdurdod lleol heblaw dau yng Nghymru (Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen) nad oes ganddynt gynghorydd OEAP yn gweithio ar hyn o bryd.

Ffigur 5: Cyfran yr ysgolion sydd â chyfrannau priodol o ddisgyblion sy'n mynychu cwrs addysg awyr agored breswyl lle trefnwyd un (o 329 o ymatebion ysgolion)




*Ffynhonnell: OEAP Cymru, Hydref 2022 (fel yr adroddwyd ym mhapur ystadegol Sam Rowlands, Hydref 2022)*[37]

**45.** Roedd arolwg OEAP Cymru hefyd yn dangos mai'r **rhwystr mwyaf o bell ffordd i blant rhag gallu cymryd rhan yw cyfyngiadau ariannol, a gafodd ei nodi gan 207 (59%) o'r 351 o ysgolion a ymatebodd i gwestiwn yr arolwg hwn**. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y cynigion y tu ôl i'r Bil hwn, a nododd mai cyfyngiadau ariannol a chost oedd y rhwystr mwyaf o bell ffordd.[38]

**46.** I grynhoi, roedd arolwg OEAP Cymru yn dangos y canlynol:

- Dywedodd 59% o'r ysgolion yn yr arolwg mai rhesymau ariannol oedd y prif rwystr i gymryd rhan mewn cyrsiau addysg awyr agored breswyl.
- Mewn dros draean o'r ysgolion, o'r plant hynny a gafodd cyfle i gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored breswyl, fod llai na 75% o'r plant yn cymryd rhan.
- Yn ogystal, nid yw 23% o ysgolion yn cynnig cymhorthdal i'r teuluoedd hynny sydd â chyfyngiadau ariannol.

[37] Sam Rowlands AS, Papur Ystadegol: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Hydref 2022)
[38] Sam Rowlands MS, Crynodeb o ymgynghoriad ar y Bil Addysg AwyrAgored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023), Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023).

**47.** Mae'r data a gasglwyd gan yr ysgolion yn yr arolwg yn cael eu cefnogi gan adroddiad yn 2017 gan Ymddiriedolaeth Sutton[39] a ganfu fod bylchau economaidd-gymdeithasol sylweddol yn effeithio ar fynediad at weithgareddau allgyrsiol, gyda disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn gweithgareddau na'u cyfoedion mwy cefnog (46% o gymharu â 66%), a dim ond hanner y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim yn cymryd rhan. Nododd hefyd fylchau yn y ddarpariaeth, gydag ysgolion sydd â niferoedd uwch o ddisgyblion yn derbyn prydau ysgol am ddim yn llai tebygol o gynnig rhai gweithgareddau. Mae hyn yn destun pryder sylweddol gan mai grwpiau difreintiedig yn aml sy'n cael y budd mwyaf o gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath.

**48.** Fel y soniwyd yn gynharach, nid yw hyn yn ymwneud â'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth ychwanegol yn unig, er enghraifft drwy gymorthdaliadau awdurdod lleol neu ysgol ond, yn arwyddocaol, y teuluoedd hynny nad ydynt yn bodloni'r meini prawf hynny ond sy'n byw ychydig uwchlaw'r trothwy incwm isel. Bydd y Bil yn cyfrannu at leddfu'r pwysau ar ysgolion a rhieni, gan leihau pryder i rieni, plant ac athrawon. Drwy wneud cwrs addysg awyr agored breswyl yn hawl o fewn y cwricwlwm, bydd pob plentyn yn cael cyfle i fanteisio ar y manteision, ni waeth beth yw eu hamgylchiadau.

## Sut mae'r Bil yn ategu ac yn cefnogi polisïau presennol

### Perthnasedd i'r cyd-destun polisi

**49.** Mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu magu yng Nghymru heddiw yn wynebu heriau sylweddol. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf 2015)[40] yn cyfeirio at amlygrwydd newid hinsawdd, tlodi, anghydraddoldebau iechyd a ffyniant economaidd. Mae Deddf 2015 yn gorfodi cyrff cyhoeddus a gwmpesir gan Ddeddf 2015 i weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru er mwyn sicrhau Cymru gydnerth, iachach, tecach a llewyrchus.

**50.** Drwy ei saith Nod Llesiant, mae Deddf 2015 hefyd yn sicrhau y bydd Cymru yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyflawni Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang y

[39] Ymddiriedolaeth Sutton, Life lessons: Improving essential life skills for young people (2017)
[40] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cenhedloedd Unedig.[41] Mae paragraffau 90 i 101 yn manylu ymhellach ar sut y bydd y Bil yn helpu i gyflawni nodau Deddf 2015.

**51.** Mae gan Gymru lefelau sylweddol o dlodi, gyda 21% o'r holl bobl yn byw mewn tlodi incwm cymharol.[42] Un o'r sawl achos yw anghydraddoldeb economaidd, sy'n arwain at bron i dri chwarter o boblogaeth Cymru yn profi pryder, a'r achos mwyaf cyffredin yw'r gallu i fforddio talu biliau yng nghanol pwysau costau byw presennol.[43] Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl, lle gofynnir am gyfraniadau ariannol gan y teulu, yn alw pellach, ac sydd weithiau'n amhosibl.

**52.** Mae ymchwil hefyd yn dangos bod plant sy'n byw mewn cartrefi incwm isel yn fwy tebygol o brofi problemau iechyd meddwl, a bod problemau yn cynyddu ymhlith plant a phobl ifanc.[44] Mae polisi Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r her hon drwy ganolbwyntio ar ddatblygu gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc a'r sgiliau i ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain.[45] Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar strategaeth iechyd meddwl newydd, ac un cynnig craidd yw bod pobl yn cymryd camau i hybu eu lles eu hunain a lles y gymuned ehangach.[46]

**53.** Ym mis Mawrth 2021, daeth y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym yng Nghymru.[47] Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus perthnasol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ystyried yr angen i leihau anghydraddoldebau sy'n cael ei brofi[48] o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol.[49]

**54.** Yn uniongyrchol berthnasol i hyn, bydd yr hawl arfaethedig yn galluogi pob plentyn a pherson ifanc, ni waeth beth yw eu cefndir economaidd-gymdeithasol, i gael y manteision yn sgil cyrsiau addysg awyr agored breswyl a ariennir, gan ddileu'r baich ariannol a'r pryder posibl a wynebir gan deuluoedd incwm isel. Mae'r cwrs addysg awyr

---

41 Llywodraeth Cymru, Dangosyddion Cenedlaethol: mapio i'r Nodau Llesiant a Nodau Datblygu Cynaliadwy CU (offeryn rhyngweithiol)
42 Llywodraeth Cymru, Tlodi incwm cymharol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
43 Y Sefydliad Iechyd Meddwl, Cyfnod Ansicr: Effaith gorbryder yng Nghymru a sut i fynd i'r afael ag ef
44 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Dadansoddiad newydd yn datgelu anghydraddoldebau o ran gofal iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru (Gorffennaf 2022)
45 Ymchwil y Senedd, Plant a phobl ifanc: a oes argyfwng iechyd meddwl? (Mai 2022)
46 Llywodraeth Cymru, Strategaeth iechyd meddwl
47 Llywodraeth Cymru, Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol: trosolwg
48 Llywodraeth Cymru, Gweithredu'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol: Adolygiad o dystiolaeth am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau canlyniadau (Hydref 2021)
49 Llywodraeth Cymru, Strategaeth tlodi plant: adroddiad cynnydd 2022

agored breswyl ei hun yn cyfrannu at ddatblygu gwydnwch ac yn cefnogi nodau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella iechyd meddwl hirdymor.

**55.** Mae gofynion economi a gweithle'r dyfodol yn creu angen i baratoi pobl ifanc ar gyfer byd gwaith lle mae newid yn gyflym ac yn heriol. Yn gysylltiedig â llesiant economaidd, mae Strategaeth Arloesedd Llywodraeth Cymru yn nodi "creu a meithrin diwylliant arloesi bywiog ar gyfer Cymru gryfach, decach a gwyrddach".[50] Mae'r cyfleoedd a'r heriau sy'n cael eu creu gan ddatblygiadau newydd ym maes technoleg yn gofyn am ddysgwyr sy'n wydn, yn greadigol ac yn uchelgeisiol, sy'n gallu gweithio gydag eraill i ddatrys problemau, cymryd risgiau, ymgysylltu â gwahanol wybodaeth a gweithio'n annibynnol; sef nodau sy'n sail i'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

**56.** Pedwar diben y Cwricwlwm newydd i Gymru[51] yw cefnogi plant a phobl ifanc i fod yn:

- ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.
- cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.
- dinasyddion egwyddorol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.
- unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**57.** Mae paragraffau 60 i 67 isod yn manylu ar sut mae'r Bil yn cyfrannu at gyflawni nodau Cwricwlwm i Gymru.

### Cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru

**58.** Yn ystod pandemig Covid-19 a'r cyfnod lle roedd yn rhaid i fusnesau gau oherwydd hynny, dywedodd y Gweinidog Addysg a Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar y pryd, "mae addysg antur yn rhywbeth unigryw ar daith person ifanc drwy'r ysgol", ac mae profiadau yn rhoi "cyfleoedd dysgu dan arweiniad arbenigwyr y tu allan i'r dosbarth, ac mae'r manteision o ran lles y dysgwyr yn gydnabyddedig" mewn canolfannau addysg

[50] Llywodraeth Cymru, Strategaeth Arloesi i Gymru
[51] Llywodraeth Cymru (gwefan Hwb), Cwricwlwm i Gymru

awyr agored.[52] Cyfeiriwyd hefyd at y gwerth y maent yn ei roi i'r plant y maent yn eu gwasanaethu yn ogystal â'r cymunedau y maent yn denu gweithwyr ohonynt, sef cyfanswm o £2m o gronfa adfer sector benodol, sy'n dangos y gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl.

**59.** Mae Llywodraeth Cymru, drwy ei Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol,[53] yn parhau i ariannu ymchwil addysg awyr agored mewn ysgolion ac Addysg Gychwynnol Athrawon. Mae argymhellion o'r ymchwil hwn yn cynnwys darparu mwy o adnoddau a chyfleoedd ar gyfer y math hwn o waith a darparu'n benodol "…mwy o gymorth ar gyfer dysgu yn yr awyr agored".[54] Bydd y Bil yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu ar argymhellion o'r fath drwy fuddsoddi mewn dysgu yn yr awyr agored, drwy gyrsiau addysg awyr agored breswyl.


### Manteision addysgol: cyflawni nodau'r cwricwlwm

**60.** Mae'r dystiolaeth ansoddol sy'n cefnogi profiadau addysg awyr agored breswyl yn benodol yn gryf, gyda thystiolaeth sylweddol o newid cadarnhaol yn ystod cwrs addysg awyr agored breswyl ar draws sawl cynulleidfa ac agweddau ar ddatblygiad personol a chymdeithasol.

**61.** Mae'r Cwricwlwm i Gymru, trwy ei Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDPh), yn cynnig nifer o gyfleoedd i roi'r potensial ar gyfer cyfleoedd addysg awyr agored yng Nghymru ar waith a seilwaith hygyrch i gyflawni'r nodau hyn. Mae Ffigur 6 yn crynhoi'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc ar cyrsiau addysg awyr agored breswyl a sut maent yn cyfrannu at y pedwar diben.

[52] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Datganiad Llywodraeth Cymru ar Sefydlu Cronfa ar Gyfer y Sector Addysg Awyr Agored Breswyl, 24 Mawrth 2021
[53] Llywodraeth Cymru, Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol (2021)
[54] Llywodraeth Cymru, Astudiaeth ymchwil 6: Effaith pandemig COVID-19 yng Nghymru ar iechyd a lles dysgwyr ac ymarferwyr, gan gynnwys y goblygiadau i addysg gychwynnol i athrawon (2021)

Ffigur 6: Cyfraniad addysg awyr agored breswyl i bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru




**62.** Mae canlyniadau cysylltiedig ar gyfer y cyfranogwyr yn cynnwys:

- Gwell hunanhyder, gwydnwch, rheolaeth emosiynol, hunan-reoleiddio a mwy o gydnabyddiaeth o alluoedd y cyfranogwyr eu hunain;
- Gwell sgiliau cyfathrebu, sgiliau gweithio mewn tîm a sgiliau cymdeithasol;
- Mwy o allu i adeiladu a thrafod perthnasoedd rhwng cyfoedion a pherthnasoedd rhwng oedolion a myfyrwyr;
- Mwy o annibyniaeth, ymdeimlad o gyflawniad o oresgyn her a mwy o gymhelliant i ddysgu.

**63.** Mae canlyniadau i athrawon yn cynnwys:

- Mwy o wybodaeth am fyfyrwyr, eu diddordebau a'u dyheadau sy'n trosglwyddo'n ôl i'r ystafell ddosbarth;
- Gwell perthnasoedd gyda myfyrwyr sy'n hyrwyddo ymgysylltiad yn yr ystafell ddosbarth.

**64.** Mae Maes Dysgu a Phrofiad 'Iechyd a lles' Cwricwlwm i Gymru[55] yn cynnwys Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig sy'n rhoi pwys ar ymateb i brofiadau, penderfyniadau a dylanwadau cymdeithasol. Mae'r rhain i gyd yn sylfaenol i brofiad addysg awyr agored breswyl.

**65.** Hefyd yn uniongyrchol berthnasol, mae'r Maes Dysgu a Phrofiad 'Dyniaethau'[56] yn cynnwys Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig sy'n rhoi pwys ar ddeall prosesau deinamig y byd naturiol a'r effaith y mae bodau dynol yn ei chael ar y prosesau hyn, a bod dinasyddion hunanymwybodol yn mynd i'r afael â heriau i gymryd camau moesegol. Yn ogystal, mae'r canllawiau Maes Dysgu a Phrofiad ynghylch 'Ystyriaethau ar gyfer darparu profiadau dysgu' yn galw'n benodol am "ystod o gyfleoedd i ddysgu y tu allan…" ac "ystod o gyfleoedd i ymweld ac archwilio…".[57]

**66.** Caiff **'Cynefin'**, sef ymdeimlad o gysylltiad â lle, tir, diwylliant, iaith a hunaniaeth Gymreig arbennig, ei gyflwyno fel rheidrwydd drwy ddogfennau canllaw Cwricwlwm i Gymru. Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn darparu cyfleoedd i ehangu gorwelion trwy ymestyn gwybodaeth leol y tu hwnt i'r cyfarwydd. Mae'r mewnwelediad a geir oddi cartref drwy ymgysylltu ag ardal anghyfarwydd yn cyferbynnu ag ardal leol y cyfranogwyr eu hunain, gan gryfhau eu dealltwriaeth bersonol o 'gynefin'.

**67.** Cefnogir nodau Cwricwlwm i Gymru gan y Bartneriaeth Awyr Agored,[58] sef elusen sy'n gweithredu ledled Cymru sy'n ceisio cynyddu cyfranogiad gydol oes yn yr awyr agored. Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn ceisio creu newid o genhedlaeth i genhedlaeth lle mai ymgysylltu â'r awyr agored yw'r 'norm'. Sefydlwyd yr elusen ar sail yr wybodaeth bod lefelau isel o ymgysylltu â'r awyr agored ymhlith pobl leol yn arwain at lefelau isel o gyflogaeth yn y diwydiant awyr agored a llai o ymgysylltu â chymunedau lleol. Drwy greu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn actif yn yr awyr agored drwy gontinwwm o gefnogaeth o ysgolion i gymuned, nod y Bartneriaeth Awyr Agored yw meithrin gallu i gefnogi cyfranogiad lleol a datblygu sgiliau. Mae datblygu Fframwaith Addysg Antur y Bartneriaeth Awyr Agored yn darparu ffordd i ysgolion roi dysgu awyr agored ar waith yn

[55] Llywodraeth Cymru (gwefan Hwb), Cwricwlwm i Gymru: Iechyd a Lles
[56] Llywodraeth Cymru, (gwefan Hwb), Cwricwlwm i Gymru: Y Dyniaethau
[57] Llywodraeth Cymru, (gwefan Hwb), Cwricwlwm i Gymru: Y Dyniaethau: Cynllunio eich cwricwlwm
[58] Y Bartneriaeth Awyr Agored

eu cwricwlwm. Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn benllanw'r fframwaith, lle mae plant a phobl ifanc yn symud ymlaen o'r amgylchedd cyfarwydd i'r anghyfarwydd.[59]

## Tystiolaeth bellach

**68.** Mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cyflawni canlyniadau o ganlyniad i gyfuniad unigryw o ffactorau sy'n ymwneud â'r cwrs preswyl ei hun, gweithgareddau heriol a'r amgylchedd naturiol (Ffigur 7). Mae’r cwrs preswyl yn rhoi cyfle i ddatblygu cymuned fach, byrdymor. I lawer o blant, dyma eu tro cyntaf i ffwrdd o’r cartref heb eu teulu ac mae’n gyfle i ddatblygu sgiliau byw’n annibynnol yn ogystal â threulio amser gyda ffrindiau. Mae'n rhaid cymhwyso a datblygu sgiliau personol a chymdeithasol er mwyn delio â chysylltiadau bob dydd sy'n rhan o fywyd y ganolfan, gyda myfyrwyr yn dysgu sut i ryngweithio a chyfaddawdu er mwyn symud ymlaen. Mae natur breswyl y rhaglen yn caniatáu i berthnasoedd ffurfio a thyfu, rhwng cyfoedion a rhwng myfyrwyr ac oedolion, a chaiff y manteision hyn eu canfod hefyd yn ôl yn yr ysgol.[60]

**69.** Mae Sefydliad Paul Hamlyn wedi ymchwilio'n helaeth i fanteision cyrsiau preswyl ysgol. Roedd ei fenter Learning Away, a gynhaliwyd rhwng 2008 a 2015, yn cynnwys 60 o ysgolion yn ymgorffori pob math o gyrsiau preswyl (yn hytrach na’r rhai mewn canolfannau addysg awyr agored yn unig) a chanfuwyd bod cyrsiau preswyl blaengar sydd wedi’u cynllunio wedi cael effaith gadarnhaol ar sawl ffactor, gan gynnwys perthnasoedd; gwydnwch; hunanhyder a lles; ymgysylltu â dysgu; cyflawniad; gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth; ac addysgeg athrawon.[61]


---

[59] Y Bartneriaeth Awyr Agored, Fframwaith Addysg Antur

[60] Williams, R. (2013) Woven into the Fabric of Experience: Residential Adventure Education and Complexity. Journal of Adventure Education and Outdoor Learning. 13: 107-124.

[61] Kendall, S. and Rodger, J. (2015) Evaluation of Learning Away: final report. Llundain: Sefydliad Paul Hamlyn.

Ffigur 7: Agweddau unigryw cyrsiau addysg awyr agored breswyl




**70.** Mae gweithgareddau sy'n cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â'r tywydd, y dirwedd, pobl, fflora a ffawna yn darparu cyfleoedd i ddatblygu dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a chysylltiad â natur. Mae ymchwil yn dangos bod cysylltiad â byd natur yn gam cyntaf hollbwysig i ddatblygu ymddygiadau rhag-amgylcheddol, sy'n hollbwysig os yw plant heddiw am fynd i'r afael â'r heriau o golli bioamrywiaeth, newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd sy'n ein hwynebu yn y dyfodol agos.[62] Amlygwyd hyn hefyd yn yr ymgynghoriadau ar y cynigion y tu ôl i'r Bil.[63]

**71.** Mae Mesurau Dysgu yn yr Awyr Agored o Ansawdd Uchel a gynigir gan Gyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored[64] yn cynnwys awydd i barhau â gweithgareddau ar ôl y profiad cychwynnol a pharodrwydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadwraeth. Mae'r syniad hwn o ddilyniant yn ategu modelau Cwricwlwm i Gymru a

---

[62] Lumber, R. a Richardson, M. (2017) Beyond knowing nature: Contact, emotion, compassion, meaning, and beauty are pathways to nature connection. *PLOS ONE*, *12*(5), 1–24.


[63] Sam Rowlands MS, Crynodeb o ymgynghoriad ar y Bil Addysg AwyrAgored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023), Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023).

[64] Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored, Dysgu yn yr awyr agored o ansawdd uchel i Gymru (2018)

Phartneriaethau Awyr Agored ac fe'i mynegir hefyd trwy nifer o fodelau sy'n symud plant a phobl ifanc o weithgareddau ymgysylltu cychwynnol i ryw raddau o weithgarwch amgylcheddol – er enghraifft ymlyniad â chlwb neu sefydliad amgylcheddol,[65] cysylltu â'r amgylchedd a gofalu amdano,[66] a dylanwadu ar gymdeithas fel dinesydd gweithgar, cyfrifol a moesegol (Ffigur 8).[67]

[65] Keighley, P. (1998) Learning Through First Hand Experience Out Of Doors. Cymdeithas Genedlaethol ar gyfer Addysg Awyr Agored.
[66] Ho, S., Atencio, M., Tan, Y. S. M., & Ting Ching, C. (2016) The inclusion of outdoor education in the formal school curriculum: Singapore's journey. In B. Humberstone, H. Prince, & K. A. Henderson (Eds.), Routledge International handbook of Outdoor Studies. Routledge.
[67] Cyfoeth Naturiol Cymru, Pa fath o gysylltiad sydd gennych â natur? (2021) (Defnyddiwyd gyda chaniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru)

Ffigur 8. Dilyniant naturiol i gysylltiad â natur (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2021)




*Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, Dilyniant naturiol (2021)*

**72.** Mae creu’r amodau i gysylltiad â byd natur ddigwydd (gan gynnwys drwy gyrsiau addysg awyr agored breswyl) yn cefnogi’r cyfleoedd ar gyfer cyfnodau tymor byr o gysylltiad â natur.[68] O fanteisio ar hyn, gall y profiadau hyn arwain at fwy o gysylltiad â natur a mwy o ymddygiad o blaid yr amgylchedd: mae pobl sydd â mwy o gyfleoedd yn dangos lefelau uwch o gysylltiad.[69]

**73.** Mae ymchwil i fanteision gweithgareddau antur awyr agored yn amlygu'r cyfraniad gwerthfawr y maent yn ei wneud i iechyd a lles personol.[70] Mae cyfleoedd hefyd i unigolion gysylltu â byd natur (yr amgylchedd naturiol), cysylltiad uniongyrchol â phobl eraill (rhyngbersonol), ac yn bwysig iawn, â nhw eu hunain (personol).

**74.** Mae ymchwil arwyddocaol arall yn cefnogi canlyniadau ac effaith cyrsiau addysg awyr agored breswyl. Canfu gwerthusiad o 16,500 o ymatebion arolwg a gasglwyd gan ganolfannau addysg awyr agored yn y DU a gynhaliwyd ar ran Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored dystiolaeth gref o gyfranogwyr yn cyflawni canlyniadau sy’n ymwneud â her a gwydnwch, gwaith tîm a pherthnasoedd cefnogol â chyfoedion, sgiliau cyfathrebu, sgiliau annibyniaeth a chydnabod eu galluoedd eu hunain, a pherthnasoedd cadarnhaol ag athrawon.[71]

**75.** Atgyfnerthwyd y canlyniadau hyn gan astudiaeth o ddisgyblion Blwyddyn 6 a oedd yn mynychu cwrs addysg awyr agored breswyl am bedair noson yn Lloegr a ddangosodd ystod o ganlyniadau personol a chymdeithasol ac ymdeimlad cynyddol o gymuned a chymhelliant i ddysgu a oedd yn cael eu cynnal yn ôl yn yr ysgol. Defnyddiodd y staff y profiadau preswyl i ddysgu mwy am y plant yn eu gofal ac wedi hynny defnyddio newidiadau mewn perthnasoedd cyfoedion a'u perthnasoedd datblygedig eu hunain gyda disgyblion.[72]

---

[68] Sheffield, D., Butler, C. W., & Richardson, M. (2022) Improving Nature Connectedness in Adults: A Meta-Analysis, Review and Agenda. Sustainability (Basel, Swistir), 14(19), 12494.

[69] Chawla, L. (2020) Childhood nature connection and constructive hope: A review of research on connecting with nature and coping with environmental loss. People and Nature, 2(3), 619–642.

[70] Dickson, T., Gray, T., Mann, K. (2008) Australian Outdoor Adventure Activity Benefits Catalogue. Prifysgol Canberra: Canberra, Awstralia.

[71] Maynard, L. a Lee, J. (2018) Understanding the use and effectiveness of the Centre Feedback tool. AHOEC. [heb ei gyhoeddi]

[72] Loynes, C., Dudman, J. a Hedges, C. (2020) ‘The impact of residential experiences on pupils’ cognitive and non-cognitive development in year six (10–11 year olds) in England’, Education 3-13, tt. 1–14.

**76.** Canfu astudiaeth effaith tymor hwy, yn ymwneud yn benodol â chyrsiau addysg awyr agored breswyl am bedair noson, fod cyfranogwyr yn fwyaf tebygol o gofio gweithgareddau, yr amser a dreuliwyd gyda ffrindiau, a bod oddi cartref. Nododd y cyfranogwyr amrywiaeth o fanteision yn deillio o'u dysgu, gan gynnwys dylanwad ar eu haddysg a'u llwybrau gyrfa, anogaeth i'w plant eu hunain fwynhau'r awyr agored, ehangu gorwelion o anturiaethau a theithio oddi cartref, a gwelliant parhaus mewn hyder a pharodrwydd cysylltiedig i roi cynnig ar bethau newydd.[73]

**77.** Canfu gwaith ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree[74] y gallai cyrsiau preswyl sy'n cynnig profiadau newydd a oedd yn gwahanu pobl oddi wrth eu hardaloedd cysurus arwain at gynnydd mewn hyder a hunan-barch, a herio'r meddylfryd cyfyngol presennol. Daeth i'r casgliad bod canfyddiadau o rwystrau yn gymaint o bwys â rhwystrau gwirioneddol, a phwysleisiodd bwysigrwydd datblygu perthnasoedd cymdeithasol, meithrin ymddiriedaeth a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb rhwng pobl ifanc sy'n dod o gymryd rhan mewn cyrsiau preswyl.

*Anghenion dysgu ychwanegol ac anableddau*

**78.** Ar gyfer plant a phobl ifanc ag ADY, gellir dadlau bod y manteision hyn hyd yn oed yn fwy dwys ac yn gallu newid bywydau. Mae Ymddiriedolaeth Bendrigg, darparwr arbenigol ar gyfer pobl anabl a difreintiedig o bob rhan o'r DU, yn datgan bod cyrsiau preswyl o ansawdd uchel yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr ag anableddau gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol y mae ei angen yn fawr arnynt gan nad yw 86% o deuluoedd â phlant anabl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.[75] Mae 17,000 o blant yng Nghymru yn derbyn gofal a chymorth, ac mae 21% ohonynt yn anabl. Cofnodwyd diffyg canfyddiad o'r risg o berygl corfforol ar gyfer bron i dri chwarter (71%) o'r plant hyn, sy'n awgrymu bod yr angen am ddarpariaeth awyr agored wirioneddol gynhwysol, gyda chyfleoedd gwirioneddol i brofi risg mewn modd rheoledig, yn glir.[76]

[73] Prince, H. E. (2020) 'The lasting impacts of outdoor adventure residential experiences on young people', Journal of Adventure Education & Outdoor Learning, tt. 1–16.
[74] Green, A. E. a White, R. J. (2007) Attachment to place: Social networks, mobility and prospects of young people. Caerefrog: Sefydliad Joseph Rowntree.
[75] Ymddiriedolaeth Bendrigg, How outdoor learning benefits people with disabilities
[76] Llywodraeth Cymru (StatsCymru), Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru: ar 31 Mawrth 2021

## Manteision ehangach

### Cysylltu â chyfleoedd yn y dyfodol

**79.** Daeth adolygiad systematig diweddar o ddeunydd ysgrifenedig o fanteision 'chwaraeon awyr agored' i gymdeithas i'r casgliad eu bod yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau sy'n cynrychioli buddsoddiad cost-effeithiol.[77] Mae'r manteision yn cynnwys iechyd a lles corfforol a meddyliol, dinasyddiaeth weithredol a chyfraniad at fondio mewn teuluoedd a chymunedau. Mae tystiolaeth gref hefyd o ddatblygiad rhyngbersonol sy'n ymwneud ag agweddau corfforol, meddyliol, gwybyddol, ymddygiadol a chymdeithasol o'ch hunan, manteision addysgol, gan gynnwys gwell hunan-gymhelliant a pharodrwydd i wynebu a goresgyn heriau.

**80.** Yn ystod y pandemig Covid-19 a'r cyfnod dilynol o ddychwelyd i'r ysgol ar ôl y cyfnod clo, roedd dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru yn cynnwys cyfeiriad penodol at ddysgu yn yr awyr agored a'r manteision i iechyd a llesiant yn sgil hynny. Mae canlyniadau arolwg diweddaraf Active Lives[78] yn dangos, er bod plant iau yn fwy actif mewn chwaraeon tîm, wrth i bobl fynd yn hŷn, gallant barhau i fod yn actif trwy weithgareddau fel cerdded, beicio, rhedeg a nofio. Er bod yr arolwg hwn yn cyfeirio at ymatebwyr yn Lloegr gan nad oes data cymharol ar gael ar gyfer Cymru, mae'n rhesymol awgrymu na fyddai'r canfyddiadau'n sylweddol wahanol yng Nghymru. Mae gwaith ymchwil diweddar a gyflwynwyd drwy Gymdeithas Ymchwil Addysg Prydain[79] yn awgrymu cysylltiadau arwyddocaol rhwng iechyd pobl hŷn, lefelau gweithgaredd a'r profiadau a gawsant fel pobl ifanc wrth gymryd rhan mewn addysg awyr agored.

**81.** Caiff pwysigrwydd hanfodol gweithgaredd gydol oes ei adlewyrchu yn yr achosion cynyddol o oedolion â diabetes yng Nghymru, gyda dros 207,000 yn byw gyda'r cyflwr.[80] Amcangyfrifir mai cost gofalu am bobl â diabetes i GIG Cymru yw £500 miliwn y flwyddyn.[81] Gall cynyddu gweithgaredd corfforol leihau'r risg o ddatblygu diabetes Math 2, ac mae ymchwil yn dangos bod modd atal hyd at 50% o achosion.[82] Drwy gyflwyno


---

[77] Eigenschenk, B. et al. (2019) 'Benefits of Outdoor Sports for Society. A Systematic Literature Review and Reflections on Evidence.', International Journal Of Environmental Research And Public Health, 16(6), t. 937.
[78] Sport England, Active Lives Adult Survey November 2020-21 Report (Ebrill 2022)
[79] Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain, Ageing in nature: Outdoor learning as lifelong learning (Mehefin 2021)
[80] Diabetes UK, Living with diabetes in Wales
[81] Ymchwil y Senedd, Allwn ni atal y cynnydd mewn diabetes? (Mehefin 2023)
[82] Diabetes UK, Prediabetes

plant a phobl ifanc i weithgareddau gydol oes posibl, bydd y Bil yn cyfrannu at nodau Llywodraeth Cymru o hybu ffyrdd iach o fyw a lleihau diabetes drwy gefnogi ei strategaeth 'Pwysau Iach: Cymru Iach'.[83]

**82.** Mae profiadau cychwynnol sy'n agor drysau i gyfleoedd yn y dyfodol yn hanfodol felly. Dengys ymchwil y gall manteision uniongyrchol cyrsiau addysg awyr agored breswyl ymestyn ar draws oes y cyfranogwr, oherwydd gall atgofion o brofiadau'r gorffennol arwain at ddysgu newydd a gosod y llwyfan ar gyfer profiadau'r dyfodol. Mae cyrsiau preswyl ysgolion sy'n cyflwyno plant i weithgareddau awyr agored felly yn bwynt mynediad pwysig i gyfranogiad gydol oes (Ffigur 9).

Ffigur 9: Patrwm effaith cwrs preswyl (addaswyd gan Carnwath a Brown 2014)[84]




### Manteision economaidd

**83.** Mae cyflwyno plant a phobl ifanc i'r sector awyr agored drwy gyfranogiad yn hollbwysig o ran cynaliadwyedd a thwf y sector twristiaeth gweithgareddau awyr agored yng Nghymru. Fel y dangosir yn Ffigur 10, mae dadansoddiad diweddar o'r sector gweithgareddau awyr agored yng Nghymru yn dangos bod y sector werth dros £1.6 biliwn i economi Cymru ac yn cynnal dros 30,000 o swyddi (21% o'r holl swyddi twristiaeth yng Nghymru).[85]


**84.** Mae'r adroddiad hefyd yn dangos mai manteision iechyd a lles yw'r prif resymau dros gyfranogiad ac y gallai cynnydd o 10% mewn cyfranogiad arwain at gynnydd mewn

[83] Llywodraeth Cymru, Strategaeth pwysau iach (Pwysau Iach Cymru Iach)
[84] Carnwath, J. D., & Brown, A. S. (2014). Understanding of the value and impacts of cultural experience – a literature review. Llundain: Cyngor Celfyddydau Lloegr.
[85] Miller Research Evaluation Consulting, Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o'r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru (2023)

gwerth cymdeithasol o £187 miliwn ar draws iechyd meddwl a chorfforol, lles meddwl, cyfalaf cymdeithasol a datblygiad unigol.[86]

**85.** Felly, mae cynyddu gallu'r sector i ymdopi â'r twf hwn yn ddymunol ac yn angenrheidiol, ac mae'r awduron yn nodi effaith bosibl y Bil o ganlyniad i 'gyflwyno holl blant Cymru i fanteision profi gweithgareddau awyr agored'.

Ffigur 10: Cyfraniad y sector gweithgareddau awyr agored i economi Cymru




**Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi**

**86.** Mae ymchwil Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi yn ennill momentwm yn y sector gweithgareddau awyr agored. Mae astudiaethau sydd wedi'u cynnal hyd yma i gyd yn cyfeirio at adenillion sylweddol ar fuddsoddiad.

**87.** Mae ymchwil Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi ar brosiectau Partneriaeth Awyr Agored diweddar yn dangos gwelliannau mewn lles meddyliol a chorfforol, hunanhyder, annibyniaeth a chymdeithasu, ac elw ar fuddsoddiad o £7.12 am bob £1 a fuddsoddwyd, gan gefnogi'r egwyddor o 'atal' a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.[87] Er nad oeddent yn canolbwyntio ar cyrsiau addysg awyr agored breswyl, roedd llawer o'r effeithiau a aseswyd yn amlygu'r mwynhad a gafodd y cyfranogwyr o'r gweithgareddau, yn aml wedi cael eu cyflwyno i weithgareddau am y tro cyntaf ac yna'n

[86] Miller Research Evaluation Consulting, Gwerthusiad Economaidd a Chymdeithasol o'r Sector Gweithgareddau Awyr Agored yng Nghymru (2023)
[87] Gwerth Cymdeithasol Cymru, Agor Drysau i'r Awyr Agored (2023)

parhau yn ddiweddarach trwy glybiau gweithgareddau. Mae llawer o blant yn ymuno â chlybiau fel ffordd o hybu diddordeb yn yr awyr agored y cawsant eu cyflwyno iddynt ar gwrs addysg awyr agored breswyl.

**88.** Dangosodd astudiaeth o ddysgu yn yr amgylchedd naturiol mewn lleoliadau ysgolion cynradd, lle mae dysgu yn yr awyr agored wedi'i wreiddio yn arfer yr ysgol, y rhagolwg Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi yw £4.32 am bob £1 a fuddsoddir.[88] Er nad yw hyn yn berthnasol i ddigwyddiadau unigol fel cwrs addysg awyr agored breswyl, roedd yr astudiaeth yn cwmpasu arfer a oedd yn cynnwys cyrsiau preswyl.

**89.** Cynhaliwyd astudiaeth Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi mwy penodol ar fanteision cyrsiau addysg awyr agored breswyl yng Nghanada gydag Outward Bound.[89] Yno, roedd yr effeithiau hirdymor a briodolir i well gwydnwch, cyfalaf cymdeithasol a chysylltiad natur yn awgrymu Adenillion Cymdeithasol o Fuddsoddi sylweddol o ganlyniad i wrthbwyso costau gofal iechyd a chynhyrchiant cynyddol. Arweiniodd gwell cysylltedd cymdeithasol hefyd at ganlyniadau academaidd gwell, gwell cyfleoedd gwaith ac enillion gydol oes cysylltiedig a llai o ddibyniaeth ar gymorth y wladwriaeth. Nododd yr astudiaeth sawl effaith lle mae'r manteision a brofir gan y cyfranogwr hefyd yn cael effaith gadarnhaol, canlyniadol ar eu cyfoedion, eu teuluoedd ac oedolion arwyddocaol eraill.

## Cyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### Iechyd corfforol

**90.** Mae cyrraedd y targed o Gymru iachach yn seiliedig ar wella lles corfforol a meddyliol drwy wneud dewisiadau cadarnhaol am ymddygiad a ffordd o fyw. Mae Dringo'n Uwch, strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithgarwch corfforol,[90] a Dringo'n Uwch: y Camau Nesaf[91] ill dau yn hyrwyddo manteision gweithgaredd corfforol yn yr awyr agored ar iechyd, gan gyfeirio at nodau'r strategaeth sy'n cynnwys y canlynol:

- Mae angen i Gymru fod yn fwy egnïol yn gorfforol er mwyn bod yn genedl iachach.

[88] Council for Learning Outside the Classroom Learning Outside the Classroom: in natural environments (2022)
[89] Outward Bound Canada, Outward Bound Canada Impact Report (May 2020)
[90] Llywodraeth Cymru , Dringo'n Uwch, (2005)
[91] Llywodraeth Cymru, Dringo'n Uwch: Y camau nesaf, (2006)

- Mae angen dinasyddion iach ar Gymru i sicrhau ffyniant hirdymor.
- Mae angen i Gymru wneud y mwyaf o'r synergedd rhwng chwaraeon, gweithgarwch corfforol a'r amgylchedd naturiol.

**91.** Drwy greu hawl statudol, bydd y Bil yn datblygu'r cysyniadau hyn o iechyd a llesiant gydol oes drwy sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle i brofi gweithgareddau addysg awyr agored.

### Iechyd meddwl

**92.** Yn 2021-22, roedd iechyd meddwl yn unig yn cyfrif am 10.9% o gyfanswm gwariant y GIG yng Nghymru (tua £962 miliwn).[92] At hynny, amcangyfrifir bod iechyd meddwl yn costio £4.8 biliwn i economi Cymru bob blwyddyn[93] ac, er nad oes modd eu mesur yn uniongyrchol, mae gan cyrsiau addysg awyr agored breswyl botensial sylweddol i fod yn llawer mwy na phrofiadau untro a gallant ysgogi cyfranogiad gydol oes mewn gweithgaredd awyr agored, gyda manteision iechyd a lles cysylltiedig,[94] gan leihau'r effaith ar y GIG o bosibl.

**93.** Yn ei dro bydd hyn yn cael effeithiau hirdymor ar iechyd a lles y boblogaeth wrth iddynt adael yr ysgol a chael mwy o gyfle i ddod yn oedolion iach (hefyd yn unol ag un o bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru). Gallai manteision iechyd meddwl a llesiant rhaglenni addysg awyr agored breswyl leihau'r galw ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn y dyfodol agos a gallent hefyd leihau'r galw ar y GIG ehangach a gwasanaethau gofal iechyd yn y tymor hwy.

**94.** Mae iechyd meddwl plant wedi cael lle amlwg ar yr agenda polisi a chraffu yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys ymrwymiadau i flaenoriaethu ym maes iechyd meddwl, blaenoriaethu ailgynllunio gwasanaethau er mwyn gwella ataliaeth, mynd i'r afael â stigma, a hyrwyddo ymagwedd dim drws anghywir o ran cael mynediad at gymorth iechyd meddwl. Mae hyn yn cynnwys fframwaith NYTH[95] sy'n ceisio sicrhau dull system gyfan ar gyfer datblygu gwasanaethau iechyd meddwl, llesiant a

---

[92] Llywodraeth Cymru: Cyllidebau rhaglenni gwariant y GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022

[93] Adroddiad y Sefydliad Iechyd Meddwl: Yr achos economaidd dros fuddsoddi mewn atal cyflyrau iechyd meddwl yn y DU

[94] Takako Takano (2010) A 20-year retrospective study of the impact of expeditions on Japanese participants, Journal of Adventure Education and Outdoor Learning, 10:2, 77-94

[95] Llywodraeth Cymru, Fframwaith NYTH (iechyd meddwl a lles): cyflwyniad

chymorth i fabanod, plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a'u teuluoedd ehangach ledled Cymru.

**95.** Yn 2018, cyhoeddodd un o bwyllgorau'r Senedd "Cadernid Meddwl", sef adroddiad ar ei ymchwiliad i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc[96] a chynhaliodd waith craffu dilynol yn 2020.[97] Yn dilyn hynny, mae gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant gyfrifoldeb gweinidogol ar y cyd dros y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi canllawiau statudol i ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion ac awdurdodau lleol ar sefydlu dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol.[98] Mae gan y Senedd ddiddordeb a chyfrifoldeb craffu parhaus ar y maes polisi hwn, gan gynnwys yn fwyaf diweddar gan Senedd Ieuenctid Cymru[99] wrth i bryderon barhau am iechyd meddwl plant a'u mynediad amserol at wasanaethau,[100] yn bennaf oherwydd effaith pandemig COVID-19. Mae gan y Bil y potensial i gyfrannu'n sylweddol at fynd i'r afael â'r agenda hon.

### Mynediad teg

**96.** Mae'r nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o gael Cymru fwy cyfartal yn golygu herio anfantais economaidd-gymdeithasol a chreu cymdeithas gyfiawn lle mae gan bawb, waeth beth fo'u cefndir, fynediad cyfartal at y manteision. Mae hyn ymhell o fod yn wir o ran cael mynediad at gyrsiau preswyl. Hyd yn oed ar gyfer yr ysgolion hynny a drefnodd cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn 2022/23, mae data EVOLVE yn dangos bod 77% o'r ymweliadau am ddwy noson neu lai, a 23% am dair neu fwy.[101] Er bod rhai plant yn cael y cyfle i fanteisio'n llawn ar y manteision posibl, mae gan eraill gyfleoedd llawer mwy cyfyngedig neu ddim cyfleoedd o gwbl. Mae'r manteision yn anwastad, gan arwain at gyfleoedd anghyfartal yn y dyfodol.

**97.** Mae data o arolwg Ymgysylltu â'r Amgylchedd Naturiol Natural England (MENE) a gynhaliwyd am 10 mlynedd hyd at 2019 yn dangos bod mynediad i'r awyr agored ar gyfer grwpiau ymylol a lleiafrifol yn sylweddol is nag ar gyfer y mwyafrif. Yn 2018/19, roedd 70%

---

[96] Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ('Cadernid Meddwl') (2018)
[97] Senedd Cymru, Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bumed Senedd: Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc ("Cadernid Meddwl") – Gwaith dilynol (2020)
[98] Llywodraeth Cymru, Fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol (2021)
[99] Senedd Ieuenctid Cymru, Ein hiechyd meddwl a'n lles
[100] Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi gwneud iechyd meddwl plant a phobl ifanc a mynd ar drywydd model 'Dim Drws Anghywir' yn flaenoriaeth polisi ar gyfer 2023-26.
[101] Dadansoddiad o ddata EVOLVE a ddarparwyd gan Edufocus

o blant o gefndir gwyn yn treulio amser y tu allan unwaith yr wythnos, o gymharu â 56% o blant o gefndiroedd du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol.[102] Er nad oes data penodol ar gael, mae'n rhesymol tybio bod sefyllfa debyg yn bodoli yng Nghymru. Drwy roi hawl i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yn ystod addysg ffurfiol, bydd y Bil yn sicrhau bod pob plentyn, ni waeth beth yw ei gefndir, yn cael yr un cyfleoedd ar lefel ragarweiniol.

**Y Gymraeg**

**98.** Mae cyfleoedd i'r Bil fod o fudd i'r Gymraeg a chefnogi cynnydd tuag at darged Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru,[103] sef bod 70% o'r rhai sy'n gadael ysgol yn gallu siarad Cymraeg o'r lefel bresennol o tua 40%.[104] Drwy gael mynd i rannau eraill o'r wlad drwy gyrsiau addysg awyr agored breswyl, mae plant a phobl ifanc yn ehangu eu gorwelion ac yn cael cyfleoedd i ymgysylltu â gwahanol ardaloedd, eu cymharu a'u cyferbynnu, gan ymgysylltu â diwylliant ac iaith y tu hwnt i'w bywyd bob dydd arferol. Wrth wneud hynny, mae cyrsiau addysg awyr agored breswyl a gynhelir yng Nghymru yn cyfrannu at darged Cymraeg 2050 a'r nod ehangach o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan gyfrannu hefyd at uwchsgilio'r gweithlu, a datblygu ymhellach fynediad at gyfleoedd cyflogaeth yn sector gweithgareddau awyr agored yr economi. Gall dod i gysylltiad â'r Gymraeg, a dysgu amdani drwy gyrsiau addysg awyr agored breswyl, hefyd chwarae rhan bwysig wrth i ddisgyblion ymgysylltu â'u cynefin fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

**99.** Amlygodd sawl ymateb i'r ymgynghoriad y manteision y gall cymryd rhan mewn cyrsiau addysg awyr agored breswyl eu cael ar gyfer hyrwyddo a chefnogi'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Cyfeiriodd Dyfodol i'r Iaith at gynyddu hunaniaeth ac ymwybyddiaeth Gymreig fel un o dri phrif fantais addysg awyr agored breswyl, gan wella dealltwriaeth o'r berthynas rhwng Cymru a'r iaith a balchder cyfranogwyr yn eu Cymreictod.[105] Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg y gall addysg awyr agored gcaiffedd pwysig i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol a hwyliog. Cyfeiriodd at gyrsiau preswyl yr Urdd, er enghraifft, sy'n cynnig

[102] Natural England Arolwg Monitor of Engagement with the Natural Environment (MENE) (2019)
[103] Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050
[104] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru 2022
[105] Dyfodol i'r Iaith, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Ddatblygu Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)

cyfleoedd arwyddocaol i ddisgyblion ledled Cymru brofi ystod o weithgareddau awyr agored tra hefyd yn cael eu trochi yn y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.[106]

**Yr amgylchedd**

**100.** Mae adroddiad Llesiant Cymru 2022[107] hefyd yn tynnu sylw at y pryder cynyddol am yr amgylchedd ymhlith plant a phobl ifanc. Gall cyrsiau addysg awyr agored breswyl chwarae rhan bwysig wrth i blant a phobl ifanc ddatblygu perthnasoedd â'r amgylchedd naturiol, sy'n gam cyntaf pwysig wrth ddatblygu ymddygiadau amgylcheddol.

**101.** Amlygodd ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynigion y tu ôl i'r Bil yr effaith gadarnhaol y mae cymryd rhan mewn cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn ei chael ar agweddau pobl ifanc tuag at yr amgylchedd wrth iddynt dyfu i fyny. Gall y cysylltiad a'r ddealltwriaeth o natur a ddaw yn sgil profiad addysg awyr agored breswyl feithrin a chynaeafu agweddau ac ymddygiad cadarnhaol ynghylch materion hollbwysig megis cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd. Cyfeiriodd bron i draean o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyffredinol at y manteision o ran cysylltiadau â'r amgylchedd naturiol, a nododd dros 10% y datblygiad o agweddau cadarnhaol tuag at yr amgylchedd yn benodol.[108] Nododd cyfran debyg (10%) o blant a phobl a ymatebodd i'w hymgynghoriad dysgu am yr amgylchedd a natur fel prif fantais.[109]

## Beth sy'n digwydd mewn mannau eraill yn y DU?

**102.** Mae nifer o fentrau gwleidyddol yn cydredeg yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

**103.** Yn Lloegr, cyflwynodd Tim Farron AS Gynnig Cynnar-yn-y-Dydd (EDM) ym mis Mehefin 2023 yn galw ar i bob plentyn gael y cyfle i fanteisio ar addysg awyr agored yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol, ac i bob plentyn gael y cyfle i gael o leiaf un ymweliad addysg awyr agored breswyl yn ystod blynyddoedd ysgol gynradd ac o leiaf un yn ystod blynyddoedd ysgol uwchradd.[110] Cafodd y Cynnig gefnogaeth drawsbleidiol gan Aelodau o Senedd y DU.

---

[106] Comisiynydd y Gymraeg, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Ddatblygu Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)
[107] Llywodraeth Cymru, Llesiant Cymru 2022
[108] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023)
[109] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023)
[110] Senedd y DU, Cynigion Cynnar-yn-y-Dydd: Profiadau addysg awyr agored i blant (13 Mehefin 2023)

**104.** Wedi hynny, cyflwynodd Tim Farron AS Fil Aelod Preifat (Bil Cyflwyno) i Dŷ'r Cyffredin: "A Bill to require that every child be offered at least one outdoor education experience during primary school years and at least one such experience during secondary school years; and for connected purposes".[111] Roedd y darlleniad cyntaf ar 20 Mehefin 2023, ond nid yw'r dyddiad ar gyfer yr ail ddarlleniad wedi'i gyhoeddi hyd yn hyn.[112]

**105.** Yn yr Alban, cyflwynodd Liz Smith ASA y Bil Ysgolion (Addysg Awyr Agored Breswyl) (Yr Alban) arfaethedig ym mis Ebrill 2022.[113] Mae'n cynnig y dylai myfyrwyr yn yr Alban, o oed Cynradd 6 i Uwchradd 4 (sy'n cyfateb i flynyddoedd 7-11 yng Nghymru), gael profiad preswyl anturus am bedair noson a phum niwrnod unwaith yn ystod eu blynyddoedd ysgol. Byddai hefyd yn cyflwyno "safon addysgol" ar gyfer y profiad awyr agored preswyl yn seiliedig ar fframwaith ansawdd y cytunwyd arno gydag Education Scotland, HMIE a'r sector awyr agored preswyl. Mae'r Bil yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd ac mae'n debygol o gael ei gyflwyno i Senedd yr Alban gan Liz Smith ASA ddechrau 2024.

**106.** Mae Gogledd Iwerddon yn gweithredu nifer o ganolfannau dysgu awyr agored a gefnogir gan y wladwriaeth[114] sy'n darparu profiadau addysg awyr agored â chymhorthdal i blant a phobl ifanc fel rhan o gwricwlwm eu hysgol. Ac eithrio rhwng mis Ionawr 2020 a mis Chwefror 2022, mae Cynulliad Gogledd Iwerddon wedi'i atal dros dro ers dechrau 2017 ac nid oes unrhyw weithgarwch gwleidyddol cyfredol na diweddar yn ymwneud ag addysg awyr agored breswyl.

## Crynodeb o'r bennod

**107.** Mae'r bennod hon wedi rhoi trosolwg o amcanion polisi'r Bil, wedi nodi pam mae angen y Bil ac wedi gosod y Bil yng nghyd-destun deddfwriaeth a datblygiadau perthnasol eraill mewn mannau eraill yn y DU.

**108.** Mae gan Gymru dreftadaeth gyfoethog o addysg awyr agored sy'n cynnig cyfleoedd niferus ar gyfer datblygiad personol a chymdeithasol plant a phobl ifanc, i gyd o fewn cyd-destun y fframwaith galluogi a ddarperir gan y Cwricwlwm newydd i Gymru. Mae tystiolaeth ymchwil yn dangos yn glir y manteision sy'n gallu deillio o addysg awyr

[111] Tim Farron MP, Bil Addysg Awyr Agored Arfaethedig
[112] Ar ddyddiad cyflwyno Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru): 24 Tachwedd 2023
[113] Liz Smith ASA, Bil Ysgolion (Addysg Awyr Agored Breswyl) (Yr Alban) arfaethedig.
[114] Awdurdod Addysg (Gogledd Iwerddon), Gwasanaeth Dysgu Awyr Agored

agored ac yn gosod cyrsiau addysg awyr agored breswyl fel rhan allweddol o daith addysgol person ifanc. Mae'r manteision yn ymestyn y tu hwnt i'r unigolyn mewn lleoliad ysgol, gan gael effaith hirdymor bosibl ar ddysgu gydol oes, iechyd, cyflogaeth, yr economi a'r amgylchedd.

**109.** Fodd bynnag, mae mynediad at y manteision hyn yn anghyfartal. Mae anghysondebau ac amrywiadau o ran a yw ysgolion yn trefnu cwrs addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion ac mae dadansoddiad o ddata EVOLVE yn dangos bod dysgwyr mewn tua thraean o ysgolion cynradd a rhwng chwarter (yn seiliedig ar ddata 2018/19) a hanner (yn seiliedig ar 2022) o ysgolion uwchradd yn colli allan ar hyn o bryd gan nad oes unrhyw cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cael eu cynnig (gweler paragraffau 40 i 43).

**110.** Lle cynigir cyrsiau preswyl, mae'r lefelau amrywiol o gymorth ariannol sydd ar gael gan ysgolion ac awdurdodau lleol yn golygu bod rhieni ar incwm isel yn aml yn methu â thalu'r cyfraniadau ariannol sy'n angenrheidiol er mwyn i'w plant allu cymryd rhan, ac felly'n colli profiadau addysgol allweddol. Mewn tua thraean o ysgolion sy'n trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl, mae llai na 75% o ddisgyblion yn cymryd rhan, a chyfyngiadau ariannol yw'r prif reswm dros hynny (gweler paragraffau 44 i 48).

**111.** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyfeirio at degwch a llesiant yn gyson fel egwyddorion sylfaenol addysg yng Nghymru.[115] Bydd y Bil hwn yn sicrhau bod agweddau ar bob un yn cael eu cryfhau yng nghenhadaeth ein cenedl ac nad ydynt yn destun y pwysau sylweddol ar gyllidebau awdurdodau lleol na chostau dyraniadau i flaenoriaethau polisi eraill sy'n cystadlu â'i gilydd.

**112.** Bydd y Bil yn gosod Cymru ar flaen y gad o ran addysg awyr agored yn y DU, gan fanteisio ar ei thirwedd gyfoethog, ei diwylliant a'i chyfleoedd economaidd. Mae llywodraethau eraill yn Ewrop wedi gosod cynseiliau ar gyfer darpariaeth addysg awyr agored a ariennir yn ganolog, gyda Slofenia yn dangos safon uchel o addysg a hyfforddiant gyda phoblogaeth ac economi tebyg i Gymru. Yn fwy byd-eang, mae Singapore yn gweithredu rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan y wladwriaeth o ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl fel y gall pob plentyn a pherson ifanc gael manteision datblygiadol yn sgil ymweliad o'r fath.

[115] Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl: diweddariad Hydref 2020 (Hydref 2020) a Ein cenhadaeth genedlaethol: safonau uchel a dyheadau i bawb (Mawrth 2023)

# 4. Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham

**113.** Mae paragraffau 8 i 14 yn nodi amcanion polisi'r Bil, ac roedd y bennod flaenorol yn ei chyfanrwydd yn amlinellu pam mae angen y Bil a'r manteision cysylltiedig. Mae'r bennod hon o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio darpariaethau'r Bil a'r hyn y maent yn ei wneud yn ymarferol.

**114.** Mae'r Bil yn cynnwys y ddwy brif ddarpariaeth a ganlyn:

- Hawl disgyblion i gael o leiaf bedair noson a phum niwrnod o brofiad addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim (adran 1): Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, gan osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir unwaith, a hynny yn rhad ac am ddim, yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Rhaid i'r cwrs fod am o leiaf bedair noson a phum niwrnod o hyd a gellir ei ddarparu fel un neu fwy o ymweliadau. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl statudol, a fydd yn nodi sut y dylid darparu addysg breswyl yn yr awyr agored fel rhan o'r Cwricwlwm i Cymru. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl.

- Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i ariannu'r ddarpariaeth (adran 2): Bydd dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu cyllid digonol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, fel y'i diwygiwyd gan y Bil.

**115.** Mae adran 3 o'r Bil yn sicrhau bod bwyd a llety yn cael eu cynnwys yn rhad ac am ddim i ddisgyblion ar gyfer y cwrs addysg awyr agored breswyl sydd i'w ddarparu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Pan fydd ysgolion yn trefnu ymweliadau pellach yn ychwanegol at yr hawl am ddim y darperir ar ei gyfer yn y Bil hwn, gallant godi tâl am fwyd a llety fel y gallant wneud ar hyn o bryd.

## Hawl disgyblion i gael o leiaf bedair noson a phum niwrnod o brofiad addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim (adran 1):

**116.** Sefydlodd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021[116] (Deddf 2021) gwricwlwm newydd yng Nghymru i ddisgyblion 3 i 16 oed. Mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi'i drefnu o amgylch pedwar diben, chwe Maes Dysgu a Phrofiad, pedair elfen orfodol a thri sgìl trawsgwricwlaidd.[117]

**117.** Mae adran 1 o'r Bil yn diwygio Deddf 2021, gan greu hawl i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gael profiad o addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm. Mae rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith mewn ysgolion a gynhelir, a hynny yn rhad ac am ddim. Caiff y ddyletswydd hon ei rhoi ar Lywodraeth Cymru yn hytrach nag awdurdodau lleol neu ysgolion fel y gall Gweinidogion benderfynu ar y ffordd orau o weithredu hyn. Nid lle Llywodraeth Cymru o reidrwydd fydd darparu addysg awyr agored breswyl ei hun ond bydd rhaid iddi gymryd camau rhesymol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu.

**118.** Bydd yn ofynnol i gwrs addysg awyr agored breswyl o dan y Cwricwlwm i Gymru gynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod. Caiff ddigwydd ar un ymweliad neu gael ei ymestyn dros fwy nag un ymweliad. Er y bydd gan ddisgyblion hawl i gael pedair noson a phum niwrnod o addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm, nid oes dim i atal ysgol rhag trefnu profiadau ychwanegol y tu allan i'r cwricwlwm.

**119.** Mae'r hawl i gael addysg awyr agored breswyl yn berthnasol i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn unig ac felly nid yw'n cynnwys y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft mewn unedau cyfeirio disgyblion, neu'r rhai y mae eu rhieni'n addysgu eu plant gartref o ddewis. Nid yw'r Bil yn atal plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol rhag cymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl – mae llawer yn gwneud hynny eisoes a byddant yn parhau i wneud hynny. Fodd bynnag, mae Deddf 2021 yn gosod gofynion cwricwlwm gwahanol ar gyfer plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol i'r rhai ar gyfer plant eraill,[118] ac mae'r Bil hwn yn dilyn yr un trywydd. O ystyried manteision

[116] Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021
[117] Llywodraeth Cymru (gwefan Hwb), Cwricwlwm i Gymru
[118] Dim ond fersiwn gyfyngedig o'r Cwricwlwm i Gymru y mae plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn gorfod ei dilyn, lle mae'r pedwar diben yn berthnasol ac mae'n rhaid addysgu Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (MDPh), Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol sef

addysg awyr agored breswyl i blant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gellir cynnig yr addysg honno iddynt, boed fel rhan o'r hawl statudol neu drwy ddulliau eraill.

**120.** Er mwyn rhoi'r Bil ar waith, bydd angen i Lywodraeth Cymru ddatblygu dull cydgysylltiedig a chyson o ymdrin ag addysg awyr agored breswyl yng Nghymru. Mae sector addysg awyr agored breswyl sefydledig yng Nghymru, y mae llawer o ysgolion eisoes yn ei ddefnyddio. Mae gan y sector y capasiti i weithio gyda'r plant a'r bobl ifanc ychwanegol y bydd y Bil hwn o fudd iddynt. Mae datblygiad hanesyddol addysg awyr agored yng Nghymru yn golygu bod nifer uchel o ddarparwyr (tua 50) mewn ardal gymharol fach o gymharu â rhannau eraill o'r DU, sy'n golygu bod y dewis sydd ar gael i ysgolion sydd â phellteroedd teithio cymharol fyr i gael mynediad iddynt yn uchel.

**121.** O dan Ddeddf 2021, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod yr Hyn sy'n Bwysig statudol yn nodi'r cysyniadau allweddol yn y chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Rhaid i Weinidogion Cymru barhau i adolygu Cod yr Hyn sy'n Bwysig a chânt ei ddiwygio. Cyhoeddwyd Cod yr Hyn sy'n Bwysig am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2021 ac fe'i diweddarwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2023.[119]

**122.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2021 fel bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gynnwys yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig y bydd darparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn gysyniad allweddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu pa un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn sydd fwyaf addas.

**123.** Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ddyroddi canllawiau o dan Ddeddf 2021 i gyrff sy'n arfer swyddogaethau oddi tani. Mae hyn yn cynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau o'r fath mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl. Dyma fydd y prif fecanwaith y gall Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio i nodi'r manylion o ran sut y caiff y Bil ei roi ar waith yn ymarferol.

llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu i blant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol dderbyn yr agweddau eraill ar y Cwricwlwm i Gymru lle bo hynny'n rhesymol ac yn briodol.

[119] Llywodraeth Cymru, Cwricwlwm i Gymru: Y cod datganiadau o'r hyn sy'n bwysig (Mehefin 2023)

## Cyfyngu'r ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, ac felly'n rhad ac am ddim, i unwaith

**124.** O dan Ddeddf Addysg 1996 ("Deddf 1996"),[120] ac fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru i lywodraethwyr ysgol,[121] ni all ysgolion godi tâl am ymweliadau preswyl sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol neu sy'n gysylltiedig â dyletswydd a osodir gan neu o dan Ddeddf 2021. Cânt godi tâl am fwyd a llety ond nid am yr addysg a ddarperir nac am deithio. Mae adran 3 o'r Bil yn darparu bod bwyd a llety yn cael ei gynnwys yn y costau sydd am ddim i ddisgyblion ar gyfer cyrsiau addysg awyr agored breswyl a drefnir o dan Ddeddf 2021, fel y'i diwygiwyd gan y Bil (gweler paragraffau 147 i 148).

**125.** Mae adrannau newydd 64A(1), 64A(2) a 64A(9) o Ddeddf 2021, y mae adran 1 o'r Bil yn eu mewnosod, yn darparu mai unwaith yn unig y darperir cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n golygu mai dim ond un cwrs (o leiaf) am bedair noson a phum niwrnod fydd yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, rhagwelir y gall ysgolion drefnu ymweliadau ychwanegol y byddai'n rhaid i ddisgyblion, fel ar hyn o bryd, dalu amdanynt (er y gallai fod cymorthdaliadau i ddisgyblion o gartrefi incwm isel).

**126.** Diben y darpariaethau hyn yn y Bil yw sicrhau mai dim ond un cwrs addysg awyr agored breswyl a gaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys bwyd a llety, ac osgoi sefyllfa anfwriadol lle gallai ysgolion gael eu hannog i beidio â threfnu rhai cyrsiau addysg awyr agored breswyl pellach penodol nad ydynt yn cael budd o'r hawl am ddim a sefydlwyd gan y Bil, oherwydd efallai na fyddant yn gallu codi tâl am yr ymweliad neu am fwyd a llety.

**127.** Fel y mae adran newydd 64A(11) y Bil yn ei fewnosod yn Neddf 2021, nid oes dim yn atal addysg awyr agored breswyl rhag cael ei darparu y tu allan i'r hawl a sefydlwyd gan y Bil.

## Hyd ymweliadau unigol

**128.** Fel y nodwyd uchod (paragraff 118), mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran a yw cwrs addysg awyr agored breswyl (y mae rhaid iddo fod gyfwerth ag o leiaf pedair noson a phum niwrnod) yn digwydd ar un ymweliad neu wedi'i ymestyn dros fwy nag un ymweliad. Bydd angen olrhain disgyblion i weld a ydynt wedi cael profiad addysg

[120] Deddf Addysg 1996, adrannau 451-452
[121] Llywodraeth Cymru, Canllawiau llywodraethwyr i'r gyfraith: Pennod 17, Codi tâl am weithgareddau ysgol

awyr agored breswyl, y tybir y bydd awdurdodau lleol yn ei ymgorffori yn yr wybodaeth sydd ganddynt am ddisgyblion.

**129.** Mae ymchwil yn dangos bod ymweliadau addysg awyr agored breswyl hwy yn cael mwy o effaith o ran datblygiad personol a chymdeithasol na rhai byrrach.[122] Mae astudiaethau pellach i fanteision ymweliadau addysgol awyr agored yn dangos bod cyrsiau pum niwrnod yn cael mwy o effaith gadarnhaol ar ganfyddiadau o'r amgylchedd nag arosiadau byrrach.[123] [124] Roedd un ymateb i'r ymgynghoriad yn benodol (gan Her Cymru) yn crynhoi taith emosiynol y cyfranogwyr drwy gydol wythnos o addysg awyr agored breswyl a sut mae hyn yn eu galluogi i gael y budd mwyaf.[125]

**130.** Mae arosiadau hwy yn caniatáu ar gyfer datblygiad gwell yn y gymuned tymor byr sy'n elfen graidd o'r cwrs preswyl (gweler Pennod 3, paragraff 68). Mae ymgartrefu mewn amgylchedd newydd, dysgu sut mae'n gweithio ac yna cael amser i ddatblygu'r perthnasoedd, sy'n un o ganlyniadau allweddol cyrsiau addysg awyr agored breswyl, oll yn gwella yn sgil cyfnod o amser estynedig. Yn yr un modd, gellir cymhwyso dysgu personol, a gafwyd trwy brofiad, drwy weithgareddau dilynol. Mae arosiadau hwy hefyd yn rhoi mwy o werth am arian wrth ganiatáu ar gyfer costau cludiant a ffioedd darparwyr.

**131.** Fodd bynnag, roedd adborth a dderbyniwyd drwy'r ymgynghoriadau (gweler Pennod 5) yn dangos bod y farn am hyd gorau cwrs addysg awyr agored breswyl yn gymysg. Felly, er bod nifer o fanteision personol a chymdeithasol i arosiadau hwy, mae'r Bil yn cydnabod efallai na fydd hyd arhosiad o'r fath yn briodol i bob plentyn a pherson ifanc ac mae'n darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran hyd yr ymweliadau sy'n rhan o'r hawl am gyfnod o bedair noson/pum niwrnod.

[122] Fiennes, C. et al. (2015) The Existing Evidence-Base about the Effectiveness of Outdoor Learning. Llundain: Sefydliad Addysg Coleg Prifysgol Llundain. Evidence for Policy and Practice: Information and Co-ordinating Centre (EPPI-Centre) and Giving Evidence.
[123] Dillon, J. et al (2006) The value of outdoor learning: evidence from research in the UK and elsewhere. School Science Review, 87(320). tt.107-111
[124] Braun, T., a Dierkes, P. (2017) Connecting students to nature – how intensity of nature experience and student age influence the success of outdoor education programs. Environmental Education Research, 23(7), 937–949.
[125] Her Cymru, Ymateb i'r ymgynghoriad ar Ddatblygu Bil Addysg Awyr Agored (Cymru)

## Cod Addysg Awyr Agored Breswyl Statudol

**132.** Yn ogystal â'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig, o dan Ddeddf 2021, rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cod statudol ar ddilyniant o dan y cwricwlwm ac ar un o'r elfennau gorfodol – Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.

**133.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2021 i'w gwneud yn ofynnol i god statudol ychwanegol gael ei gyhoeddi – Cod Addysg Awyr Agored Breswyl. Fel gyda'r tri chod arall a nodir yn Neddf 2021, ni fydd cwricwlwm ysgol yn cydymffurfio â Deddf 2021 oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl.

**134.** Rhaid i'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl nodi'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar gyfer addysg awyr agored breswyl. Rhagwelir y gallai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi mwy o fanylion yn y Cod am yr hyn a olygir wrth addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys diffiniad o bosibl.

## Canllawiau Llywodraeth Cymru

**135.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf 2021 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl. Mae'n nodi rhai paramedrau ar yr hyn y mae rhaid i'r canllawiau ei gynnwys ac y caiff ei gynnwys. Mae'n bwysig nodi eu bod yn pennu pa faterion y mae <u>rhaid</u> i Weinidogion Cymru gynnwys canllawiau arnynt a pha eitemau y <u>caiff</u> benderfynu eu cynnwys. Oni nodir yn benodol, ni fwriedir iddynt nodi'r hyn y mae rhaid i'r cyrff sy'n arfer swyddogaethau a gwmpesir gan y canllawiau ei wneud neu beidio â'i wneud. Mater i Weinidogion Cymru fydd penderfynu hynny.

### Beth y mae <u>rhaid</u> i'r canllawiau eu cynnwys

**136.** Rhaid i'r canllawiau ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu. Y bwriad y tu ôl i'r Bil yw rhoi cyfle i ddisgyblion (a'u hannog i'w gymryd), er na ddylid eu gorfodi.

**137.** Rhaid i'r canllawiau ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn disgybl, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol y gallai fod ganddynt. Mae hyn yn cyd-fynd â gofynion cyffredinol y Cwricwlwm i Gymru, fel y nodir yn Neddf 2021.

**138.** Rhaid i'r canllawiau ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny. Mae hyn yn cyd-fynd â'r egwyddor a dderbynnir yn gyffredinol y dylai dysgwyr dderbyn addysg yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg.[126] Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar gapasiti ac argaeledd. Mae 23% o ddisgyblion yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg,[127] er bod y gyfran a ddywedodd eu bod yn gallu siarad yn 40% yng nghyfrifiad 2011 a 34% yng nghyfrifiad 2021.[128] Ac eithrio gwersylloedd yr Urdd yng Nglan Llyn a Llangrannog, mae'r capasiti i ddarparu cyrsiau addysg awyr agored breswyl drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'i gyfyngu i lond llaw o ddarparwyr eraill yn unig. Mae hyn yn bennaf oherwydd y niferoedd isel o hyfforddwyr Cymraeg sy'n gweithio yn y sector, er bod prosiect hirdymor yn cael ei redeg gan y Bartneriaeth Awyr Agored ledled Cymru[129] yn araf greu newid cenhedlaeth mewn capasiti. Mae annog plant i fwynhau'r awyr agored am oes drwy brofiadau effaith uchel cychwynnol fel y rhai ar cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cyfrannu at gynyddu'r gweithlu yn y sector gweithgareddau awyr agored sy'n siarad Cymraeg.

**139.** Rhaid i'r canllawiau wneud darpariaeth mewn perthynas â'r costau y byddai'n rhesymol eu talu mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl. Nid yw'n fwriad gan y Bil y dylai'r pwrs cyhoeddus ariannu gwyliau neu ymweliadau gormodol ac anghymesur, yn enwedig lle nad oes ganddynt unrhyw fantais addysgol neu ddatblygiad personol, neu os ydynt yn gyfyngedig. Rhaid i'r canllawiau ddarparu ar gyfer pa gostau y byddai'n rhesymol eu hysgwyddo mewn perthynas â bwyd a llety a chludiant. Mae Deddf 1996 yn atal ysgolion rhag codi tâl am gostau addysg a chludiant y telir amdanynt ar weithgareddau preswyl sy'n digwydd yn ystod oriau ysgol neu sy'n gysylltiedig â dyletswydd a osodir gan neu o dan Ddeddf 2021, er y gallant godi tâl am gostau bwyd a llety yn y naill achos neu'r llall. Bydd yr agwedd hon ar y canllawiau, ochr yn ochr ag adrannau 452 a 455 o Ddeddf 1996 fel y'i diwygiwyd gan adran 3 o'r Bil, yn ei gwneud yn glir bod costau bwyd, llety a chludiant i'w hariannu pan fydd cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cael eu cynnig o dan y ddyletswydd yn yr adran newydd 64A o Ddeddf 2021.

[126] Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn datgan, mewn ysgol sydd wedi'i chategoreiddio fel ysgol cyfrwng Cymraeg, bod o leiaf 60% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 70% o'u gweithgareddau ysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg, ac mewn ysgol benodedig cyfrwng Cymraeg mae 100% o ddysgwyr yn ymgymryd ag o leiaf 90% o weithgareddau eu hysgol (cwricwlaidd ac allgyrsiol) yn Gymraeg.
[127] Mae hyn yn seiliedig ar 108,866 o ddisgyblion yn mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg, allan o gyfanswm o 469,872 o ddisgyblion. Llywodraeth Cymru, Canlyniadau cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023
[128] Llywodraeth Cymru, Y Gymraeg yng Nghymru (Cyfrifiad 2021)
[129] Y Bartneriaeth Awyr Agored, Amdanom ni

## Beth y caiff y canllawiau eu cynnwys

**140.** Caiff y canllawiau nodi pa oedran/oedrannau, neu ym mha grŵp/grwpiau blwyddyn, y dylid cynnig addysg awyr agored breswyl i ddisgyblion. Roedd y Memorandwm Esboniadol a gyhoeddwyd ynghylch yr amcanion polisi ym mis Awst 2022 a'r ddogfen ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023 yn trafod bod Blwyddyn 6 yn oedran cyffredin i blant gael profiad o addysg awyr agored breswyl wrth iddynt baratoi i adael yr ysgol gynradd a dechrau'r ysgol uwchradd. Mae manteision clir i cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn y cyfnod pontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd ac roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn atgyfnerthu hyn. Fodd bynnag, roedd rhai galwadau am hyblygrwydd o ystyried y manteision a all ddeillio o oedrannau eraill hefyd. Mater i Lywodraeth Cymru fydd ystyried hyn ymhellach wrth roi darpariaethau newydd Deddf 2021 a fewnosodwyd gan y Bil ar waith.

**141.** Caiff y canllawiau ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae cysylltiadau posibl amlwg rhwng cynnal cwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghymru a chael eich amlygu i'r Gymraeg a dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Er efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl ar bob achlysur ac ym mhob lleoliad, wrth weithredu darpariaethau newydd Deddf 2021 fel y'u nodir yn y Bil, gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut i gyflawni buddiannau polisi eraill megis Cymraeg 2050 a chysylltiad a dealltwriaeth pobl ifanc o'u cynefin a diwylliant Cymreig yn fwy cyffredinol.

**142.** Caiff y canllawiau nodi gofynion y mae rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg breswyl. Gall addysg awyr agored breswyl fod ar sawl ffurf, ac mae rhai ohonynt yn ddarostyngedig i ofynion trwyddedu statudol o dan Ddeddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 a Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004.[130] Lle nad oes angen trwyddedu gweithgareddau,[131] mae nifer o gynlluniau

[130] Mae Deddf Canolfannau Gweithgareddau (Diogelwch Pobl Ifanc) 1995 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n darparu – yn gyfnewid am dâl – weithgareddau antur a gwmpesir gan Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur 2004, i bobl ifanc o dan 18 oed gael trwydded Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur a chadw at ei amodau. Lle nad yw darparwyr addysg awyr agored breswyl yn darparu, yn gyfnewid am dâl, weithgareddau antur a gwmpesir gan y drwydded, i bobl ifanc o dan 18 oed, mae'n ofynnol iddynt roi sicrwydd o arolygiad trydydd parti sy'n dangos cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd a diogelwch berthnasol a darpariaeth addysgol o ansawdd uchel.

[131] Mae'r Rheoliadau Trwyddedu Gweithgareddau Antur yn diffinio grwpiau o weithgareddau, ac mae darparu trwydded Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur yn angenrheidiol (h.y. merlota, dringo, ogofa, a chwaraeon dŵr). Mae gweithgareddau wedi'u diffinio'n dynn a gall darparwyr addysg awyr agored gynnig gweithgareddau nad ydynt yn dod o dan gylch gorchwyl y Rheoliadau, megis dringo ar waliau

achredu gwirfoddol yn bodoli sy'n rhoi sicrwydd i gleientiaid ynghylch ansawdd a diogelwch.[132] Er enghraifft, mae cael Bathodyn Ansawdd Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth gan ddarparwyr addysg awyr agored yn ddangosydd darpariaeth addysgol o ansawdd da, sy'n ddangosydd a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (OEAP) yn darparu canllawiau pellach ar drefnu ymweliadau addysgol a dysgu yn yr awyr agored, a gymeradwyir gan Lywodraeth Cymru.[133]

**143.** Caiff y canllawiau wneud darpariaeth mewn perthynas â chostau staff ysgolion sy'n ymwneud â chwrs addysg awyr agored breswyl o dan Ddeddf 2021. Amlygodd rhai ymgyngoreion, yn enwedig undebau athrawon a phenaethiaid, y gallai fod costau ychwanegol o ran staff ysgol – naill ai o ran y rhai sy'n mynd gyda disgyblion ar yr ymweliad neu'r rheini sy'n cyflenwi yn eu habsenoldeb neu'n addysgu disgyblion nad ydynt wedi mynd am unrhyw reswm. Ystyrir y costau hyn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Llywodraeth Cymru i ystyried yr hyn y gallai fod angen ei gynnwys yn y canllawiau.

**144.** Caiff y canllawiau gynnwys unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.

## Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i ariannu'r ddarpariaeth (adran 2)

**145.** Un ystyriaeth drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r Bil fu sicrhau, cyn belled ag y bo modd, nad oes rhaid i unrhyw gostau ychwanegol o'r hawl i addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim i ddisgyblion, gael eu talu o gyllidebau presennol awdurdodau lleol neu ysgolion.

**146.** Mae adran 2 o'r Bil yn diwygio Deddf 2021 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu digon o gyllid i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu addysg awyr agored breswyl o dan Ddeddf 2021, fel y'i diwygiwyd gan y Bil. Mae hyn ar wahân i'r trefniadau

artiffisial, cerdded ar dir isel, canŵio ar grynofa bach iawn o ddŵr cysgodol, saethyddiaeth neu weithgareddau byw yn y gwyllt, sy'n golygu nad oes angen trwydded Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur arnynt.

[132] Mae'r rhain yn cynnwys: Bathodyn Ansawdd Dysgu y Tu Allan i'r Ystafell Ddosbarth; Safon Aur Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored (AHOEC); Adventuremark; Cynllun Sicrwydd Gweithgareddau Antur Croeso Cymru; a Chod Ymarfer Cymdeithas Darparwyr Gweithgaredd Prydain.

[133] Llywodraeth Cymru, Ymweliadau addysgol a dysgu yn yr awyr agored

presennol ar gyfer pennu cyllidebau ysgolion o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

## Gwneud bwyd a llety yn rhad ac am ddim i ddisgyblion ar gyfer cyrsiau addysg awyr agored breswyl sy'n rhan o'r cwricwlwm (adran 3)

**147.** O dan Ddeddf 1996, ni all ysgolion godi tâl am elfennau addysg a chludiant ymweliadau preswyl a wneir yn ystod oriau ysgol neu sy'n gysylltiedig â dyletswydd a osodwyd gan neu o dan Ddeddf 2021, er y gallant godi tâl am fwyd a llety. Fodd bynnag, yn achos cyrsiau addysg awyr agored breswyl, mae bwyd a llety yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r costau. Mae'r Bil yn darparu, pan cynhelir cyfnodau preswyl o'r fath er mwyn bodloni'r gofynion y mae'r Bil yn eu gosod ar y Cwricwlwm i Gymru, nad yw'r esemptiad o ran bwyd a llety o dan Ddeddf 1996 i atal codi tâl yn gymwys.

**148.** Fodd bynnag, pan fydd cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cael eu trefnu yn ychwanegol at yr hawl y darperir ar ei chyfer gan y Bil, bydd y trefniadau codi tâl presennol o dan Ddeddf 1996 yn gymwys lle bydd ysgolion yn gallu codi tâl am addysg a theithio os nad yw'r ymweliad yn gysylltiedig â Deddf 2021 a'i fod y tu allan i oriau ysgol, a gall godi tâl am gost bwyd a llety beth bynnag. Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae hyn er mwyn osgoi sefyllfa anfwriadol lle gallai ysgolion gael eu hannog i beidio â threfnu rhagor o gyrsiau addysg awyr agored breswyl nad ydynt yn gallu elwa ar yr hawl am ddim y darperir ar ei chyfer gan y Bil, gan ei bod yn bosibl na fyddant yn gallu codi tâl am yr ymweliad neu am fwyd a llety ac yn gorfod talu costau o'r fath eu hunain.

## Yr hyn nad yw'r Bil yn ei wneud

**149.** Mae'r bennod hon wedi egluro beth mae'r Bil yn ei wneud. Mae'n bwysig nodi rhai pethau nad yw'r Bil yn eu gwneud. Nid yw'n:

- gorfodi unrhyw blentyn neu berson ifanc i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yn groes i'w ewyllys;
- ceisio ariannu'r hawl i gwrs addysg awyr agored breswyl o'r cyllidebau addysg presennol;
- rhoi hawl i blant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol fynd ar gwrs addysg agored breswyl o dan y cwricwlwm – yn unol â'r cwricwlwm ar wahân sydd ar

waith ar gyfer plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol o dan Ddeddf 2021; fodd bynnag nid yw ychwaith yn atal plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol rhag cael addysg awyr agored breswyl, a'r gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ymhellach sut i fwrw ymlaen â hyn;

- pennu natur y profiad addysg awyr agored breswyl y dylai plentyn neu berson ifanc ei gael;
- pennu pryd y dylid cynnal cwrs addysg awyr agored breswyl yn ystod gyrfa ysgol plentyn neu berson ifanc;
- anelu at ariannu cynlluniau cyfranogiad gwirfoddol sy'n aml yn cael eu darparu trwy leoliad ysgol, fel cynllun Gwobr Dug Caeredin.

## Crynodeb o'r Bennod

**150.** Mae'r bennod hon wedi nodi darpariaethau'r Bil a'r hyn y maent yn ei wneud yn ymarferol.

**151.** Mae'r Bil yn cynnwys dwy brif ddarpariaeth:

- Hawl disgyblion i gael o leiaf bedair noson a phum niwrnod o brofiad addysg awyr agored breswyl, yn rhad ac am ddim (gweler paragraffau 152 i 157 isod am ragor o fanylion).
- Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i ariannu'r ddarpariaeth.

**152.** Mae'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, a hynny am ddim, fel rhan o gwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir. Rhaid i'r cwrs addysg awyr agored breswyl hwn gynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod a chaiff ddigwydd ar un ymweliad neu gael ei ymestyn dros fwy nag un ymweliad.

**153.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 fel bod rhaid i Lywodraeth Cymru gynnwys yn y Cod yr Hyn sy'n Bwysig y bydd darparu cwrs addysg awyr agored breswyl unwaith yn gysyniad allweddol o fewn Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd Llywodraeth Cymru yn gallu penderfynu pa un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad hyn sydd fwyaf addas.

**154.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 i'w gwneud yn ofynnol i god statudol ychwanegol gael ei ddyroddi – Cod Addysg Awyr Agored Breswyl. Fel gyda'r tri chod arall a nodir yn Neddf 2021, ni fydd cwricwlwm ysgol yn cydymffurfio â Deddf 2021 oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl.

**155.** Rhaid i'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl nodi'r ffordd y mae'r cwricwlwm yn gwneud darpariaeth ar gyfer addysg awyr agored breswyl.

**156.** Mae'r Bil yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl. Mae'n nodi rhai paramedrau ar yr hyn y mae rhaid i'r canllawiau ei gynnwys ac y gallai ei gynnwys.

**157.** Nid oes unrhyw beth yn y Bil yn atal addysg awyr agored breswyl rhag cael ei darparu y tu allan i'r hawl a sefydlwyd gan y Bil.

# 5. Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghori â'r cyhoedd

**158.** Mae'r bennod hon yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gynhaliwyd i gefnogi'r Bil rhwng haf 2022 a mis Gorffennaf 2023. Mae cefnogaeth gref ac eang i'r cynigion y tu ôl i'r Bil hwn.

## Ymgynghoriad anffurfiol cyntaf

**159.** Yn dilyn canlyniad y balot cychwynnol yn ystod haf 2022, a gychwynnodd y broses o geisio cydsyniad y Senedd i ddatblygu a chyflwyno Bil, gofynnwyd am gefnogaeth gan y sefydliadau addysg awyr agored blaenllaw ledled Cymru, a chafwyd cefnogaeth gan y canlynol:

- Cymdeithas Penaethiaid Canolfannau Addysg Awyr Agored
- Y Sefydliad Addysg Awyr Agored
- Urdd Gobaith Cymru
- Prifysgol Bangor
- Cynghrair Awyr Agored Cymru
- Sefydliad Twristiaeth Antur Cymru
- Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru
- Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro
- Cyngor Cymru ar gyfer Dysgu yn yr Awyr Agored
- Partneriaeth Awyr Agored
- Eryri Bywiol
- Pwyllgor Cynghorol y Diwydiant Gweithgareddau Antur
- Hyfforddiant Mynydda Cymru
- Canolfan Awyr Agored Arete
- Ymddiriedolaeth Outward Bound

- Y Cyngor Astudiaethau Maes
- Canolfan Storey Arms
- Canolfan Addysg Awyr Agored Bryntysilio
- Cyngor Mynydda Prydain
- Panel Cynghorwyr Addysg Awyr Agored (Cymru)
- Cerddwyr Cymru
- Canolfannau Dysgu Gweithredol
- Canŵ Cymru
- Adventure Beyond
- Grŵp Siarter Arfordiro Cenedlaethol
- Cyngor Ogofâu Cambrian
- Canolfan Addysg Awyr Agored Rhos y Gwaliau
- Canolfan Fynydd Blue Peris
- Y Gymdeithas Mannau Agored
- Cymdeithas Ogofâu Prydain

## Ymgynghoriad ar amcanion polisi'r Bil

**160.** Cynhaliwyd ymgynghoriad cyffredinol ar y cynigion ar gyfer y Bil rhwng 31 Ionawr a 17 Mawrth 2023. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion hyn.[134]

**161.** Roedd yn dangos lefel sylweddol iawn o gefnogaeth i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynigion.

[134] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023)

- Roedd pawb a ymatebodd yn cytuno bod addysg awyr agored yn bwysig i addysg a datblygiad cyffredinol plant a phobl ifanc (dywedodd 94% eu bod yn "Bwysig iawn").
- Roedd y mwyafrif llethol yn credu y dylai fod cyfle i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl (dim ond 3% a ddywedodd "Na").
- Roedd mwyafrif mawr (85%) yn credu y dylai'r cyfle hwn fod yn rhad ac am ddim o leiaf unwaith (6% yn dweud "Na", 9% yn dweud "Ddim yn gwybod").
- Roedd 83% yn cytuno â'r angen am y Bil (roedd 9% yn anghytuno a 7% yn niwtral).

**162.** Roedd dros hanner y 6% a oedd yn anghytuno ag un neu fwy o'r egwyddorion allweddol y tu ôl i'r cynigion yn benaethiaid neu'n gynrychiolwyr penaethiaid. Rhoddodd y rhai a oedd yn anghytuno yn bennaf y rhesymau a ganlyn:

- Pryder y bydd cyllid yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o gyllidebau craidd ysgolion, y credant ddylai fod yn flaenoriaeth i unrhyw wariant sydd ar gael ar gyfer addysg.
- Goblygiadau staffio os yw hyn yn cael ei wneud yn statudol - bod â niferoedd digonol o staff ysgol i hebrwng disgyblion a'r effaith a'r pwysau ar y rhai sy'n fodlon mynd.
- Pryderon na fydd ysgolion yn derbyn arian ar gyfer costau llawn y gofynion staffio – pa un ai i dalu goramser i'r rhai sy'n goruchwylio ymweliadau neu i ganfod staff i gyflenwi yn ystod eu habsenoldeb.

**163.** Mae adran 2 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid yn benodol i ariannu'r ddarpariaeth addysg awyr agored breswyl o dan Ddeddf 2021, fel y'i diwygiwyd gan y Bil, sydd â'r nod o leddfu pryderon y bydd y costau'n cael eu talu o gyllidebau craidd ysgolion neu na fydd ysgolion yn cael eu had-dalu'n llawn am y costau y bydd yn rhaid iddynt dalu.

**164.** Fel yr amlinellwyd ym Mhennod 3, mae llawer o ysgolion a staff addysgu eisoes yn trefnu ac yn mynychu cyrsiau preswyl. Mae'r Bil yn mynd i'r afael â'r bwlch rhwng y plant a'r bobl ifanc hynny sydd eisoes yn mynychu cyrsiau preswyl a'r rhai nad ydynt yn mynychu, gan ddarparu'r modd i alluogi mynediad cyfartal. Mae'r Bil yn cynnwys

darpariaeth y caiff y canllawiau y mae rhaid i Lywodraeth Cymru eu cyhoeddi fynd i'r afael â mater costau staff ysgolion.

**165.** Gan ategu ymchwil, y manteision a nodwyd amlaf o brofiad awyr agored preswyl oedd mwy o hyder ac annibyniaeth a sgiliau gwaith tîm gwell; iechyd a lles gwell; a chysylltiadau cadarnhaol â'r amgylchedd naturiol, a dealltwriaeth ohoni.

**166.** Gan atgyfnerthu dealltwriaeth a chanfyddiadau blaenorol, gan gynnwys arolwg OEAP ym mis Hydref 2022,[135] y rhwystr a nodir amlaf ar hyn o bryd rhag i blant a phobl ifanc gael mynediad at addysg awyr agored breswyl oedd cyfyngiadau ariannol. Rhwystrau eraill a nodwyd yn aml oedd pryder/ansicrwydd ymysg y rheini a'r plant.

**167.** Er bod tua hanner yr ymatebion yn cytuno â'r dewis a roddwyd yn y cwestiwn mai Blwyddyn 6 oedd yr oedran mwyaf addas, roedd arwydd eithaf cryf nad oes oedran gorau, ei fod yn dibynnu ar sawl ffactor a'i bod yn well peidio â rhagnodi oedran o bosibl. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran yr oedran y gellir cael mynediad at addysg awyr agored breswyl, a mater i Lywodraeth Cymru ei ystyried ymhellach fydd hynny fel rhan o roi'r Bil ar waith.

**168.** Yn yr un modd, er bod tua hanner yr ymatebion yn cytuno â'r dewis a roddwyd yn y cwestiwn o bedair noson/pum niwrnod, cafwyd arwydd eithaf cryf fod hyd mwyaf addas yr arhosiad yn dibynnu ar sawl ffactor ac mai'r peth gorau efallai fyddai peidio â rhagnodi hyd y profiadau. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd ynghylch a ddarperir yr hawl i gael pedair noson/pum niwrnod o leiaf yn olynol ai peidio.

**169.** Pan ofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa grwpiau o blant allai elwa'n arbennig ar y cynnig, tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb a mynediad i bawb. Gwnaethant nodi plant a phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn benodol, y rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu anableddau, grwpiau ethnig leiafrifol a'r rhai sy'n profi trafferthion mewn amgylchedd ystafell ddosbarth draddodiadol.

**170.** Pan ofynnwyd iddynt nodi pa grwpiau o blant y gallai'r cynnig effeithio'n negyddol arnynt, nododd yr ymatebwyr blant sy'n dioddef o orbryder gan amlaf. Roedd hyn hefyd yn ymestyn i blant y gallai eu rhieni fod yn bryderus ynghylch eu plentyn yn mynychu ymweliad preswyl. Bydd yn bwysig i ddisgyblion a rhieni dderbyn gwybodaeth am addysg

[135] Sam Rowlands AS, Papur ystadegol: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Hydref 2022) – papur a gyhoeddwyd cyn dadl y Senedd ar y cynnig ar 26 Hydref 2022.

awyr agored breswyl fel bod pawb yn gwybod beth i'w ddisgwyl, a fydd, gobeithio, ynghyd â chael gwared ar y pryderon ariannol sy'n gysylltiedig â thalu am yr ymweliad, yn lleddfu unrhyw bryderon. Yn gysylltiedig ymhellach â'r ymweliad, ni fydd disgyblion yn cael eu gorfodi i fynychu os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny a bydd angen caniatâd rhieni.

## Ymgynghoriad plant a phobl ifanc

**171.** Cynhaliwyd fersiwn plant a phobl ifanc o'r ymgynghoriad rhwng 10 Mai a 23 Mehefin 2023. Cafodd ei gynnal ar ffurf arolwg ar-lein, a chafodd ei ddylunio a'i ddatblygu gyda phlant a phobl ifanc gan academydd allanol sy'n arbenigo mewn astudiaethau plentyndod a methodolegau cyfranogiad plant.

**172.** Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion hyn.[136] Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o dan 13 oed, gyda rhai plant hŷn ac oedolion hefyd yn ymateb.

**173.** Dangosodd yr ymgynghoriad lefel sylweddol iawn o gefnogaeth ymhlith plant a phobl ifanc i'r egwyddorion y tu ôl i'r cynigion.

- Wrth ateb cwestiwn am ba mor bwysig yw hi, ar raddfa o 1 i 10, i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim ar ryw adeg, rhoddodd 89% o'r ymatebwyr o dan 13 oed sgôr o saith neu fwy allan o 10. Rhoddodd 34% o'r ymatebwyr sgôr o 10 allan o 10.
- Roedd 74% o'r ymatebwyr o dan 13 oed yn credu y dylai fod deddfwriaeth i sicrhau y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim. Dywedodd 18% "efallai" a dywedodd 8% "na".

**174.** Y pethau da a nodwyd amlaf am gael addysg awyr agored dros nos oedd y cyfle i greu perthynas glos â ffrindiau a chael hwyl; ennill mwy o annibyniaeth a'r profiad o fod oddi cartref/i ffwrdd o'u rhieni; dysgu sgiliau newydd; dysgu am yr amgylchedd a natur; a threulio amser yn yr awyr iach, wrth anturio yn yr awyr agored.

**175.** Y rhwystr a nodwyd amlaf i blant a phobl ifanc gael mynediad at addysg awyr agored dros nos ar hyn o bryd oedd y gost. Roedd teimlo'n bryderus ymhlith plant a rhieni hefyd yn uchel iawn ar y rhestr, ac yna'r posibilrwydd na fyddai ffrindiau'n mynd. Fel

[136] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)

y soniwyd yn gynharach, bydd yn bwysig i ddisgyblion gael gwybodaeth am addysg awyr agored breswyl fel eu bod yn gwybod beth i'w ddisgwyl, a fydd, gobeithio, yn lleddfu unrhyw bryderon. Ni fydd disgyblion yn cael eu gorfodi i fynychu os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny.

**176.** Nododd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr mai Blwyddyn 5 neu Flwyddyn 6 fyddai'r oedran gorau i gymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos, tra nododd 70% o'r ymatebwyr ystod ychydig yn ehangach o oedrannau rhwng Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8. Fodd bynnag, nid oedd consensws mawr ar gyfer un grŵp blwyddyn neu oedran. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd o ran yr oedran y gellir cael mynediad at addysg awyr agored breswyl, a mater i Lywodraeth Cymru ei ystyried ymhellach fydd hynny fel rhan o roi'r Bil ar waith.

**177.** Yn yr un modd, roedd barn gymysg am ba hyd y dylai ymweliad fod. Nododd 42% gyfnodau o lai nag un wythnos ysgol, tra bod 34% yn ffafrio cyfnodau o wythnos ysgol neu fwy. Rhoddodd 16% atebion a oedd rhywle rhwng y ddau gyfnod hyn o amser. Mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd ynghylch a ddarperir yr hawl i gael pedair noson/pum niwrnod o leiaf yn olynol ai peidio.

**178.** Wrth ateb cwestiwn am ba grwpiau o blant a fyddai'n elwa fwyaf, nododd dros hanner yr ymatebwyr y byddai pob plentyn yn elwa heb nodi rhagor o fanylion. Nododd 15% a 13% o'r ymatebwyr, yn y drefn honno, y byddai plant o gartrefi incwm isel a phlant ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychwanegol yn elwa.

**179.** Wrth ateb cwestiwn am sut y gall oedolion sy'n ymwneud â threfnu addysg awyr agored dros nos sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau, dywedodd tua chwarter o'r ymatebwyr y dylent sicrhau bod y plant yn cael hwyl ac yn cael gwneud gweithgareddau da. Y peth nesaf a nodwyd oedd rhoi sylw dyledus i emosiynau a phryderon plant, yna sicrhau bod darpariaeth drefnus o safon ar gael, cadw'r plant yn ddiogel, a rhoi rhywfaint o ryddid a seibiant iddynt rhag 'llymder' yr ysgol.

**180.** Clywyd barn hefyd gan grwpiau o blant ysgol ar ymweliadau â'r Senedd nad oedd yn gysylltiedig â'r Bil. Roedd y rhain ar y cyfan yn atgyfnerthu canfyddiadau'r arolwg ar-lein. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y crynodeb o'r gwaith ymgysylltu.[137]

[137] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghych y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)

## Ymgynghoriad ar y Bil drafft

**181.** Cafodd Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) drafft ei gyhoeddi ar 14 Gorffennaf 2023. Gofynnwyd am farn grŵp dethol o randdeiliaid a fydd â rôl benodol wrth roi'r Bil ar waith. Cafwyd ymatebion gan bum sefydliad, a gyhoeddir ar wefan y Senedd.[138]

- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru / Cyngor Sir Gâr
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**182.** Roedd ymateb Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru ar ffurf papur gan swyddogion Cyngor Sir Gâr i reolwyr yr awdurdod lleol. Disgrifiodd y Bil fel cam cadarnhaol sy'n cyd-fynd yn dda iawn â'r Cwricwlwm i Gymru ac y bydd yn helpu i wreiddio dysgu yn yr awyr agored a dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn addysg. Dywedodd Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru fod gan y Bil y potensial i greu profiad dysgu cyfannol sy'n cael ei arwain yn fwy gan ddysgwyr gan alluogi'r rhai sy'n cael trafferth gydag amgylchedd dysgu mwy traddodiadol i ffynnu.

**183.** Nododd CLlLC fod awdurdodau lleol yn cytuno y byddai hawl neu 'warant' (fel y'i gelwir weithiau yn y ddogfen ymgynghori), i gael cyfle am ddim i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl o fantais gadarnhaol i blant a phobl ifanc. Ychwanegodd fod awdurdodau lleol yn teimlo y byddai angen trefniant ffurfiol gyda chyflenwyr ac i'r "system fod [yn ddiogel], yn atebol ac yn cwrdd â'r disgwyliad heb risg o ymgyfreitha". Bydd hyn yn fater i Lywodraeth Cymru ei ystyried fel rhan o'i roi ar waith. Galwodd CLlLC hefyd am fyfyrio ar ystyr "gwarant" yn y cyd-destun o'r Fil. Yn syml, mae'n golygu y bydd disgyblion yn cael y cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl. Nid yw'r term "gwarant" yn rhan o'r Bil.

**184.** Dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ei fod yn credu'n gryf yng ngrym trawsnewidiol addysg ac yn cydnabod bod yr amgylchedd naturiol yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad cyfannol unigolion, yn enwedig plant a phobl ifanc. Dywedodd y Comisiynydd fod addysg awyr agored breswyl yn ategu'r Cwricwlwm i Gymru, sy'n

[138] Ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

pwysleisio perthnasedd profiadau'r byd go iawn (gweler paragraff 201). Galwodd hefyd am i'r wybodaeth esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil gyfeirio at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Nodau Llesiant Cenedlaethol. Mae paragraffau 90 i 101 ym Mhennod 3 yn trafod hyn.

**185.** Mae Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon yn nodi ei amheuon ynghylch y Bil drafft, gan ailadrodd y gwrthwynebiad a fynegwyd ganddo yn yr ymgynghoriad cyffredinol. Er bod Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon wedi adrodd bod arweinwyr ysgolion yn hynod gefnogol i'r egwyddor o addysg awyr agored, roedd yn cwestiynu ai dyma'r maes blaenoriaeth addysg allweddol ar hyn o bryd tra bod ysgolion yn wynebu pwysau cyllidebol a phwysau o ran amser . Cyfeiriodd Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon at gost cyfle o ddarparu wythnos o addysg awyr agored breswyl wedi'i hariannu'n llawn a'r goblygiadau cost a llwyth gwaith i ysgolion o ran staffio. Nodir y pwyntiau ynghylch cost cyfle a'r defnydd o adnoddau ar gyfer hyn, er bod y Memorandwm Esboniadol hwn wedi ceisio egluro pwysigrwydd addysg awyr agored breswyl ac mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer dyrannu cyllid penodol, fel yr amlinellwyd eisoes.

**186.** Pwysleisiodd Undeb Addysg Cenedlaethol bwysigrwydd bod pob agwedd ar addysg awyr agored yn rhad ac am ddim, er enghraifft dillad ac offer sydd eu hangen yn y ganolfan addysg awyr agored. Mae'r ganolfan yn darparu unrhyw beth sydd ei angen yn benodol ar gyfer gweithgaredd, megis helmedau a siacedi achub, er pan fydd dillad arferol, gan gynnwys esgidiau glaw, yn ddigon, yr arfer cyffredin yw i gyfranogwyr ddarparu'r offer hynny eu hunain. Byddai disgwyl i blant ddod ag unrhyw beth sylfaenol fel hen ddillad addas, cotiau dal dŵr, ac esgidiau glaw neu esgidiau addas gyda nhw. Efallai y bydd aelwydydd cymwys yn gallu defnyddio Grant Hanfodion Ysgol Llywodraeth Cymru[139] i helpu i gael gafael ar y rhain. Awgrymodd yr Undeb Addysg Cenedlaethol hefyd y gellid cysylltu'r ddarpariaeth cyllid i ariannu addysg awyr agored breswyl â'r Grant Datblygu Disgyblion. Nid yw'r Bil yn nodi'r union fecanwaith y dylai Llywodraeth Cymru ddewis ei ddefnyddio i gyflawni ei dyletswydd i ddarparu cyllid.

[139] Mae'r Grant Hanfodion Ysgol yn darparu £125 y flwyddyn (£200 wrth bontio i Flwyddyn 7) i aelwydydd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i helpu i dalu costau gwisg ysgol a dillad a chyfarpar eraill.

## Sut mae fersiwn terfynol y Bil yn wahanol i'r cynigion cychwynnol a/neu'r Bil drafft

**187.** Rhoddwyd ystyriaeth ofalus i'r ymatebion i'r ymgynghoriad cyffredinol a'r ymgynghoriad plant a phobl ifanc. Roedd y rhain yn llywio'r Bil drafft a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023. Rhoddwyd ystyriaeth bellach i'r ymatebion a ddaeth i law ar y Bil drafft. Mae hyn i gyd wedi llywio'r Bil fel y'i cyflwynwyd i'r Senedd.

### Newidiadau neu gadarnhad yn deillio o'r ymgynghoriadau

**188.** Mae'r bennod hon wedi egluro sut y rhoddwyd ystyriaeth i ganfyddiadau'r ymgynghoriad. Isod mae rhai enghreifftiau penodol o newidiadau i'r cynigion sydd wedi deillio'n uniongyrchol o'r ymgynghoriadau neu lle mae bwriadau presennol wedi'u sicrhau a'u cadarnhau.[140]

**189.** Un newid syml yn dilyn yr ymgynghoriadau oedd cynnwys y gair 'Preswyl' yn benodol yn nheitl y Bil er mwyn adlewyrchu'n well y gweithgarwch a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth.

**190.** Er bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn nodi mai blynyddoedd olaf yr ysgol gynradd (yn enwedig Blwyddyn 6) yw'r oedran mwyaf addas tebygol ar gyfer cymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl, yr argraff a roddwyd gan lawer oedd ei bod fwy na thebyg yn well peidio â rhagnodi oedran. Mae'r Bil felly'n rhoi hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru ystyried ymhellach beth allai fod yr oedran gorau neu a ddylid ei adael yn agored i ysgolion benderfynu pryd y byddai hyn o'r budd mwyaf i'w disgyblion.

**191.** Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod barn gymysg ar hyd gorau cwrs addysg awyr agored breswyl. Er bod ymchwil yn cyfeirio at fanteision arosiadau hwy, mae'r Bil yn darparu ar gyfer hyblygrwydd ynghylch a ddarperir yr hawl i gael pedair noson/pum niwrnod yn olynol ai peidio.

**192.** Er bod yr ymgynghoriad plant a phobl ifanc yn dangos cefnogaeth gref i'r cynigion, roedd arwydd o anesmwythder ymhlith rhai plant a phobl ifanc ynghylch y posibilrwydd o

[140] Er nad yw'n deillio'n uniongyrchol o'r ymgynghoriad, newid sylweddol i'r cynigion yr ymgynghorwyd â nhw yw bod y Bil yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod disgyblion mewn ysgolion a gynhelir yn cael addysg awyr agored breswyl yn hytrach nag ar awdurdodau lleol fel y nodwyd yn wreiddiol yn y ddogfen ymgynghori. Roedd hyn oherwydd lefel y manylion y bydd angen eu hystyried ar gyfer rhoi'r Bil ar waith.

fynd oddi cartref ar gyfer cwrs addysg awyr agored breswyl. Yn ystod y cyfnod gweithredu, bydd yn bwysig ystyried sut y gellir paratoi disgyblion a chael gwybod beth i'w ddisgwyl cyn iddynt gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl. Nid oedd erioed yn fwriad i orfodi disgyblion i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl ac mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau Llywodraeth Cymru ddatgan nad yw'n orfodol iddynt fynychu.

## Newidiadau ers y Bil drafft

**193.** Mae'r cynigion y tu ôl i'r Bil wedi parhau i gael eu hystyried ers cyhoeddi'r Bil drafft ym mis Gorffennaf. Nodir y newidiadau a wnaed ers y Bil drafft isod.

**194.** Mae'r adran 64A(1) newydd y mae'r Bil yn ei mewnosod i Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 wedi'i diwygio i ddarparu bod addysg awyr agored breswyl o dan y Bil yn cael ei galw yn 'gwrs addysg breswyl' a'i bod yn cael ei darparu unwaith fel rhan o gwricwlwm. Mae hefyd wedi'i ddiwygio er mwyn ei gwneud yn glir ei fod yn rhad ac am ddim i ddisgyblion. Gwnaed newidiadau tebyg i adran 64A(2).

**195.** Roedd yn bwysig ei gwneud yn glir yn y Bil nad yw hawl disgyblion i gael addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim ond yn ymestyn i un cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm. Fel yr eglurwyd ym mharagraffau 124 i 127 ym Mhennod 4, mae hyn er mwyn osgoi sefyllfa anfwriadol lle gallai ysgolion gael eu hannog i beidio â threfnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl pellach penodol nad ydynt yn gallu elwa ar yr hawl am ddim y darperir ar ei chyfer yn y Bil, gan ei bod yn bosibl na fyddant yn gallu codi tâl am yr ymweliad neu am fwyd a llety ac yn gorfod talu costau eu hunain.

**196.** Mae'r adran 64A(3) newydd wedi'i hychwanegu i ddarparu ar wyneb y Bil bod cwrs addysg awyr agored breswyl a ddarperir fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru yn cynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod. Mae'r adran 64A(4) newydd yn darparu y caniateir i hyn gael ei ddarparu ar un ymweliad neu ei rannu dros fwy nag un ymweliad. Yn y Bil drafft, byddai'r ddau fater hyn yn cael eu trafod yn y canllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru o dan adran 71A.

**197.** Mae'r adran 64A(9) newydd wedi'i hychwanegu i egluro beth yw ystyr cwrs addysg awyr agored breswyl.

**198.** Mae'r adran 64A(11) newydd wedi'i hychwanegu i'w gwneud yn glir nad yw darpariaeth y Bil ar gyfer cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o Gwricwlwm Cymru yn atal addysg breswyl arall rhag cael ei darparu y tu allan i'r hawl a sefydlwyd gan y Bil.

**199.** Mae adran bellach yn y Bil (adran 3) wedi'i hychwanegu i sicrhau bod bwyd a llety yn cael eu cynnwys yng nghostau cyrsiau addysg awyr agored breswyl sydd yn rhad ac am ddim i ddisgyblion pan gânt eu trefnu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru.

## Crynodeb o'r gefnogaeth i'r Bil

**200.** Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gefnogaeth gref ac eang i'r cynigion y tu ôl i'r Bil hwn. Mae gwaith ymgynghori wedi dangos pwysigrwydd bron yn unfrydol addysg awyr agored ac roedd mwyafrif helaeth o blaid y cyfle i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl. Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu y dylai'r cyfle hwn fod yn rhad ac am ddim o leiaf unwaith.

**201.** Mae'r darn hwn o ymateb Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i'r Bil drafft yn dangos y math o gefnogaeth sydd i'r Bil a'r amcanion y tu ôl iddo:

> *The new curriculum for Wales provides a framework that emphasises the relevance of real-world experiences. The concept of outdoor residential education perfectly aligns with this, offering young people the chance to immerse themselves in nature, understand the environment better, and cultivate the qualities of resilience, teamwork, and self-discovery.*[141]

[141] Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Ymateb i'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) Drafft

# 6. Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth

**202.** Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i wneud is-ddeddfwriaeth, ar gyfer cyhoeddi Cod statudol, ac ar gyfer cyhoeddi canllawiau statudol. Mae Tabl 2 yn nodi mewn perthynas â'r rhain:

- y person, neu'r corff, y rhoddir y pŵer iddo;
- ar ba ffurf y bwriedir arfer y pŵer;
- priodoldeb y pŵer dirprwyedig;
- y weithdrefn a ddilynwyd; hynny yw, "cadarnhaol", "negyddol", neu "dim gweithdrefn", ynghyd â rhesymau pam yr ystyrir ei bod yn briodol.

**203.** Bydd disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Caiff union natur yr ymgynghoriad (os o gwbl) ei bennu unwaith y caiff y cynigion eu cwblhau'n derfynol. Bydd hefyd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn eu hystyried yn briodol cyn cyhoeddi'r Cod statudol a'r canllawiau statudol.

Tabl 1: Crynodeb o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth, y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl a chanllawiau yn narpariaethau'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

| Adran | Pŵer wedi'i roi i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y drefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran 1(2)**<br>Mae'r adran hon yn diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Deddf 2021) i fewnosod adran newydd ar Addysg Awyr Agored Breswyl.<br>Byddai'r pŵer i gyhoeddi'r Cod felly yn rhan o Ddeddf 2021. | Gweinidogion Cymru | Cod Statudol | Mae adran 1(2), drwy ddiwygio Deddf 2021, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysg breswyl yn yr awyr agored a'i gadw o dan adolygiad.<br>Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r Cod.<br>Mae lefel y manylder sydd ei angen yn ei gwneud yn briodol iddo gael ei gynnwys mewn Cod.<br>O dan adran 76 o Ddeddf 2021, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar fersiwn o'r Cod cyn ei osod gerbron y Senedd o dan y weithdrefn negyddol. | Negyddol<br>Bydd y weithdrefn yn cael ei nodi yn adran 76 o Ddeddf 2021. | Mae'r weithdrefn negyddol yn briodol oherwydd natur cynnwys y Cod a'r gofyniad ar bob ysgol a lleoliad i'w gynnwys yn eu cwricwlwm.<br>Mae defnyddio'r weithdrefn negyddol hefyd yn alinio'r Cod â'r weithdrefn sydd ar waith ar gyfer cyhoeddi'r Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Dilyniant y mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru eu cyhoeddi o dan Ddeddf 2021. |

| Adran | Pŵer wedi'i roi i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y drefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| Adran 1(3)<br>Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 2021 i fewnosod adran newydd sy'n ymwneud â chanllawiau ar addysg awyr agored breswyl.<br>Byddai'r pŵer i gyhoeddi'r canllawiau felly yn rhan o Ddeddf 2021. | Gweinidogion Cymru | Canllawiau Statudol | Mae adran 1(3), drwy ddiwygio Deddf 2021, yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl.<br>Ystyrir bod canllawiau'n briodol gan mai bwriad hyn yw cefnogi darparwyr addysg yn eu dyletswydd i ddarparu addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm.<br>O dan adran 71 o Ddeddf 2021, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ar y canllawiau cyn eu cyhoeddi. | Dim gweithdrefn | Dim gweithdrefn |
| Adran 4<br>Mae'r adran hon yn diwygio Deddf 2021 i fewnosod adran newydd *(adran 74A)* yn ymwneud â | Gweinidogion Cymru | Rheoliadau | Mae Rheoliadau yn briodol i sicrhau pan nodir bod angen gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth arall neu addasiadau i'r Bil hwn er mwyn i'r Bil gael effaith lawn, nad yw'n | Cadarnhaol<br>Bydd y weithdrefn yn cael ei nodi yn Adran 75(2)(a) o Ddeddf 2021. | Caiff y rheoliadau addasu neu ohirio gweithredu adrannau o'r Ddeddf mewn perthynas ag oedrannau penodol neu flynyddoedd ysgol penodol disgyblion cofrestredig. Mae'r |

| Adran | Pŵer wedi'i roi i | Ffurf | Priodoldeb y pŵer dirprwyedig | Y drefn | Y rheswm dros y weithdrefn |
|---|---|---|---|---|---|
| darpariaeth drosiannol mewn perthynas ag addysg awyr agored breswyl.<br>Byddai'r pŵer i wneud y rheoliadau felly yn rhan o Ddeddf 2021. | | | ofynnol cael deddfwriaeth sylfaenol bellach. | | weithdrefn gadarnhaol, felly, yn briodol. |

# Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael o ran y prif ddarpariaethau yn y Bil, ac yn dadansoddi i ba raddau y byddai'r rhain yn bodloni'r amcanion polisi. Wrth wneud hynny, mae'n ystyried y risgiau, y costau a'r manteision cysylltiedig.

**204.** Mae'r broses o ddatblygu Biliau Aelod yn y Senedd yn golygu cael eu dewis mewn Balot, a chael cytundeb y Senedd i ddatblygu a chyflwyno Bil. Mae Biliau Aelod yn wahanol i Filiau Cyhoeddus eraill, gan fod yr Aelod a ddewiswyd wedi'i gyfyngu gan y broses a nodir yn Rheolau Sefydlog y Senedd. Gan fod y broses honno yn ei chyfanrwydd yn ymwneud â datblygu Bil yn unol â'r wybodaeth cyn y balot, nid oes opsiwn ar gael i'r Aelod a ddewiswyd gyflawni'r amcanion polisi mewn ffordd arall. Felly, dim ond dau opsiwn y mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn eu cynnwys:

- Gwneud dim a pharhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol;
- Cyflwyno Bil.

**205.** Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn ystyried y posibiliadau o ran canlyniadau anfwriadol ac yn cynnwys ystyriaethau o ran cydraddoldeb. Lluniwyd y costau a'r manteision gan ddefnyddio'r wybodaeth orau a oedd ar gael ar y pryd.

**206.** Mae'r wybodaeth hon wedi'i pharatoi drwy drafod â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys: Llywodraeth Cymru, gweithwyr proffesiynol yn y maes, a chyrff yn y trydydd sector. Yn ogystal, cynhaliwyd tri ymgynghoriad er mwyn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol allu cynnwys barn rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol.

**207.** Mae'r costau a'r manteision wedi'u hasesu dros gyfnod o bum mlynedd o adeg gweithredu'r Bil, a nodir y costau rheolaidd y disgwylir iddynt bara y tu hwnt i'r cyfnod

hwn yn y testun. Defnyddiwyd cyfradd ddisgownt ganolog Trysorlys Ei Fawrhydi, sef 3.5%[142], drwy gydol y dadansoddiad hwn i gyfrifo gwerth presennol yr opsiwn a ffefrir.

[142] The Green Book: appraisal and evaluation in central government

# 7. Crynodeb o’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol

**208.** Mae'r tablau isod yn cyflwyno crynodeb o'r costau a'r manteision ar gyfer y Bil yn ei gyfanrwydd. Diben y tabl yw cyflwyno'r wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6 (viii) a (ix).

| Y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) | | |
|---|---|---|
| Yr opsiwn a ffefrir: Opsiwn 2: cyflwyno Bil i roi cyfle i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir gymryd rhan mewn profiad gweithgareddau awyr agored preswyl. | | |
| Cyfnod: Cyflwyno | Cyfnod arfarnu: 5 mlynedd o adeg gweithredu'r Bil | Blwyddyn sail brisiau: 2023-24 |
| Cyfanswm y gost:<br>£74,251,864 i £95,937,743<br>Cyfanswm gwerth presennol:<br>£64,594,687 i £83,458,117 | Cyfanswm y manteision:<br>Anfesuradwy<br>Gwerth presennol:<br>Anfesuradwy | Gwerth Presennol Net:<br>-£64,594,687 i -£83,458,117 |

**209.** Mae pob cost dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd wedi’i chrynhoi isod (Tabl 2).

Tabl 2: crynodeb o'r costau dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynychu canolfannau gweithgareddau awyr agored (Costau parhaus) | | | | | | |
| Amrediad isel | 12,397,720 | 12,317,360 | 12,209,800 | 11,868,800 | 11,559,000 | **60,352,680** |
| Amrediad uchel | 16,321,040 | 16,216,240 | 16,074,080 | 15,623,920 | 15,216,720 | **79,452,000** |
| Cludiant (Costau parhaus) | | | | | | |
| Amrediad isel | 1,330,759 | 1,322,353 | 1,309,809 | 1,272,148 | 1,239,749 | **6,474,818** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad uchel | 1,861,574 | 1,850,044 | 1,833,195 | 1,780,829 | 1,735,735 | 9,061,377 |
| Athrawon cyflenwi (Costau parhaus) | | | | | | |
| | 1,554,335 | 1,535,813 | 1,498,348 | 1,447,457 | 1,388,414 | 7,424,366 |
| Cyfanswm y costau | | | | | | |
| Amrediad isel | 15,282,814 | 15,175,526 | 15,017,956 | 14,588,405 | 14,187,163 | 74,251,864 |
| Amrediad uchel | 19,736,949 | 19,602,097 | 19,405,623 | 18,852,206 | 18,340,869 | 95,937,743 |

### Costau ac anfanteision nad ydynt wedi'u mesur

**210.** Nodwyd mewn trafodaethau â rhanddeiliaid y gellid cynnwys gwaith olrhain ym mhob cofnod disgybl a gofnodir ar y system rheoli gwybodaeth briodol, a fyddai'n golygu mewnbynnu maes ychwanegol i'r gronfa ddata cofnodion disgyblion. Nid yw'r costau hyn yn hysbys ar hyn o bryd oherwydd byddai angen i'r awdurdodau lleol holi datblygwyr y feddalwedd i gael gwybod beth fyddai'r gost.

**211.** Mae awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio systemau rheoli gwybodaeth ac ni chredir y byddai fawr ddim costau trosiannol yn gysylltiedig â chynnwys maes ychwanegol.

## Y Manteision Cymdeithasol ac Economaidd

**212.** Amlinellwyd manteision y Bil hwn yn gynharach ym Mhennod 3. Bydd yr adran hon yn crynhoi'r manteision economaidd posibl a'r effeithiau posibl ar wasanaethau cyhoeddus.

**213.** Mae adborth sylweddol gan randdeiliaid wedi tynnu sylw at yr effaith gadarnhaol ar les meddyliol a chorfforol plant y mae cymryd rhan mewn dysgu drwy gyrsiau addysg awyr agored breswyl yn ei chael. Yn ogystal, mae astudiaethau wedi dangos adenillion cymdeithasol o fuddsoddi cadarnhaol, y gellir eu mesur, o ran profiadau dysgu awyr agored.

**214.** Yn ôl astudiaeth gan Social Value Business mae dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth yn yr amgylchedd naturiol (mewn lleoliadau ysgolion cynradd lle mae dysgu yn yr awyr agored wedi'i wreiddio yn ymarfer yr ysgol) yn rhag-weld adenillion cymdeithasol o

fuddsoddi o £4.32 am bob £1 a fuddsoddir, gydag amrediad o rhwng £2.87 a £4.70 am bob £1 a fuddsoddir.[143] Er nad yw hyn yn berthnasol i ddigwyddiadau unigol megis cwrs addysg awyr agored breswyl, roedd yr astudiaeth yn cwmpasu arferion a oedd yn cynnwys cyrsiau preswyl.

**215.** Defnyddiwyd model rhagamcanu effaith gymdeithasol, a luniwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam ar gyfer Sport England, gan Miller Research a Fforwm Arfordir Sir Benfro[144] yn 2023 i asesu effaith economaidd y sector gweithgareddau awyr agored yng Nghymru. Roedd eu dadansoddiad o sensitifrwydd yn awgrymu y gallai cynnydd o 10 y cant mewn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored arwain at gynnydd o £187m mewn gwerth cymdeithasol ar draws iechyd corfforol a meddyliol, llesiant meddyliol, datblygiad unigol a chyfalaf cymdeithasol.

**216.** Dangosodd dadansoddiad rhagamcanu adenillion cymdeithasol o fuddsoddi a gynhaliwyd o'r rhaglen Agor Drysau i'r Awyr Agored[145], Prosiect Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghanolbarth a De Cymru, fod gwerth £7.12 yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddir.

**217.** Yn ôl astudiaeth i asesu adenillion gwerth cymdeithasol rhaglen awyr agored 12 wythnos gan Brifysgol Bangor[146], roedd yr adenillion yn amrywio o £4.37 i £5.36 am bob £1 a fuddsoddir.

**218.** Roedd yr astudiaeth gan Social Value Business yn cynnwys adborth gan ysgolion a oedd yn rhan o'r astudiaeth a dynnodd sylw at y manteision o ran gwella ymdeimlad plant o gyfrifoldeb, eu hyder a'u diddordeb mewn dysgu o ganlyniad i ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth mewn amgylcheddau naturiol.

**219.** Dywedodd athrawon a staff cymorth drwy astudiaeth Social Value Business yn 2022 fod athrawon a disgyblion yn gwerthfawrogi dysgu mewn amgylcheddau naturiol yn fawr, a'i fod yn cynnig cyfleoedd i ddarparu dysgu gwybyddol ac anwybyddol i blant.

**220.** Canfu astudiaeth adenillion cymdeithasol o fuddsoddi ar fanteision cyrsiau addysg awyr agored breswyl a gynhaliwyd yng Nghanada gydag Outward Bound[147] effeithiau

143 Council for Learning Outside the Classroom Evidence Note, 2022
144 Miller Research a Fforwm Arfordir Sir Benfro, 2023
145 Opening Doors to the Outdoors, ENRaW Evaluation, 2023
146 Makanjuola et al, 2023
147 Outward Bound Canada Impact Report, 2020

hirdymor o ran gwella gwydnwch, cyfalaf cymdeithasol a chysylltiad â byd natur ac roedd yn awgrymu adenillion cymdeithasol o fuddsoddi sylweddol o ganlyniad i wrthbwyso costau gofal iechyd a chynhyrchiant uwch. Roedd gwell cysylltedd cymdeithasol hefyd yn arwain at ganlyniadau academaidd gwell, cyfleoedd gwaith gwell a'r enillion oes sy'n gysylltiedig â hynny, a llai o ddibyniaeth ar gymorth y wladwriaeth. Nododd yr astudiaeth effaith luosogi lle mae'r manteision a brofir gan y cyfranogwyr hefyd yn cael sgil-effaith gadarnhaol ar eu cyfoedion, eu teuluoedd ac oedolion arwyddocaol eraill.

**221.** Mae amser a dreulir yn yr awyr agored wedi'i gysylltu â chanlyniadau megis iechyd cardio-anadlol gwell.[148] Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng ffitrwydd cardio-anadlol iach ac iechyd cardiofasgwlaidd, cyflawniad academaidd a llesiant meddyliol pobl ifanc.[149]

**222.** Mae problemau iechyd meddwl yn cyfrif am £962 miliwn o gyfanswm gwariant GIG Cymru.[150] Mae iechyd a llesiant meddwl ar draws addysg yn ganolog i Fframwaith Nerth, Ymddiried, Tyfu'n ddiogel a Hybu (NYTH) Llywodraeth Cymru.[151]

**223.** Mae cysylltiad cadarnhaol rhwng cysylltiad â byd natur drwy weithgareddau addysgiadol a chanlyniadau iechyd meddwl gwell[152] mewn plant a phobl ifanc yn eu harddegau. Roedd y cysylltiadau mwyaf cyson a welwyd rhwng canlyniadau iechyd meddwl a dysgu mewn amgylcheddau naturiol yn ymwneud â gwydnwch, straen ac iechyd meddwl yn gyffredinol.[153] Cofnodwyd gwelliannau o ran llesiant emosiynol, hunan-barch ac iselder hefyd. Nodwyd bod cysylltiad â byd natur yn ffordd effeithiol o atal problemau iechyd meddwl cyffredin.

**224.** Mae dysgu mewn amgylcheddau naturiol wedi ei gysylltu[154] ag adeiladu cyfalaf cymdeithasol, meithrin balchder, ymdeimlad o berthyn, a chyfranogiad cymunedol. Mae profiadau sy'n rhoi cyfle i ymgolli ym myd natur[155], gan gynnwys profiadau awyr agored preswyl a mathau eraill o addysg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, wedi eu cysylltu â gwell hunan-barch a mwy o hunaneffeithiolrwydd o gymharu â rheolyddion. Mae astudiaeth a oedd yn defnyddio data o Ddenmarc wedi dangos bod iechyd meddwl sy'n ffynnu yn

[148] Gray et al, 2015
[149] Raghuveer et al, 2020
[150] Cyllidebau rhaglenni gwariant y GIG: Ebrill 2021 i Fawrth 2022
[151] NYTH (iechyd a llesiant meddwl): adroddiad cryno
[152] Davis et al, 2021.
[153] Tillman et al, 2018
[154] Council for Learning Outside the Classroom, Evidence Note, 2022
[155] Mygind et al, 2019

gysylltiedig â thua $1.2 biliwn (sy'n cyfateb i £848 miliwn) yn llai o bosibl o gostau iechyd a chostau chymdeithasol.[156]

## Tystiolaeth allweddol, tybiaethau ac ansicrwydd

**225.** Cynhaliwyd ystod o arolygon i lywio goblygiadau ariannol y Bil. Yn eu plith roedd casglu ymatebion yn uniongyrchol oddi wrth ysgolion ar draws pob lleoliad. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon i gyfrifo'r amcangyfrifon o'r costau.

**226.** Mae data EVOLVE hefyd wedi llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. System ar-lein yw EVOLVE a ddefnyddir gan 21 o awdurdodau lleol i reoli ymweliadau addysgol awyr agored. Mae'r data'n dangos canran y disgyblion sy'n mynychu cyrsiau preswyl am wahanol gyfnodau a chanran y disgyblion ar draws lleoliadau ysgolion (e.e. ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ati) hefyd.

**227.** Mae'r tybiaethau cyffredin a wnaed er mwyn cyfrifo costau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn wedi'u hamlinellu ym Mhennod 9, sy'n manylu ar y costau posibl y gellid mynd iddynt wrth weithredu'r ddeddfwriaeth.

[156] Santini et al. 2021

# 8. Opsiwn 1: parhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol

**228.** Dyma'r opsiwn sylfaenol, ac felly nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae gweithgareddau awyr agored preswyl yn cael eu darparu a'u hariannu. Byddai ysgolion a rhieni yn parhau i dalu am y rhan fwyaf o'r costau i alluogi disgyblion i fynychu gweithgareddau awyr agored preswyl, a fyddai'n golygu bod unigolion, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig, yn parhau i golli cyfle i gymryd rhan mewn profiadau gweithgareddau awyr agored preswyl gyda'u cyfoedion.

**229.** Fel y nodir ym mharagraff 15 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, mae data'n awgrymu, mewn tua thraean o'r ysgolion sy'n trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl, fod llai na 75% o'r disgyblion yn cymryd rhan.

**230.** Mae achosion hefyd lle nad yw ysgolion yn cynnig yr opsiwn i bobl ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored preswyl. Un rheswm am hyn yw amharodrwydd ysgolion i ganiatáu i rai disgyblion gymryd rhan pan na all eu cyfoedion wneud hynny oherwydd y rhwystrau ariannol y maent yn eu hwynebu. Byddai cadw pethau fel ag y maent, a chaniatáu i ysgolion ddewis peidio â darparu profiad awyr agored preswyl, unwaith eto'n golygu bod unigolion, neu hyd yn oed garfanau cyfan, yn colli cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored preswyl.

**231.** Unwaith eto, fel y nodir ym mharagraff 15 o'r Memorandwm Esboniadol hwn, yn 2022/23, dim ond dwy ran o dair o ysgolion drefnodd gyrsiau addysg awyr agored breswyl yng Nghyfnod Allweddol 2; a dim ond tua hanner yr ysgolion wnaeth hynny yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.

**232.** Gallai'r pwysau costau byw sy'n wynebu teuluoedd, ac ysgolion, waethygu'r sefyllfa, gyda mwy o ysgolion yn dewis peidio â chynnig cyrsiau addysg awyr agored breswyl, a mwy o ddisgyblion yn colli'r cyfle i'w mynychu. Nododd ymchwil gan Ymddiriedolaeth Sutton yn ddiweddar fod 50% o ysgolion yn Lloegr wedi gorfod gwneud toriadau o ran ymweliadau addysgol oherwydd pwysau ariannol.

**233.** Ni fyddai'r opsiwn o barhau â chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y dyfodol felly'n gwneud dim i sicrhau bod mwy o ysgolion yn cynnig cyrsiau addysg awyr agored breswyl nac i sicrhau bod llai o ddisgyblion yn colli'r cyfleoedd hyn.

# 9. Opsiwn 2: Cyflwyno Bil

**234.** Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno deddfwriaeth i roi cyfle i bob disgybl mewn ysgolion a gynhelir fynychu cyfanswm o bedair noson a phum niwrnod o addysg awyr agored breswyl.

**235.** Mae'r costau sydd wedi eu cynnwys yn yr opsiwn hwn yn seiliedig ar bob disgybl yn manteisio ar y cynnig i fynychu profiad addysg awyr agored breswyl o ganlyniad i'r Bil.

**236.** Gan fod unrhyw gyllid a ddefnyddir i alluogi disgyblion i fynychu profiad addysg awyr agored breswyl yn gwbl seiliedig ar ddisgresiwn, a bod lefel y cymorth a gynigir gan awdurdodau lleol ac ysgolion o ran y cymorthdaliadau a ddarperir yn amrywio, nid yw'n bosibl cyfrifo'r dyraniadau presennol. Mae rhai awdurdodau lleol yn rhoi cymhorthdal ar gyfer ymweliadau preswyl ond yn y pen draw bydd ysgolion a rhieni'n mynd i gostau er mwyn i ddisgyblion allu cymryd rhan mewn ymweliadau addysg awyr agored breswyl.

**237.** O'r herwydd, ni ellir mesur yr arbedion posibl i ysgolion a rhieni pe bai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu.

**238.** Mae'r costau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar gyfnod arfarnu pum mlynedd. Byddai hyn yn caniatáu i'r ddeddfwriaeth gyrraedd cyflwr sefydlog. Ystyrir bod y rhan fwyaf o'r costau'n rhai parhaus, a fyddai'n digwydd bob blwyddyn.

**239.** Olrhain disgyblion yw'r unig gost drosiannol gan y byddai rhaid i awdurdodau lleol addasu eu systemau rheoli gwybodaeth er mwyn sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o bob disgybl sydd wedi cael cynnig a heb gael cynnig cyfle i fynychu ymweliad preswyl.

## Tybiaethau o ran costau

**240.** Mae'r amcangyfrifon o'r costau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn seiliedig ar dybiaethau cyffredin, a nodir yn y paragraffau a ganlyn. Mae'r costau wedi'u talgrynnu i'r bunt agosaf.

### Hyd ymweliad preswyl

**241.** Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau gweithgareddau awyr agored yn cynnig cyfle i aros am ddwy noson ac am bedair noson. Gan fod y Bil yn rhoi cyfle i bob disgybl gymryd rhan mewn profiad preswyl am bedair noson a phum niwrnod, mae'r costau sydd wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'u modelu ar y canlynol:

- 2 x ymweliad preswyl dwy noson
- Ymweliad preswyl pedair noson

**242.** Tybir y byddai disgyblion yn mynychu ymweliadau preswyl pedair noson pan fyddant o oedran ysgol gynradd neu oedran ysgol uwchradd neu mae'n bosibl y gellid rhannu ymweliadau dwy noson ar draws oedran ysgol gynradd ac oedran ysgol uwchradd.

**243.** Mae awdurdodau lleol yng Nghymru (ac eithrio Cyngor Castell-nedd Port Talbot) yn defnyddio system ar-lein (EVOLVE) i reoli ymweliadau addysgol awyr agored. Mae data EVOLVE yn golygu y gellir pennu nifer y disgyblion a fynychodd gyrsiau addysg awyr agored breswyl am 1 i 5+ noson yng Nghyfnodau Allweddol 2 i 4 ym mlwyddyn academaidd 2022/23. Gan mai dim ond ar gyfer un awdurdod lleol y mae data ar goll, ni chredir y byddai hyn yn cael fawr ddim effaith ar ddefnyddio data EVOLVE.

**244.** Fodd bynnag, gall data EVOLVE gynnwys ystadegau ar gyfer disgyblion sy'n cymryd rhan mewn ymweliadau preswyl fwy nag unwaith. At ddibenion dadansoddi, tybir mai dim ond un ymweliad preswyl y mae pob disgybl wedi'i fynychu.

**245.** Defnyddiwyd nifer y disgyblion a gymerodd ran mewn ymweliadau 1 i 3 noson yn 2022/23 i amcangyfrif y gyfran sy'n debygol o fynychu ymweliad preswyl dwy noson, gyda'r rhai a arhosodd am bedair noson neu ragor yn fwy tebygol o fynychu ymweliad pedair noson.

**246.** Yn 2022/23, arhosodd 86% o ddisgyblion CA2 a fynychodd ymweliad preswyl am 1 i 3 noson, gyda 14% yn aros am bedair noson neu ragor. O ran disgyblion oedran ysgol uwchradd, arhosodd mwy o ddisgyblion am gyfnodau hwy, gyda 59% yn aros am rhwng 1 a 3 noson a 41% yn aros am bedair noson neu ragor.

**247.** Defnyddiwyd y canrannau hyn i fireinio'r costau a gyfrifir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

## Cyfranogiad blynyddoedd ysgol

**248.** Yn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar gyfer y Bil roedd 49% o'r rhai a ymatebodd ar-lein o'r farn mai Blwyddyn 6 fyddai'r oedran mwyaf priodol i blant a phobl ifanc gael

cynnig cyfle i fynychu profiad addysg awyr agored breswyl.[157] Roedd 32% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc o’r farn mai Blynyddoedd 5-6 fyddai'r oedran mwyaf priodol.[158] Ar ôl diystyru’r ymatebion amhendant, y ffigur oedd 47%.

**249.** Fodd bynnag, nid yw'r Bil yn rhagnodi pryd y dylid cynnig cyfle i ddisgyblion fynychu cwrs preswyl. Bydd adegau pan fydd disgyblion yn cael y cyfle pan fyddant o oedran ysgol uwchradd yn hytrach nag oedran ysgol gynradd.

**250.** Defnyddiwyd data EVOLVE i bennu cyfansoddiad disgyblion oedran ysgol gynradd ac ysgol uwchradd a fynychodd gyrsiau addysg awyr agored breswyl yn 2022/23. Data dangosol sydd yma, oherwydd y posibilrwydd o gyfrif fwy nag unwaith. Mae'r data'n dangos bod cyfanswm o tua 36,000 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn ystod Cyfnod Allweddol 2 (Blynyddoedd 3 i 6) yn 2022/23, o gymharu â thua 16,000 o ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 (Blynyddoedd 7 i 11).

**251.** Mae hyn yn golygu bod 70% o ddisgyblion a gymerodd ran mewn ymweliadau preswyl yn ddisgyblion oedran ysgol gynradd a 30% o’r rhai a gymerodd ran yn ddisgyblion oedran ysgol uwchradd. Defnyddiwyd y gyfran hon felly i fodelu’r costau a briodolir ar draws lleoliadau ysgolion.

## Rhagamcanu nifer y disgyblion

**252.** Mae StatsCymru yn darparu ystadegau[159] ar nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Y data ar gyfer 2022/23 oedd y data mwyaf diweddar adeg llunio’r amcangyfrifon o’r costau. Daw'r data hyn o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD), sef casgliad electronig o ddata ar lefel disgybl ac ysgol a ddarperir gan bob ysgol gynradd, ysgol ganol, ysgol uwchradd, ysgol feithrin ac ysgol arbennig yn y sector a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn.

**253.** Defnyddiwyd y data hyn i ragamcanu niferoedd y disgyblion dros y cyfnod arfarnu ac i amcangyfrif ar sail hynny gyfanswm y costau yr eir iddynt yng Nghymru. Tybir y

[157] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023).
[158] Sam Rowlands AS, Crynodeb o’r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023).
[159] StatsCymru, Disgyblion yn ôl awdurdod lleol a grŵp blwyddyn 2022/23

byddai'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu yn 2024-25 ac y byddai cyllid ar gael yn yr un flwyddyn.

**254.** Mae StatsCymru yn dangos nifer gymharol debyg o ddisgyblion ar draws grwpiau blwyddyn yn yr oedrannau cynradd ac uwchradd, ac felly nid oes angen dosrannu disgyblion ar draws grwpiau blwyddyn er mwyn cyfrifo’r costau.

**255.** O’r herwydd, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn defnyddio cyfanswm nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 6 i gyfrifo’r costau sy'n gysylltiedig â disgyblion oedran ysgol gynradd a chyfanswm nifer y disgyblion ym Mlwyddyn 7 ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd.

## Rhagamcanu nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol

**256.** Mae rhai disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y bydd angen mwy o gymorth arnynt ac yr eir, o bosibl, i gostau ychwanegol mewn cysylltiad â hwy wrth fynychu canolfan gweithgareddau awyr agored arbenigol. Mae StatsCymru yn darparu data ar nifer y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a math o angen.[160] Oherwydd y gall fod gan ddisgyblion fwy nag un angen, mae'r data hyn yn arwain at gyfrif fwy nag unwaith.

**257.** Er mwyn ymdrin â hyn ond sicrhau ar yr un pryd yr amcangyfrif gorau o gostau tebygol y cymorth ychwanegol y bydd ei angen, mae nifer y disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol wedi ei ddefnyddio yn y cyfrifiadau. Diffinnir y grŵp hwn fel dysgwyr sydd ag amhariadau deallusol neu wybyddol sylweddol.[161] Mae’n bosibl y bydd ganddynt hefyd anawsterau cysylltiedig o ran symud a chydsymud, cyfathrebu a chanfyddiad a chaffael sgiliau hunangymorth.

**258.** Mae data StatsCymru yn dangos bod 3,045 o ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol ar draws pob ysgol a gynhelir (gan gynnwys 10 mewn ysgolion meithrin) yng Nghymru yn 2022/23.[162] Mae'n dadgyfuno'r disgyblion hyn ymhellach yn ôl lleoliad ysgol (e.e. cynradd, uwchradd ac ati). Nid yw'r data ar gael yn ôl grŵp blwyddyn.

---

[160] StatsCymru, Adroddiadau o anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a math o angen, 2022/23

[161] Llywodraeth Cymru, 2014/15

[162] StatsCymru, Adroddiadau o anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig yn ôl sector a math o angen 2022/23

**259.** Mae StatsCymru hefyd yn darparu data ynghylch cyfanswm nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ar draws pob lleoliad ysgol.[163] Rydym wedi cymhwyso'r ganran i bob grŵp blwyddyn er mwyn pennu nifer posibl y disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

**260.** Gan fod cyfanswm nifer y disgyblion yn debyg ar draws grwpiau blwyddyn, defnyddiwyd cyfanswm nifer y disgyblion ym Mlynyddoedd 6 a 7 i bennu nifer y disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol er mwyn cyfrifo’r costau dros y cyfnod arfarnu pum mlynedd.

Tabl 3. Amcangyfrif o gyfanswm nifer y disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol mewn ysgolion a gynhelir

| Nifer y disgyblion | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedran ysgol gynradd | 202 | 202 | 181 | 171 | 155 |
| Oedran ysgol uwchradd | 219 | 202 | 202 | 181 | 171 |

## Staff addysgu

**261.** Tybir y byddai’r costau sy'n gysylltiedig â chanolfannau gweithgareddau awyr agored, eu mynychu a theithio iddynt, er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn ymweliadau preswyl yr un fath ar gyfer lleoliadau ysgolion cynradd, canol ac uwchradd. Fodd bynnag, byddai costau athrawon cyflenwi’n amrywio.

**262.** Nodwyd mewn trafodaethau ag ysgolion fod cymarebau staffio ar gyfer ymweliadau preswyl yn golygu bod angen o leiaf 1 aelod o staff i bob 10 disgybl. Mae canlyniadau cyfrifiad ysgolion Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023, yn dangos mai tua 26 oedd maint dosbarthiadau iau ar gyfartaledd yn 2023.[164]

[163] StatsCymru, Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, grŵp blwyddyn a sector 2022/23
[164] Llywodraeth Cymru, Canlyniadau’r cyfrifiad ysgolion, Ionawr 2023

**263.** Felly, byddai rhaid i 3 aelod o staff addysgu fynychu cwrs preswyl gyda dosbarth o faint cyfartalog. Mae'r amcangyfrifon o'r costau'n adlewyrchu'r canlynol:

- Ysgolion cynradd a chanol - 1 athro a 2 gynorthwyydd addysgu.
- Ysgolion uwchradd a chanol – 3 athro.
- Ysgolion arbennig – 2 athro anghenion addysgol arbennig (AAA) i bob 3 disgybl ag anawsterau dysgu difrifol.

### Cyfarpar

**264.** Nododd rhanddeiliaid fod y ganolfan yn darparu unrhyw gyfarpar y mae ei angen yn benodol ar gyfer gweithgaredd, megis helmedau a siacedi achub. Fodd bynnag, byddai disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu cyrsiau addysg awyr agored breswyl fynd â dillad addas megis cotiau ac esgidiau. O'r herwydd, nid oes unrhyw gostau cysylltiedig wedi eu cynnwys yn yr amcangyfrifon o oblygiadau ariannol y Bil.

## Amcangyfrifon o'r costau

**265.** Byddai costau'n gysylltiedig â'r meysydd a ganlyn:

- Mynychu canolfannau gweithgareddau awyr agored
- Cludiant
- Athrawon cyflenwi
- Olrhain cyfranogiad disgyblion mewn ymweliadau addysg awyr agored breswyl.

### Costau Canolfannau Gweithgareddau Awyr Agored

**266.** Cynhaliwyd arolwg o ganolfannau gweithgareddau awyr agored i lywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a oedd yn cynnwys cwestiynau ynghylch cost y pen ymweliad pedair noson a dwy noson ar gyfartaledd yn 2023-24. Ymatebodd 51 o ganolfannau. Darparodd 40 o ymatebwyr gyfartaledd y gost am ymweliad pedair noson a darparodd 39 yr wybodaeth gyfatebol am ymweliad dwy noson.

**267.** Darparodd y canolfannau gostau’n seiliedig ar amryw o ffactorau, megis y math o weithgareddau a ddarperir, y math o lety sydd ei angen (h.y. pebyll neu ystafelloedd cysgu), ac a yw’n llety hunanarlwyo neu wedi’i arlwyo’n llawn.

**268.** Nodwyd yn yr ymatebion fod amseriad yr ymweliadau preswyl hefyd yn effeithio ar gostau, gyda chanolfannau’n codi cyfraddau gwahanol yn ystod cyfnodau prysur a chyfnodau tawelach.

**269.** Mae'r adran hon yn darparu amrediad o gostau sy'n cwmpasu'r opsiynau hyn.

## Profiadau preswyl pedair noson

**270.** Mae amrediad y costau’n adlewyrchu cyfartaledd yr holl ganolfannau a ymatebodd i'r arolwg. Byddai cost profiad awyr agored preswyl pedair noson rhwng £320 a £400 y pen.

### Oedran ysgol gynradd

**271.** Fel y soniwyd eisoes, mae cyfran y disgyblion sy'n mynychu cyrsiau addysg awyr agored breswyl am bedair noson yn amrywio ar draws lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd. Yn seiliedig ar ddata EVOLVE, tybir y byddai 14% o ddisgyblion oedran ysgol gynradd sy’n cymryd rhan yn mynychu ymweliad 4 noson, a’r gweddill yn mynychu ymweliadau byrrach (gweler paragraff 245).

**272.** Drwy briodoli costau ar draws lleoliadau ysgolion cynradd ac uwchradd, gallwn hefyd fireinio ein hamcangyfrifon o’r costau yn seiliedig ar 70% o ddisgyblion oedran ysgol gynradd yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysg awyr agored breswyl.

Tabl 4. Cyfanswm costau'r darparwr er mwyn i ddisgyblion oedran ysgol gynradd fynychu ymweliad preswyl pedair noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 1,079,360 | 1,078,400 | 1,067,200 | 1,030,720 | 1,008,960 |
| Amrediad uchel | 1,349,200 | 1,348,000 | 1,334,000 | 1,288,400 | 1,261,200 |

**273.** Mae’n ofynnol gan ganolfannau gweithgareddau awyr agored fod nifer digonol o staff yr ysgol yn dod gyda dosbarthiadau ar ymweliadau preswyl. Nid yw canolfannau fel arfer yn codi tâl ar staff am lety na chynhaliaeth cyn belled ag y bo nifer y staff o fewn cymhareb briodol ar gyfer staff a disgyblion.

**274.** Mae'r amcangyfrifon o’r costau’n tybio y bydd cymhareb o 1 aelod o staff i bob 10 disgybl, sy'n adlewyrchu'r hyn y mae ysgolion wedi nodi eu bod yn ei ddefnyddio wrth gyfrifo nifer y staff sydd eu hangen ar gyfer ymweliadau preswyl. Felly, nid yw'r amcangyfrifon yn cynnwys unrhyw gostau i’r darparwr er mwyn i staff addysgu fynychu cyrsiau preswyl.

### Oedran ysgol uwchradd

**275.** Mae data EVOLVE yn dangos bod 41% o ddisgyblion Cyfnodau Allweddol 3 a 4 wedi cymryd rhan mewn ymweliadau preswyl pedair noson neu ragor yn 2022/23. O dybio hefyd fod 30% o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd yn cymryd rhan mewn ymweliadau addysg awyr agored breswyl, ceir y costau a ganlyn:

Tabl 5. Cyfanswm costau'r darparwr er mwyn i ddisgyblion oedran ysgol uwchradd fynychu ymweliad preswyl pedair noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 1,379,840 | 1,354,560 | 1,353,280 | 1,339,520 | 1,293,440 |
| Amrediad uchel | 1,724,800 | 1,693,200 | 1,691,600 | 1,674,400 | 1,616,800 |

## Ymweliadau preswyl dwy noson

**276.** Mae canolfannau hefyd yn cynnig profiadau preswyl dwy noson. Bydd y Bil hefyd yn cynnig opsiwn i ddisgyblion gymryd rhan mewn dau ymweliad preswyl dwy noson. Mae'r data o'r arolwg a gynhaliwyd gyda chanolfannau yn awgrymu y bydd y gost ar gyfartaledd yn amrywio o £180 i £240.

### Oedran ysgol gynradd

**277.** Amcangyfrifwyd y costau i ddisgyblion oedran ysgol gynradd (gan gynnwys ysgolion cynradd, ysgolion canol ac ysgolion arbennig) gan ddefnyddio'r un cyfrifiadau ar gyfer cwrs preswyl pedair noson a defnyddio data EVOLVE i dybio y byddai 86% o ddisgyblion sy'n cymryd rhan yn mynychu cwrs preswyl dwy noson.

Tabl 6. Cyfanswm costau'r darparwr er mwyn i ddisgyblion oedran ysgol gynradd fynychu 2 ymweliad preswyl dwy noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 7,458,480 | 7,450,560 | 7,375,320 | 7,121,520 | 6,971,040 |
| Amrediad uchel | 9,944,640 | 9,934,080 | 9,833,760 | 9,495,360 | 9,294,720 |

### Oedran ysgol uwchradd

**278.** Mae data EVOLVE yn dangos bod 59% o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd a gymerodd ran mewn ymweliadau addysg awyr agored breswyl wedi aros am rhwng 1 a 3 noson. Tybir y byddai'r disgyblion hyn fwy na thebyg yn mynychu ymweliad preswyl dwy noson. Cyfrifwyd y costau i ganolfannau gweithgareddau gan ddefnyddio'r gymhareb hon i ragamcanu nifer y disgyblion a fydd yn cymryd rhan mewn ymweliadau preswyl.

Tabl 7. Cyfanswm costau'r darparwr er mwyn i ddisgyblion oedran ysgol uwchradd fynychu 2 ymweliad preswyl dwy noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 2,233,800 | 2,193,120 | 2,190,960 | 2,168,640 | 2,094,120 |
| Amrediad uchel | 2,978,400 | 2,924,160 | 2,921,280 | 2,891,520 | 2,792,160 |

## Disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol

**279.** Amcangyfrifwyd nifer y disgyblion sydd wedi'u categoreiddio ag anawsterau dysgu difrifol y byddai angen cymorth ychwanegol arnynt wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored.

**280.** Mae Ymddiriedolaeth Calvert Exmoor[165] yn darparu gwyliau antur awyr agored preswyl i bobl ifanc sydd ag amrywiaeth o anableddau, gan gynnwys y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth. I ddarparu cymorth arbenigol, y gost ar gyfer pob unigolyn yw tua £719 am brofiad preswyl pedair noson yn ystod y tymor prysur (rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023).[166]

**281.** Mae hyn yn cyfateb i tua dwbl cyfartaledd y gost a ddarparwyd gan ganolfannau a ymatebodd i'r arolwg a anfonwyd i gynorthwyo'r gwaith casglu data sy'n gysylltiedig â'r Bil. Mae Ymddiriedolaeth Bendrigg[167] yn codi tua £466 y pen (yn seiliedig ar dâl ar gyfer grŵp) am gwrs preswyl pedair noson, gyda 30% yn ychwanegol yn cael cymhorthdal gan y darparwr.[168] Felly, tua £606 fyddai cyfanswm y gost.

**282.** Mae'r amcangyfrifon felly'n tybio bod costau darparwyr ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol tua dwbl y costau a godir ar gyfer disgyblion nad oes angen cymorth ychwanegol arnynt.

**283.** Gan nad oes data EVOLVE nac unrhyw ddata eraill ar gyfer hyd ymweliadau preswyl a fynychir gan ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, mae'r amcangyfrifon yn adlewyrchu'r un gymhareb o ran y disgyblion hynny sydd fwyaf tebygol o fynychu cwrs preswyl dwy noson a phedair noson ag ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd ac ysgol uwchradd.

**284.** Mae'r costau'n seiliedig ar ddyblu amrediad costau cyfartalog pob canolfan a ymatebodd i'r arolwg, sy'n rhoi amrediad o rhwng £640 ac £800 am ymweliad preswyl pedair noson.

[165] Ymddiriedolaeth Calvert Exmoor
[166] Darperir ar gais gan Ymddiriedolaeth Calvert Exmoor
[167] Ymddiriedolaeth Bendrigg
[168] Darperir ar gais gan Ymddiriedolaeth Bendrigg

Tabl 8. Cyfanswm y costau ar gyfer disgyblion ADY mewn ysgolion a gynhelir sy'n mynychu ymweliadau preswyl pedair noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 30,720 | 29,440 | 28,160 | 25,600 | 24,320 |
| Amrediad uchel | 38,400 | 36,800 | 35,200 | 32,000 | 30,400 |

**285.** Fel gydag ymweliad preswyl pedair noson, dyblwyd amrediad y costau ar gyfer ymweliad preswyl dwy noson yn seiliedig ar gost gyfartalog yr holl ganolfannau a ymatebodd i'r arolwg ar gyfer dau ymweliad dwy noson, gan roi amrediad o rhwng £360 a £480.

Tabl 9. Cyfanswm y costau ar gyfer disgyblion ADY mewn ysgolion a gynhelir sy'n mynychu 2 ymweliad preswyl dwy noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 116,640 | 114,480 | 105,120 | 98,640 | 90,000 |
| Amrediad uchel | 155,520 | 152,640 | 140,160 | 131,520 | 120,000 |

**286.** Bydd disgyblion ag anableddau (h.y. anableddau corfforol) nad ydynt wedi'u categoreiddio ag ADY yn mynychu cyrsiau preswyl. Fodd bynnag, tybir y byddai'r darparwr yn amsugno'r costau posibl sy'n deillio o ddarparu'r cymorth angenrheidiol os oes ganddo'r gallu i wneud hynny.

## Costau athrawon

**287.** Mae darparwyr arbenigol yn codi'r un tâl ar staff cymorth sy'n dod gyda disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol ar ymweliadau preswyl. Tybir felly y bydd amrediad y costau ar gyfer ymweliad pedair noson rhwng £640 ac £800 ac ymweliad dwy noson rhwng £360 a £480.

**288.** Yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg ysgolion, tybir y byddai angen dau aelod o staff i bob tri disgybl ag anawsterau dysgu difrifol. Er enghraifft, dywedodd un ysgol anghenion

addysgol arbennig y byddai angen 20 o staff yn ddelfrydol i grŵp o 30 o ddisgyblion, er mwyn i'r staff allu cael seibiant.

Tabl 10. Cyfanswm costau staff sy'n dod gyda disgyblion ag ADY difrifol

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 98,880 | 96,800 | 89,760 | 84,160 | 77,120 |
| Amrediad uchel | 130,080 | 127,360 | 118,080 | 110,720 | 101,440 |

### Costau cludiant

**289.** O dan yr opsiwn hwn, byddai'n ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid i ysgolion ar gyfer cludiant i ganolfannau gweithgareddau awyr agored ac oddi yno. Mae gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi nodi'r costau cysylltiedig.

**290.** Oherwydd lleoliadau daearyddol amrywiol ysgolion a chanolfannau gweithgareddau awyr agored, mae heriau ynghlwm wrth gyfrifo pellteroedd teithio. Fodd bynnag, mae'r amcangyfrifon yn tybio mai rhwng 20 a 100 milltir yw'r pellter rhwng yr ysgol a'r ganolfan gweithgareddau awyr agored, yn seiliedig ar agosrwydd ysgolion at ganolfannau gweithgareddau awyr agored a threulio amser rhesymol yn teithio ar fws.

**291.** Nodwyd mewn ymchwil sylfaenol a gynhaliwyd gyda chwmnïau llogi y ffioedd y gellir eu defnyddio i amcangyfrif cyfanswm y costau cludiant. Mae costau'r cwmnïau llogi bysiau'n adlewyrchu costau llogi a chyfraddau y filltir.

Tabl 11. Amrediad costau llogi bws 53 sedd fesul siwrnai

| Math o dâl | Cost (£) |
|---|---|
| Llogi | 150 - 200 |
| Cyfradd y filltir | 2 – 3 y filltir |

**292.** Fel y soniwyd eisoes, disgwylir i siwrneiau i ganolfannau gweithgareddau awyr agored amrywio o 20 i 100 milltir Pe rhennid hyd siwrneiau'n gyfartal o fewn yr amrediad hwnnw, byddai hynny'n 60 milltir ar gyfartaledd fesul siwrnai, sy'n 120 o filltiroedd yno ac yn ôl.

**293.** Gan ddefnyddio'r amrediad isaf ac uchaf ar gyfer costau llogi bws a chyfradd y filltir a phellter cyfartalog o 60 milltir fesul siwrnai, amcangyfrifir mai rhwng £540 a £760 fyddai'r gost fesul siwrnai.

**294.** Mae StatsCymru yn darparu data ynghylch disgyblion a dosbarthiadau[169] y gellir eu defnyddio i gyfrifo maint dosbarthiadau ar gyfartaledd yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae hyn yn cyfateb i 23 o ddisgyblion ar gyfartaledd fesul dosbarth. Mae hyn, ynghyd â nifer y staff sy'n dod gyda'r disgyblion, yn awgrymu y byddai lle i ddau ddosbarth ar un bws. Fodd bynnag, gan mai cyfartaledd yw hwn, byddai mwy na 23 o ddisgyblion mewn rhai dosbarthiadau ac felly, er mwyn amcangyfrif y gost uchaf, tybir y byddai angen un bws i bob dosbarth.

**295.** O'r herwydd, mae'r costau teithio ar gyfer pob disgybl ysgol gynradd ac uwchradd yn cyfateb i rhwng tua £21 a £30 fesul disgybl. Dilyswyd yr amrediad costau hwn yn yr ymatebion gan ysgolion i'r arolwg er mwyn llywio'r costau sy'n gysylltiedig â'r Bil.

**296.** Amcangyfrifwyd y costau gan ddefnyddio'r un tybiaethau â'r rheini a ddefnyddiwyd ar gyfer costau darparwyr gan gymhwyso cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn cyrsiau addysg awyr agored breswyl: mae 70% o'r disgyblion sy'n cymryd rhan mewn cwrs preswyl o oedran ysgol gynradd, ac o'r rheini mae 14% yn aros am bedair noson; ac mae'r 30% sy'n weddill o'r rhai sy'n cymryd rhan o oedran ysgol uwchradd, gyda 41% o'r rheini'n aros am bedair noson.

Tabl 12. Costau cludiant i'r holl ddisgyblion sy'n mynychu ymweliadau preswyl pedair noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 161,475 | 159,752 | 158,932 | 155,633 | 151,179 |
| Amrediad uchel | 227,261 | 224,836 | 223,682 | 219,040 | 212,770 |

**297.** Amcangyfrifwyd y costau ar gyfer dau ymweliad dwy noson gan ddefnyddio'r tybiaethau cyfatebol ar gyfer dau ymweliad preswyl dwy noson (86% o ddisgyblion

[169] StatsCymru, Data dosbarthiadau

oedran ysgol gynradd a gymerodd ran a 59% o ddisgyblion oedran ysgol uwchradd a gymerodd ran).

Tabl 13. Costau cludiant i’r holl ddisgyblion sy'n mynychu dau ymweliad preswyl dwy noson

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 1,131,395 | 1,125,721 | 1,116,686 | 1,084,454 | 1,058,190 |
| Amrediad uchel | 1,592,333 | 1,584,349 | 1,571,633 | 1,526,269 | 1,489,304 |

## Disgyblion ag ADY

**298.** Tybir bod angen cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn (cerbyd WAV) ar ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol i'w cludo i ganolfannau gweithgareddau awyr agored arbenigol. Dangosodd ymchwil sylfaenol fod cwmnïau llogi yn darparu costau o rhwng £250 a £280 i logi cerbyd WAV maint llawn am dridiau a rhwng £420 a £470 am wythnos. Mae lle mewn cerbyd WAV maint llawn i hyd at dri chadair olwyn a saith teithiwr, gan gynnwys y gyrrwr.

**299.** Mae contractau llogi’n darparu lefel benodol o yswiriant i'r gyrrwr rhag ofn y bydd difrod felly mae costau o'r fath wedi'u hepgor. Defnyddiwyd costau llogi i amcangyfrif y costau cludiant ar gyfer ymweliadau preswyl dwy a phedair noson.

**300.** Bydd gan rai ysgolion eu cerbyd WAV eu hunain. Fodd bynnag, er mwyn cyfrif am y costau uchaf y gellid mynd iddynt er mwyn cludo disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol, mae'r amcangyfrifon yn tybio bod angen i bob ysgol logi cerbyd WAV at y diben hwn. Tybir ymhellach y byddai angen mynediad i gadair olwyn ar bob disgybl ag anawsterau dysgu difrifol felly byddai uchafswm o dri disgybl ag anawsterau dysgu difrifol fesul cerbyd WAV.

**301.** Amcangyfrifwyd nifer y cerbydau WAV y byddai angen eu llogi.

Tabl 14. Nifer y cerbydau WAV i gludo disgyblion ag anghenion dysgu difrifol

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y cerbydau WAV | 71 | 69 | 64 | 60 | 57 |

**302.** O logi cerbyd WAV, byddai rhaid i ysgolion dalu am danwydd i gyrraedd y darparwr arbenigol a dod oddi yno. Tybir bod taith yno ac yn ôl ar gyfartaledd yn 120 milltir.

**303.** Mae adolygiad wedi dangos bod cerbyd WAV maint llawn megis Peugeot Boxer neu Renault Master yn gallu teithio tua 30 milltir y galwyn. O ddefnyddio nifer y cerbydau WAV y byddai angen eu llogi, ceir yr amcangyfrifon a ganlyn o gostau tanwydd.

Tabl 15. Costau tanwydd sy'n gysylltiedig â llogi cerbyd WAV maint llawn

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Tanwydd | 3,750 | 3,660 | 3,390 | 3,180 | 3,000 |

**304.** Gan ddefnyddio'r un tybiaethau ag a ddefnyddiwyd ar gyfer costau'r darparwyr, amcangyfrifwyd nifer y cerbydau WAV y byddai eu hangen a'r costau tanwydd, ac mae'r costau'n deillio o ddefnyddio'r amrediadau costau uchod.

Tabl 16. Cyfanswm y costau llogi ar gyfer yr holl ddisgyblion ag anawsterau dysgu difrifol gan gynnwys costau tanwydd

| Costau (£) | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amrediad isel | 37,890 | 36,880 | 34,190 | 32,060 | 30,380 |
| Amrediad uchel | 41,980 | 40,860 | 37,880 | 35,520 | 33,660 |

## Costau athrawon cyflenwi

**305.** Ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd, tybir y byddai gan bob dosbarth athro penodedig a fyddai naill ai'n mynd gyda'r dosbarth ar gwrs preswyl neu'n cyflenwi ar gyfer athro arall pe bai'r athro dosbarth yn penderfynu peidio â mynd. O'r herwydd, ni fyddai angen athrawon cyflenwi.

**306.** Mae Cynorthwywyr Addysgu'n gweithio gyda disgyblion cynradd ac uwchradd a disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Maent weithiau'n rhoi cymorth un i un i'r disgyblion ac weithiau'n rhoi cymorth mewn grwpiau bach.

**307.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganlyniadau ei Chyfrifiad o'r Gweithlu Ysgolion ym mis Tachwedd 2022.[170] O safbwynt cyfwerth â pherson llawn, roedd yn dangos bod 22,215 o athrawon yn gweithio fel athrawon dosbarth cymwysedig yng Nghymru gyda 15,660 o gynorthwywyr addysgu a 1,590 yn rhagor o gynorthwywyr addysgu lefel uwch.

**308.** Mae StatsCymru yn dadansoddi'r data ymhellach, gan ddangos bod 10,330 o athrawon dosbarth cymwysedig cyfwerth â pherson llawn mewn ysgolion cynradd a 9,540 mewn ysgolion uwchradd.[171] Roedd cyfanswm o 12,365 o gynorthwywyr addysgu / cynorthwywyr addysgu lefel uwch mewn ysgolion cynradd a 2,700 mewn ysgolion uwchradd.

**309.** Mae'r data'n dangos bod o leiaf un cynorthwyydd addysgu i bob athro cymwysedig mewn dosbarthiadau ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2. O'r herwydd, rydym yn amcangyfrif bod o leiaf un cynorthwyydd addysgu ar gyfer pob dosbarth ysgol gynradd yng Nghyfnod Allweddol 2.

**310.** Nododd y rhai a ymatebodd i'r arolwg, a gynhaliwyd i lywio goblygiadau ariannol y Bil, mai'r gymhareb staff yw o leiaf un aelod o staff i bob 10 disgybl. Mae hyn yn cyfateb i dri aelod o staff addysgu ar gyfer dosbarth o faint cyfartalog.

### Ysgolion cynradd

**311.** Daeth i'r amlwg wrth drafod â rhanddeiliaid mai'r arfer cyffredin fyddai i un athro cymwysedig a dau gynorthwyydd addysgu fynd gyda phob dosbarth ar ymweliad addysg awyr agored breswyl. Gan dybio bod athro a chynorthwyydd addysgu penodedig ar gyfer pob dosbarth ysgol gynradd, byddai rhaid i'r ysgol drefnu darpariaeth gyflenwi ar gyfer un cynorthwyydd addysgu fesul dosbarth.

**312.** Gan ddefnyddio data o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE),[172] roedd cynorthwywyr addysgu yn ennill £310.50 yr wythnos yng Nghymru yn 2022. Mae hyn yn cyfateb i tua £62 y dydd yn seiliedig ar wythnos bum niwrnod. Yn ei Memorandwm

[170] StatsCymru, Cyfrifiad Blynyddol o'r Gweithlu Ysgolion (CBGY), Tachwedd 2022
[171] StatsCymru, Athrawon yn ôl mesur 2022/23
[172] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, ASHE, 14 Tachwedd 2022

Esboniadol[173] ar gyfer y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), darparodd Llywodraeth Cymru amcangyfrif o 30% o argostau ar gyfer cynorthwywyr addysgu. Mae hyn yn rhoi cost amcangyfrifedig o tua £81 y dydd.

**313.** Ym mis Mai 2020, cyhoeddodd Gwasanaeth Masnachol y Goron, un o asiantaethau Llywodraeth y DU, flog ar gyfraddau ychwanegiad asiantaeth athrawon cyflenwi.[174] Cyfeiriodd at y Fframwaith Athrawon Cyflenwi a Staff Dros Dro yr oedd wedi'i lansio, gan ddweud bod modd sicrhau ychwanegiadau asiantaeth o 15% a llai na hynny o dan y fframwaith.

**314.** Gan dybio y byddai costau cyflenwi staff addysgu 15% yn uwch, mae hyn yn cyfateb i tua £93 y dydd, gan gynnwys ffioedd asiantaeth.

**315.** Amcangyfrifir y byddai darpariaeth gyflenwi ar gyfer cynorthwyydd addysgu sy'n mynychu ymweliad preswyl pedair noson a phum niwrnod yn costio £464.

**316.** Ar gyfer cynorthwywyr addysgu sy'n mynychu dau ymweliad preswyl dwy noson, byddai angen darpariaeth gyflenwi am chwe diwrnod, a fyddai'n costio tua £557.

**317.** Gallwn amcangyfrif nifer y dosbarthiadau ysgol gynradd drwy ddefnyddio maint dosbarth cyfartalog a chyfanswm y disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn 2024-25 (fel y nodir yn yr adran tybiaethau cyffredin). Gan fod nifer tebyg o ddisgyblion ar draws grwpiau blwyddyn yng Nghyfnod Allweddol 2, credir bod hwn yn ddull priodol.

**318.** Mae hyn yn rhoi'r amcangyfrifon a ganlyn o gostau mynychu cwrs preswyl.

Tabl 17. Cyfanswm y costau ar gyfer un cynorthwyydd addysgu ychwanegol sy'n mynychu ymweliad preswyl

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau (£) | 510,803 | 510,246 | 504,861 | 487,407 | 477,102 |

[173] Llywodraeth Cymru, Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru), Memorandwm Esboniadol
[174] Gwasanaeth Masnachol y Goron, 14 Mai 2020

### Ysgolion uwchradd

**319.** Byddai angen darpariaeth gyflenwi ar gyfer athrawon ysgol uwchradd sy'n mynychu ymweliadau preswyl gan eu bod yn dysgu pynciau penodol ac nad ydynt yn cynorthwyo un dosbarth penodol. Tybir y byddai tri athro'n mynychu ymweliad preswyl gyda phob dosbarth fel y nodir yn yr adran tybiaethau cyffredin. Mae hyn er mwyn sicrhau yr amcangyfrifir y costau uchaf y gallai ysgolion fynd iddynt er mwyn trefnu darpariaeth gyflenwi ar gyfer yr athrawon hyn.

**320.** Mae data ASHE yn dangos bod athrawon ysgol uwchradd yn ennill cyflog wythnosol o £803.70 yn 2022. Mae hyn yn cyfateb i tua £161 y dydd. Gan ddefnyddio amcangyfrif o 30% o argostau, mae hyn yn rhoi cost ddyddiol o £209. Gan dybio bod staff cyflenwi'n costio 15% yn rhagor, mae hyn yn cyfateb i tua £240 y dydd, gan gynnwys ffioedd asiantaeth. Amcangyfrifir y byddai darpariaeth gyflenwi ar gyfer athro sy'n mynychu ymweliad preswyl pedair noson a phum niwrnod yn costio tua £1,200.

**321.** Unwaith eto, byddai angen darpariaeth gyflenwi am chwe diwrnod ar gyfer athrawon sy'n mynychu dau ymweliad dwy noson. Byddai hynny'n costio tua £1,440.

**322.** Gan ddefnyddio'r un dull i amcangyfrif costau athrawon cyflenwi ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd, gellir amcangyfrif cyfanswm y costau er mwyn i ysgolion sicrhau darpariaeth gyflenwi ar gyfer tri athro sy'n mynychu ymweliad preswyl fel a ganlyn.

Tabl 18. Cyfanswm y costau ar gyfer tri athro ysgol ganol/uwchradd sy'n mynychu ymweliad preswyl

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau (£) | 550,782 | 541,410 | 539,968 | 534,682 | 517,139 |

### Disgyblion ADY

**323.** Nododd ysgolion, yn eu hymatebion i'r arolwg, y byddai aelod dynodedig o staff yn dod gyda disgyblion ag ADY sy'n cael cymorth 1:1, ac na fyddai hynny felly'n arwain at gostau ychwanegol i'r ysgol. Fodd bynnag, dywedodd ysgolion hefyd y byddai sefyllfaoedd lle nad yw disgyblion ag ADY yn cael cymorth 1:1 ac y byddai angen i staff ychwanegol ddod gyda'r grŵp, a fyddai'n golygu bod angen rhagor o staff cyflenwi.

**324.** Mae'r system ADY newydd yn cael ei chyflwyno'n raddol dros bedair blynedd o fis Medi 2021.[175] Yn ystod y cyfnod hwn mae'r system ADY newydd a'r system AAA flaenorol ill dwy ar waith ac mae'r dysgwyr yn cael eu trosglwyddo fesul cam. Tybir y byddai angen i staff addysgu ychwanegol ddod ar ymweliad preswyl gyda phob disgybl sydd â datganiadau o dan y system AAA (y mae angen y cymorth mwyaf arnynt) a disgyblion sydd â lefel gyfatebol o anghenion o dan y system ADY.

**325.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ystadegau[176] ar gyfanswm nifer y disgyblion ag ADY neu AAA mewn ysgolion a gynhelir yn ôl math o ddarpariaeth. Mae hyn yn dangos bod gan 12,118 o ddisgyblion sydd ar hyn o bryd yn y system AAA flaenorol ddatganiad ym mis Ionawr 2023, sef 23% o'r holl ddisgyblion sy'n cael cymorth o dan drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol, Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu Ddatganiadau.

**326.** Mae'r data hefyd yn dangos bod gan 10,499 o ddisgyblion Gynllun Datblygu Unigol (CDU) drwy'r system ADY newydd. Gan dybio bod 23% o'r holl ddisgyblion wedi'u categoreiddio fel disgyblion sydd â datganiad o dan yr hen system AAA, mae hyn yn cyfateb i 2,415 o ddisgyblion. Felly, tybir bod angen y cymorth mwyaf ar hyn o bryd ar tua 14,533 o ddisgyblion.

**327.** Mae StatsCymru yn darparu data cryno CYBLD yn ôl awdurdod lleol[177] ar gyfer 2022/23 sy'n dangos cyfanswm nifer y disgyblion â datganiad sydd ag CDU mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae StatsCymru hefyd yn cynnwys data cryno CYBLD fesul ysgol[178] sy'n dangos cyfanswm nifer y disgyblion sydd â datganiad a'r rhai sydd ag CDU mewn ysgolion canol. Defnyddiwyd y ffigurau hyn i amcangyfrif nifer y disgyblion mewn ysgolion arbennig sydd wedi'u categoreiddio fel disgyblion sydd â datganiad, sy'n cyfateb i 5,162 o ddisgyblion.

**328.** Gellir amcangyfrif canran o ddisgyblion gan ddefnyddio cyfanswm nifer y disgyblion ym mhob lleoliad ysgol. Mae'r ganran hon wedi'i chymhwyso i gyfanswm nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ar draws pob lleoliad ysgol er mwyn amcangyfrif nifer y disgyblion sydd â datganiad.

175 Ymchwil y Senedd, Llywodraeth Cymru yn penderfynu bod angen rhagor o amser i roi'r newidiadau i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol ar waith
176 Llywodraeth Cymru, Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion: Ionawr 2023
177 StatsCymru, Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol, 2022/23
178 StatsCymru, Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl ysgol, 2022/23

**329.** Mae nifer y disgyblion sydd ag anawsterau dysgu difrifol wedi'i hepgor er mwyn osgoi cyfrif ddwywaith gan fod costau athrawon cyflenwi ar gyfer y disgyblion hyn wedi'u hamcangyfrif yn yr adran nesaf.

Tabl 19. Cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol gynradd yr amcangyfrifir bod angen staff addysgu ychwanegol arnynt

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y disgyblion | 460 | 460 | 429 | 411 | 386 |

**330.** Gan ddefnyddio'r un dull ag ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd, mae cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol uwchradd sydd ag ADY y mae angen staff addysgu ychwanegol arnynt fel a ganlyn.

Tabl 20. Cyfanswm nifer y disgyblion oedran ysgol uwchradd yr amcangyfrifir bod angen staff addysgu ychwanegol arnynt

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer y disgyblion | 210 | 199 | 199 | 186 | 177 |

**331.** Gan dybio bod angen un aelod o staff addysgu i bob dau ddisgybl sydd ag ADY y mae angen cymorth ychwanegol arnynt, mae hyn yn cyfateb i tua 1,500 yn rhagor o staff addysgu i ddod gyda disgyblion ar ymweliadau dros y cyfnod arfarnu.

**332.** Gan ddefnyddio costau sy’n seiliedig ar staff ychwanegol sy'n cynnwys cynorthwywyr addysgu ar gyfer ysgolion cynradd ac ysgolion canol ac athrawon AAA ar gyfer ysgolion arbennig, ar sail niferoedd disgyblion oedran ysgol gynradd, gellir amcangyfrif cyfanswm y costau.

Tabl 21. Cyfanswm costau staff addysgu ychwanegol i fynychu ymweliad preswyl ar gyfer disgyblion oedran ysgol gynradd

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau (£) | 176,354 | 176,354 | 158,495 | 149,413 | 136,064 |

**333.** Tybir, o ran darpariaeth gyflenwi ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd sy'n mynychu ymweliad preswyl, y byddai angen athrawon ar gyfer ysgolion canol ac uwchradd, yn ogystal ag athrawon AAA ar gyfer ysgolion arbennig.

Tabl 22. Cyfanswm costau staff addysgu ychwanegol i fynychu ymweliad preswyl ar gyfer disgyblion oedran ysgol uwchradd

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau (£) | 137,265 | 132,418 | 132,418 | 123,484 | 118,417 |

### Disgyblion ADY ag anawsterau dysgu difrifol

**334.** O ran costau athrawon cyflenwi ar gyfer disgyblion ag anghenion difrifol, rydym yn defnyddio cymhareb o ddau athro i bob tri disgybl, sef yr hyn a dybiwyd wrth amcangyfrif costau darparwyr ar gyfer canolfannau arbenigol, yn seiliedig ar ymatebion i'r arolwg ysgolion. Tybir y byddai angen o leiaf ddau aelod o staff i gludo disgyblion at y darparwr gweithgareddau arbenigol, un ohonynt i yrru'r cerbyd WAV.

**335.** Tybir y byddai rhaid i'r ysgol sicrhau darpariaeth gyflenwi ar gyfer dau athro AAA am bob tri disgybl sy'n mynychu.

**336.** Mae'r costau ar gyfer staff ychwanegol yn deillio o ddefnyddio'r amcangyfrifon o niferoedd y disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol. O gymhwyso'r niferoedd hyn i'r gyfradd ddyddiol a gyfrifwyd ar gyfer athrawon AAA, gan gynnwys ychwanegu 15% ar gyfer costau asiantaeth, tua £1,100 fyddai cyfanswm y gost i un athro AAA fynychu cwrs preswyl pedair noson (yn seiliedig ar bum niwrnod).

**337.** Fel y soniwyd, byddai angen darpariaeth gyflenwi am 6 diwrnod ar gyfer staff sy'n mynychu dau ymweliad dwy noson, sef cyfanswm o tua £1,322.

Tabl 23. Cyfanswm costau athrawon cyflenwi ar gyfer ymweliadau preswyl gyda disgyblion ag anawsterau dysgu difrifol

| | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau (£) | 179,131 | 175,385 | 162,606 | 152,471 | 139,691 |

## Olrhain cyfranogiad disgyblion

**338.** Bydd angen olrhain disgyblion mewn ysgolion a gynhelir i sicrhau eu bod wedi cael cyfle i fynychu profiad gweithgareddau awyr agored preswyl. Tybir mai'r awdurdodau lleol fydd yn gwneud y gwaith olrhain hwn.

**339.** Nodwyd mewn trafodaethau â rhanddeiliaid y gellid cynnwys yr wybodaeth olrhain ym mhob cofnod disgybl a gofnodir ar y system rheoli gwybodaeth briodol. Byddai hyn yn golygu bod angen mewnbynnu maes ychwanegol i'r gronfa ddata cofnodion disgyblion drwy greu cod, a allai fod yn debyg i'r cod a ddefnyddir ar hyn o bryd ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol.

**340.** Gan fod awdurdodau lleol eisoes yn defnyddio systemau rheoli gwybodaeth, tybir na fyddai fawr ddim costau trosiannol yn gysylltiedig â chynnwys cod ychwanegol.

# 10. Asesiadau Effaith Penodol

Mae'r bennod hon yn nodi canlyniadau'r asesiadau effaith penodol a gynhaliwyd fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## A) Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder (Rheol Sefydlog 26.6 (xii))

**341.** Lluniwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder hwn yn unol ag adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 26.6(xii).

**342.** Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 na'r Rheolau Sefydlog yn pennu'r hyn y mae rhaid i Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ei gynnwys, na'i ffurf, dim ond ei bod yn ofynnol cynnal Asesiad o'r fath. Wrth ystyried manylion yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Bil hwn, rhoddwyd ystyriaeth drylwyr i'r manylion sydd yn nogfen 'Justice Impact Test Guidance'[179] y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ynghyd â'r ffurflen brawf berthnasol. Ystyriwyd hefyd ffurflen Llywodraeth Cymru, Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder.[180]

**343.** Er mai ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth yn bennaf y mae'r ddwy set o ganllawiau, mae'n ddefnyddiol cyfeirio atynt o ran sut i fynd ati i lunio Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder ar gyfer y Bil hwn.

**344.** Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a rhai Llywodraeth Cymru yn nodi dau gwestiwn allweddol y mae rhaid eu hystyried wrth benderfynu a oes rhaid cynnal Prawf o'r Effaith ar Gyfiawnder llawn. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn nodi:

> *"Do I need to complete a JIT?*
>
> *A JIT needs to be completed for all new policy proposals that could potentially have an impact on any aspect of the justice system. Even if the impacts are expected to be minimal, this must be supported by*

[179] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Justice Impact Test Guidance
[180] Llywodraeth Cymru: Ffurflen Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder

*evidence and agreed between MoJ and the policy-owning department via the JIT process.*

*The key questions that policy-makers should ask themselves are:*

• *Is it possible that the policy will increase or decrease the volume of cases going through the courts or tribunals? and/or*

• *Will the policy change the way that cases are dealt with by the justice system?*

*If the answer to either question is yes, there will be a justice impact however small the change in volume or process might be."*

**345.** Mae effeithiau posibl y cynigion a nodir yn y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ar y system gyfiawnder wedi eu hystyried yn llawn, gan gynnwys yr effaith ar:

a. y llysoedd (troseddol a sifil);

b. tribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli;

c. tribiwnlysoedd datganoledig;

d. cymorth cyfreithiol;

e. y farnwriaeth;

f. cyrff erlyn; ac

g. carchardai, y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf.

**346.** Nid yw'r Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yn creu unrhyw droseddau, sancsiynau na chosbau newydd. Felly, ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr. O'r herwydd, yr ateb i'r ddau gwestiwn allweddol a nodir yng nghanllawiau'r llywodraeth yw, yn bendant, na.

## B) Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

### Cyflwyniad

**347.** Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ystyried effaith y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) ar blant yng Nghymru a'u hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).[181]

**348.** Mae Fframwaith y Ffordd Gywir: Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant Comisiynydd Plant Cymru[182] a thempled Asesiadau o'r Effaith ar Hawliau Plant Llywodraeth Cymru: canllawiau i staff[183] wedi llywio'r gwaith.

**349.** Wrth lunio'r Bil, ystyriwyd hawliau plant o ran yr hyn y mae'r Bil yn ceisio'i gyflawni a sut y bydd yn effeithio ar blant, ac erthyglau'r CCUHP o ran y ffordd y caiff ei gyflawni.

### Crynodeb o effaith y Bil ar hawliau plant

**350.** I grynhoi, mae'r Bil hwn yn rhoi effaith bellach i hawliau plant yng Nghymru a'u hawlogaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar yr hawliau a'r hawlogaethau hynny.

**351.** Drwy gefnogi'r ddeddfwriaeth hon, byddai Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei dyletswyddau deddfwriaethol o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 a'i dyletswydd i roi sylw dyledus i'r CCUHP ym mhopeth y mae'n ei wneud.

**352.** Rhoddwyd sylw dyledus i hawliau plant wrth ddatblygu'r Bil, gan gynnwys ymgynghori'n sylweddol â phlant a phobl ifanc eu hunain, yn unol ag Erthygl 12 o'r CCUHP.

**353.** Ystyriwyd yr effaith ar grwpiau penodol o blant a phobl ifanc a, phan nodwyd bod hynny'n angenrheidiol, addaswyd y cynigion hyn er mwyn sicrhau bod y Bil yn cael effaith mor gadarnhaol â phosibl heb achosi niwed i unrhyw grwpiau penodol. Ystyriwyd y risgiau posibl a'r canlyniadau anfwriadol i blant a phobl ifanc, ac mae hynny wedi dylanwadu ar gynnwys y Bil ei hun ac ar ystyriaethau o ran sut y caiff ei weithredu.

---

[181] Unicef, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
[182] Comisiynydd Plant Cymru, Y Ffordd Gywir: Cwestiynau CRIA ar gyfer cyrff cyhoeddus yng Nghymru
[183] Llywodraeth Cymru, Asesiadau o'r effaith ar hawliau plant: canllawiau i staff Llywodraeth Cymru

## Beth mae'r Bil yn ei wneud a sut mae hyn yn ymwneud â phlant?

**354.** Bydd y Bil yn rhoi cyfle i bob plentyn mewn ysgol a gynhelir gymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl fel rhan o'r cwricwlwm, yn rhad ac am ddim, unwaith yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol. Mae'r Bil yn darparu y bydd hyn am gyfnod sy'n cyfateb i gyfanswm o bedair noson / pum niwrnod. Caiff y cwrs addysg awyr agored breswyl hwn ddigwydd ar un ymweliad neu caiff ymestyn dros fwy nag un ymweliad. Caiff ysgolion barhau i drefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl ychwanegol y tu allan i'r cwricwlwm, er efallai y codir tâl ar ddisgyblion am hyn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

**355.** Ar hyn o bryd, nid yw pob plentyn yn cael cyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl. Mae data'n dangos bod 67% o ysgolion cynradd ac ysgolion canol (pob oedran) wedi trefnu cyrsiau addysg awyr agored breswyl i'w disgyblion yng Nghyfnod Allweddol[184] 2 yn 2022/23, sy'n golygu na chafodd tua thraean o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd a chanol y cyfle hwnnw.

**356.** Mae cyfran y plant sy'n cael y cyfle hwn mewn addysg uwchradd yn is. Yn 2022/23, trefnodd 54% o ysgolion gyrsiau addysg awyr agored breswyl ar gyfer eu disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a 48% ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. Yn 2022/23, aeth 24% o ysgolion arbennig ar gwrs addysg awyr agored breswyl.[185]

**357.** Mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa hirdymor yn hytrach nag unrhyw beth sy'n ymwneud yn benodol â'r pandemig. Yn y flwyddyn lawn ddiwethaf cyn y pandemig – 2018/19 – roedd cyfran yr ysgolion a drefnodd gyrsiau addysg awyr agored breswyl i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 (65%) a Chyfnod Allweddol 4 (52%) yn debyg i 2022/23, er bod hyn yn uwch yng Nghyfnod Allweddol 3 (76%) nag yn 2018/19.

**358.** Mae ymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a chyfyngiadau ariannol yn rhwystr sylweddol i rai disgyblion rhag manteisio ar y cyfleoedd hyn pan fydd eu hysgol yn trefnu

[184] Cydnabyddir bod un continwwm dysgu yn disodli'r 'cyfnodau allweddol' yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn cyfeirio at 'gyfnodau allweddol' er hwylustod.
[185] Gweler paragraffau 40 i 43 ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol i weld rhagor o drafod ar lefelau cyfranogi presennol.

profiad awyr agored preswyl.[186] Roedd hyn hefyd yn amlwg yn yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd ar y cynigion sy'n sail i'r Bil.[187]

**359.** Nod y Bil yw newid hyn. Bydd yn sicrhau na chaiff yr un plentyn na pherson ifanc ei atal rhag profi addysg awyr agored breswyl unwaith yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol, dim ond oherwydd na all ei deulu fforddio hynny neu oherwydd nad yw ei ysgol yn trefnu ymweliad.

**360.** Ni fydd plant a phobl ifanc yn cael eu gorfodi i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl. Mae hyn yn bwysig er mwyn parchu dymuniadau a theimladau'r plentyn ac yn unol ag Erthygl 12. Fodd bynnag, bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hannog a'u cefnogi i wneud hynny. Byddant yn cael cyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl os ydynt am wneud hynny, a hynny'n rhad ac am ddim.

## Sut mae'r Bil yn rhoi effaith i erthyglau'r CCUHP?

**361.** Mae darpariaethau'r Bil yn cefnogi nifer o erthyglau'r CCUHP ac yn rhoi effaith iddynt.

**Erthygl 3 (lles pennaf y plentyn): Rhaid i les pennaf y plentyn fod yn un o'r prif flaenoriaethau ym mhob penderfyniad a gweithred sy'n effeithio ar blant.**

**362.** Prif amcan y Bil yw gwella bywydau plant a phobl ifanc drwy roi cyfle iddynt brofi addysg awyr agored breswyl, na fyddai efallai ar gael iddynt fel arall. Trafodir manteision cwrs addysg awyr agored breswyl yn helaeth yn y Memorandwm Esboniadol (gweler Pennod 3).

**363.** Tynnodd yr ymgynghoriadau a gynhaliwyd sylw at lawer o fanteision cyrsiau addysg awyr agored breswyl, megis y nodweddion personol y gellir eu caffael a'u datblygu, gwella iechyd a llesiant corfforol a meddyliol a datblygiad personol cyfannol yn gyffredinol. Dywedodd plant mai bondio â ffrindiau a chael hwyl oedd rhai o'r prif fanteision, ac yna'r cyfle i gael profiad o fod oddi cartref, dysgu sgiliau newydd, dysgu am yr amgylchedd a byd natur, a bod yn yr awyr agored.

**364.** Gan gydnabod na fydd cwrs addysg awyr agored breswyl, o dan rai amgylchiadau, yn addas i bob plentyn, nid yw'r Bil yn gorfodi plant i gymryd rhan ond bydd yn cynnig y cyfle iddynt.

---

[186] Sam Rowlands AS, Papur ystadegol: Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Hydref 2022) – papur a gyhoeddwyd cyn dadl y Senedd ar y cynnig ar 26 Hydref 2022.
[187] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad ar y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Mai 2023); Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)

**Erthygl 12 (parchu barn y plentyn): Mae gan bob plentyn hawl i leisio'i farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w farn gael ei hystyried o ddifrif.**

**365.** I grynhoi, rhoddwyd sylw dyladwy i hawliau plant ar bob adeg wrth ddatblygu'r Bil, ac mae hynny'n cynnwys ymgynghori'n helaeth â phlant a phobl ifanc eu hunain, yn unol ag Erthygl 12 o'r CCUHP. Roedd cefnogaeth sylweddol iawn yn yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynnig. Fodd bynnag, gan gydnabod bod Erthygl 12 yn parchu barn y plentyn mewn materion sy'n effeithio arno, nid yw'r Bil yn gorfodi plant i gymryd rhan.

**366.** Trafodir ymhellach yr ymgynghori a gafwyd â phlant a phobl ifanc yn ddiweddarach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn, ym mharagraffau 374 i 378.

**Erthygl 23 (plant ag anabledd): Mae gan blentyn ag anabledd hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas a, chyn belled ag y bo'n bosibl, annibyniaeth, ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth yn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd.**

**367.** Bwriad y Bil yw y bydd addysg awyr agored breswyl yn gynhwysol ac yn hygyrch i bob plentyn. Os felly, dylai'r Bil roi effaith i Erthygl 23. Trafodir hyn ymhellach yn yr adran ar effaith y Bil ar rai grwpiau o blant yn benodol yn ddiweddarach yn yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn.

**Erthygl 24 (Iechyd): Mae Gwladwriaethau sy'n Barti yn cydnabod hawl y plentyn i fwynhau'r safon uchaf bosibl o ran iechyd ac i gael cyfleusterau i drin afiechydon ac adfer iechyd. Sicrhau bod rhieni a phlant yn wybodus, yn gallu cael addysg ynghylch iechyd a maeth plant ac yn cael cymorth i ddefnyddio gwybodaeth sylfaenol am y materion hynny […] Datblygu gofal iechyd ataliol, canllawiau i rieni ac addysg a gwasanaethau cynllunio teulu.**

**368.** Mae cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl yn llesol i iechyd a llesiant meddyliol plant. Nodwyd yn benodol fod hyn yn brif fantais gan tua 40% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad cyffredinol a chan tua 8% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc. Mae paragraffau 92 i 95 ym Mhennod 3 o'r Memorandwm Esboniadol yn esbonio ymhellach sut y bydd y Bil yn llesol i iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc.

**Erthygl 26 (nawdd cymdeithasol): Mae gan bob plentyn hawl i gael budd nawdd cymdeithasol. Rhaid i lywodraethau ddarparu nawdd cymdeithasol, gan gynnwys cymorth ariannol a buddion eraill, i deuluoedd y mae angen cymorth arnynt.**

**369.** Mae'r Bil yn darparu y caiff plant gyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl unwaith, yn rhad ac am ddim. Bydd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid ar gyfer hyn, a fydd yn sicrhau nad yw plant yn colli'r cyfle i fynd oherwydd na all eu teuluoedd ei fforddio.

**370.** Mae'r Bil yn darparu y bydd y cyllid hwn yn ychwanegol fel nad yw costau addysg awyr agored breswyl yn cael eu talu o gyllid craidd ar gyfer addysg.

**Erthygl 28 (hawl i addysg): Mae gan bob plentyn hawl i gael addysg. Rhaid i addysg gynradd fod yn rhad ac am ddim a rhaid i wahanol fathau o addysg uwchradd fod ar gael i bob plentyn. Rhaid i ddisgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a'u hawliau. Rhaid i wledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn**

**371.** Mae'r Bil yn ychwanegu addysg awyr agored breswyl at y Cwricwlwm i Gymru. Bydd hyn yn ei newid o fod yn rhywbeth sy'n 'cyfoethogi'r' cwricwlwm, sy'n aml yn cael ei ystyried yn rhywbeth 'braf i'w gael', i fod yn hawl o dan y cynnig addysg i blant a phobl ifanc, er mwyn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan ar ryw adeg. Mae hyn yn cydnabod pwysigrwydd addysg awyr agored mewn lleoliad preswyl i gynnydd a datblygiad plant a phobl ifanc.

**Erthygl 29 (nodau addysg): Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddi annog y plentyn i barchu hawliau dynol, yn ogystal â pharchu ei rieni, ei ddiwylliant ei hun a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd.**

**372.** Mae addysg awyr agored breswyl yn cynnig llawer o fanteision o ran datblygiad personol cyfannol plant, o safbwynt iechyd corfforol, iechyd a llesiant meddyliol, a chaffael sgiliau – llawer ohonynt yn sgiliau bywyd sylfaenol. Gall llawer o blant sy'n cael dysgu academaidd yn anodd ffynnu a defnyddio doniau a galluoedd eraill na fyddent efallai'n cael cyfle i'w defnyddio fel arall. Gall cwrs addysg awyr agored breswyl gryfhau cysylltiad plant â'r amgylchedd a hybu gwell dealltwriaeth ac agweddau mwy cadarnhaol tuag at faterion hanfodol megis cynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd.

**Erthygl 31 (hamdden, chwarae a diwylliant): Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig.**

**373.** Gall addysg awyr agored breswyl gynnig cyfleoedd hamdden i blant, i chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r Bil yn rhoi effaith i'r

rhwymedigaethau ar lywodraethau i barchu a hybu hawl y plentyn i gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau o'r fath. Yn unol ag erthygl 23, mae'n annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal o ran gweithgareddau adloniadol a hamdden.

## Sut yr ymgynghorwyd â phlant a phobl ifanc ynghylch y cynigion sy'n sail i'r Bil?

**374.** Fel y trafodwyd uchod, mae Erthygl 12 o'r CCUHP yn rhoi hawl i blant i fynegi eu barn, eu teimladau a'u dymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried o ddifrif. Bwriedir mai plant a phobl ifanc fydd yn elwa fwyaf ar y Bil ac felly roedd yn bwysig iawn cael clywed eu barn am y cynigion. Yn ogystal â'r ymgynghoriad cyffredinol ar y cynigion, a gynhaliwyd rhwng 31 Ionawr a 17 Mawrth 2023,[188] cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 10 Mai a 23 Mehefin 2023.[189]

**375.** Cafodd y deunyddiau ymgynghori eu llunio gan academydd allanol sy'n arbenigo mewn astudiaethau plentyndod a methodolegau cyfranogiad plant. Cafodd y deunyddiau hyn eu datblygu gyda phlant a phobl ifanc ac roeddent yn cynnwys:

- arolwg ar-lein;
- dogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys y cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolwg;
- stribed cartŵn yn esbonio diben yr ymgynghoriad; a
- gêm ar thema 'nadroedd ac ysgolion' i helpu oedolion sy'n gweithio gyda phlant i gasglu ymatebion.

**376.** Cafwyd 176 o ymatebion i'r arolwg oddi wrth 144 o blant a phobl ifanc, a 32 o oedolion neu sefydliadau. Roedd cefnogaeth sylweddol iawn i'r egwyddorion sy'n sail i'r cynnig:

- O ran pwysigrwydd rhoi cyfle i bob plentyn gymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos yn rhad ac am ddim ar ryw adeg, rhoddodd 90% o'r ymatebwyr sgôr o 7 neu fwy allan o 10. Rhoddodd 42% o'r ymatebwyr sgôr o 10 allan o 10.
- O ran pwysigrwydd rhoi cyfle i bob plentyn gymryd rhan mewn addysg awyr agored dros nos yn rhad ac am ddim ar ryw adeg, o blith y rhai a oedd o dan 13 oed, rhoddodd 89% o'r ymatebwyr sgôr o 7 neu fwy allan o 10. Rhoddodd 34% o'r ymatebwyr sgôr o 10 allan o 10.

[188] Senedd Cymru, Datblygu'r Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) - ymgynghoriad
[189] Senedd Cymru, Datblygu'r Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) - ymgynghoriad i blant a phobl ifanc

- Roedd mwyafrif helaeth (75%) yr ymatebwyr yn credu y dylai fod deddfwriaeth i sicrhau y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos yn rhad ac am ddim. Dywedodd 18% 'efallai', a dywedodd 7% 'na'.

- Roedd mwyafrif helaeth (74%) yr ymatebwyr o dan 13 oed yn credu y dylai fod deddfwriaeth i sicrhau y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos yn rhad ac am ddim. Dywedodd 18% 'efallai' a dywedodd 8% 'na'.

**377.** Yn ogystal, cynhaliodd tîm Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Senedd bum cyfarfod â grwpiau o blant ysgol yn ystod ymweliadau â'r Senedd a oedd wedi'u trefnu eisoes. Roedd tair o'r ysgolion hyn yn ysgolion uwchradd a dwy yn ysgolion cynradd (tra bo bron pob un o'r plant oedran ysgol a ymatebodd i'r arolwg o dan 13 oed). Roedd canfyddiadau'r cyfarfodydd hyn yn cyd-fynd at ei gilydd â chanfyddiadau'r arolwg. Mae rhagor o fanylion ar gael yn y crynodeb o'r ymgynghoriad[190].

**378.** Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc.[191] Llywiodd canfyddiadau'r ymgynghoriad y Bil drafft a gyhoeddwyd ar 14 Gorffennaf 2023[192] ac mae barn plant a phobl ifanc wedi llywio trafodaethau drwy gydol y gwaith o ddatblygu'r cynigion a'r Bil ei hun.

## A allai'r Bil gael unrhyw effeithiau negyddol posibl ar blant a sut y gellir lliniaru'r rhain?

**379.** Roedd lleiafrif bach (tua 6%) o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad cyffredinol yn anghytuno ag un neu ragor o'r prif egwyddorion sy'n sail i'r cynigion. Gellir crynhoi'r prif feysydd a oedd yn peri pryder fel a ganlyn:

- Pryder y caiff cyllid ei ddargyfeirio oddi wrth gyllidebau craidd ysgolion. Roeddent o'r farn mai'r cyllidebau craidd hyn ddylai fod yn flaenoriaeth o ran unrhyw wariant sydd ar gael ar gyfer addysg.

- Y goblygiadau staffio os daw hyn yn statudol - sicrhau niferoedd digonol o staff ysgol i hebrwng disgyblion a'r effaith a'r pwysau ar y rhai sy'n fodlon mynd.

[190] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)
[191] Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)
[192] Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) Drafft (Gorffennaf 2023)

- Pryderon na fydd ysgolion yn cael cyllid ar gyfer costau llawn y gofynion staffio – p'un ai i dalu goramser i'r rhai sy'n goruchwylio ymweliadau neu i ganfod staff cyflenwi yn ystod eu habsenoldeb.

**380.** Fel yr esboniwyd yn adran ymgynghori'r ME (Pennod 5), nod y Bil yw lliniaru'r risg y bydd cyllid yn cael ei ddargyfeirio oddi wrth gyllidebau craidd ysgolion ac na fydd ysgolion efallai'n cael y cyllid llawn angenrheidiol o dan y gofyniad yn adran 2 i Weinidogion Cymru ddarparu hyn i awdurdodau lleol.

**381.** Nododd 70% o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc fod "plant yn teimlo'n bryderus" yn rhwystr rhag cymryd rhan mewn cwrs addysg awyr agored breswyl. Mae hyn yn awgrymu bod rhywfaint o anesmwythder ymhlith plant ynglŷn â'r syniad o fod oddi cartref dros nos (neu am gyfnod hwy). Nododd 59% o'r ymatebwyr hefyd bryderon rhieni.

**382.** Nid yw'r Bil yn gorfodi plant i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl, ond yn hytrach mae'n sicrhau bod cyfle iddynt fynd. Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd beth y gellid ei wneud i sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar gwrs addysg awyr agored breswyl, a allai awgrymu'r ffyrdd gorau o oresgyn y rhwystr o ran gofidion a phryderon plant ynglŷn â mynd.[193]

**383.** Y ffactor a nodwyd amlaf (gan chwarter yr ymatebwyr) oedd sicrhau bod plant yn cael hwyl, yn mwynhau eu hunain ac yn gallu cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau. Yr ail ffactor a nodwyd amlaf (16%) oedd fod angen i'r oedolion sy'n darparu neu'n goruchwylio'r addysg awyr agored breswyl roi sylw i emosiynau, pryderon ac anghenion ehangach y plant.

**384.** Roedd diogelwch yn ystyriaeth bwysig i lawer, gyda 12% yn tynnu sylw at bwysigrwydd bod yn ddiogel yn ystod yr ymweliad. Tynnodd nifer fach sylw yn benodol at bwysigrwydd sicrhau bod rheolau addas yn eu lle.


**385.** Soniodd 11% am fod yn gynhwysol, yn gefnogol a sicrhau nad oes neb yn cael ei 'adael allan' yn ystod yr ymweliad, tra bo 9% yn dweud ei bod yn bwysig darparu gwybodaeth i baratoi plant ynghylch yr hyn i'w ddisgwyl. Dywedodd 5% y dylent gael rhywfaint o ddewis o ran yr hyn y maent yn ei wneud ac na ddylent deimlo o dan bwysau i wneud unrhyw beth nad ydynt yn teimlo'n gyffyrddus yn ei wneud.

**386.** Soniodd 14% am bwysigrwydd ansawdd y ddarpariaeth ei hun, gan gynnwys staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda, er mwyn sicrhau bod plant yn cael y gorau o'r profiad.

[193] Gweler Pennod 10 o Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)

**387.** Mae Ffigur 11 yn dangos yr hyn a nodwyd gan blant a phobl ifanc fel y ffyrdd gorau o sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o gyrsiau addysg awyr agored breswyl.

Ffigur 11: Sut gall pobl sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos? (165 o ymatebion)




*Ffynhonnell: Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)*

## A allai'r Bil effeithio ar rai plant yn fwy nag eraill?


**388.** Wrth ddatblygu'r Bil, ystyriwyd yr effaith y gallai'r Bil ei chael ar grwpiau penodol o blant.

**389.** Gofynnodd yr ymgynghoriad cyffredinol am farn pobl ynghylch pa blant yn benodol sy'n debygol o elwa ar y Bil. Nododd y mwyafrif o'r ymatebion y byddai rhoi cyfle i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir brofi cwrs addysg awyr agored breswyl yn gwella cydraddoldeb. Tynnwyd sylw yn arbennig at y manteision i blant o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Dywedwyd hefyd fod cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn brofiad cadarnhaol i'r rhai sy'n cael trafferth yn amgylchedd yr ystafell ddosbarth draddodiadol.

**390.** Gofynnodd yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc hefyd pa blant sydd fwyaf tebygol o elwa. Dywedodd dros hanner 'bob plentyn' yn hytrach na phennu unrhyw grwpiau'n benodol. Fel gyda'r ymgynghoriad cyffredinol, y grwpiau unigol a nodwyd amlaf oedd plant o aelwydydd incwm isel, na fyddent o bosibl yn cael cyfle fel arall (15%), a phlant ag anableddau neu ADY (13%).

**391.** Ymhlith y grwpiau eraill o blant a nodwyd roedd y rhai nad ydynt yn cael llawer o gyfle i fynd y tu allan (6%), plant sydd am gymdeithasu (6%), plant sydd ag anawsterau emosiynol ac iechyd meddwl (5%), a phlant sy'n gyfrifol ac yn dangos diddordeb (5%).

Ffigur 12: Pa grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos, a pham? (128 o ymatebion)




*Ffynhonnell: Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)*

**392.** Gan fod y grwpiau hyn o blant wedi'u nodi fel y rhai a allai o bosibl elwa fwyaf ar y Bil, mae'n hollbwysig bod y manteision hyn yn cael eu gwireddu gan mai'r awgrym yw efallai nad ydynt yn elwa yn y sefyllfa sydd ohoni. Er enghraifft, yn achos plant ag anableddau a/neu ADY, dim ond os gall darpariaeth addysg awyr agored breswyl ddarparu ar eu cyfer yn llawn a bodloni eu hanghenion y byddant yn elwa.

**393.** Yn wir, gofynnwyd yn yr ymgynghoriad cyffredinol am farn pobl ynghylch pa blant y gallai'r Bil effeithio'n negyddol arnynt pe na bai mesurau lliniaru digonol ar waith. Crybwyllwyd plant ag anableddau a/neu ADY, yn ogystal â phlant â gorbryder ac anghenion emosiynol.

**394.** Mae ystadegau'r cyfrifiad ysgolion yn dangos bod gan 13% o ddisgyblion oedran cynradd ADY, h.y. mae ganddynt anghenion dysgu, corfforol neu synhwyraidd sy'n ei gwneud yn fwy anodd iddynt ddysgu na'r rhan fwyaf o blant yr un oedran ac mae angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arnynt.[194] Mae'n annhebygol y bydd angen unrhyw gymorth ychwanegol yn ystod

[194] Llywodraeth Cymru, Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion (2023). Sylwer bod cyfran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt ADY wedi gostwng o 20% yn 2021 i 13% yn 2023, yn sgil symud tuag at ddarparu ar gyfer lefelau is o anghenion drwy ddarpariaeth gyffredinol yn hytrach na Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol.

cwrs addysg awyr agored breswyl ar y rhan fwyaf o'r plant hyn. Gall y rhan fwyaf o ganolfannau addysg awyr agored breswyl addasu eu darpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY, darpariaeth sy'n gofyn am adnoddau, offer a hyfforddiant ychwanegol, ac maent yn gwneud hynny. Er nad oes darpariaeth arbenigol yng Nghymru ar gyfer y rhai sydd ag anghenion cymhleth mwy difrifol, mae darpariaeth o ansawdd uchel ar gael yn Lloegr drwy Ymddiriedolaeth Bendrigg ac Ymddiriedolaeth Calvert (Cumbria), ac Ymddiriedolaeth Calvert (Exmoor).

**395.** Yn 2022/23, dim ond 24% o ysgolion arbennig yng Nghymru aeth ar ymweliad addysg awyr agored breswyl, tra bo 36% wedi mynd yn 2018/19, y flwyddyn lawn olaf cyn y pandemig. Mae hyn yn awgrymu bod ystyriaethau cymhleth o ran cyfranogiad rhai plant ag ADY a/neu anableddau cymhleth. Fodd bynnag, pan allai plant elwa ar ymweliad addysg awyr agored breswyl a phan fyddai'n fuddiol iddynt gymryd rhan, mae'n hanfodol eu bod yn cael cyfle i wneud hynny. Mae materion o'r fath yn debygol o ymestyn y tu hwnt i'r Bil hwn, ond mae angen eu hystyried serch hynny er mwyn sicrhau bod y Bil yn rhoi effaith i Erthygl 23 o'r CCUHP sy'n nodi:

> *A child with a disability has the right to live a full and decent life with dignity and, as far as possible, independence and to play an active part in the community. Governments must do all they can to support disabled children and their families.*

**396.** Mae ymchwil i raglenni sy'n cael eu rhedeg gan Ymddiriedolaeth Calvert[195] yn dangos bod cyfranogwyr ag anableddau wedi gweld cynnydd yn eu hyder a'u hannibyniaeth ac o ran gwireddu eu gallu personol o ganlyniad i gymryd rhan mewn rhaglenni gweithgareddau awyr agored preswyl sy'n ymwneud â her, cyflawni a gwaith tîm. Roedd manteision eraill yn deillio o ddarparu cyfleoedd cymdeithasol newydd a oedd yn galluogi'r cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau rhyngbersonol, gan fagu hyder i gymryd rhan mewn digwyddiadau tebyg.

**397.** Nid yw'r Bil ond yn rhoi hawl i addysg awyr agored breswyl i blant sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion a gynhelir, yn unol â dull gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru. Felly, nid yw'r Bil yn cwmpasu plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, er enghraifft y rhai mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion.

**398.** Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn gosod gofynion gwahanol ar gyfer plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol i'r rhai ar gyfer plant eraill.[196] Mae plant sy'n cael addysg

[195] Crosbie, J.P.G (2014) Value of outdoor education for people with disabilities: an in-depth case study of the Calvert Trust. Traethawd PhD, Prifysgol Caeredin.
[196] Adran 50, Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

heblaw yn yr ysgol yn derbyn fersiwn gyfyngedig o'r Cwricwlwm i Gymru lle mae'r pedwar diben yn berthnasol a rhaid iddynt ddysgu am Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb a'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol, sef llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 yn darparu bod plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol yn derbyn agweddau eraill y Cwricwlwm i Gymru pan fo hynny'n rhesymol ac yn briodol. Nid yw'r Bil yn atal plant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol rhag mynd ar gyrsiau addysg awyr agored breswyl, ond ni fydd yr hawlogaeth yn berthnasol iddynt. O ystyried manteision addysg awyr agored breswyl i blant sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol, y gobaith yw y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu ystyried sut y gellir ei chynnig iddynt, boed hynny fel rhan o'r hawlogaeth statudol neu drwy ddulliau eraill.

**399.** Nid yw'r Bil yn gymwys i blant mewn ysgolion annibynnol na'r rhai sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref.

## Enghreifftiau penodol o sut y mae barn plant a phobl ifanc wedi llywio'r Bil

**400.** Mae gwireddu hawliau plant wedi bod wrth wraidd datblygu'r cynigion, o ran gwella'u cyfleoedd i gael addysg awyr agored breswyl a sicrhau bod hynny'n fwy teg.

**401.** Mae'r gefnogaeth gref iawn i'r egwyddorion sy'n sail i'r Bil a fynegwyd yn yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc wedi llywio ac wedi cadarnhau'r gwaith o ystyried a datblygu'r Bil.

**402.** Daeth i'r amlwg yn yr ymgynghoriad fod pryderon plant ynghylch mynd ar ymweliadau weithiau'n fater y mae angen ei oresgyn neu roi ystyriaeth ddyledus iddo. Ni fu'n fwriad erioed i'r cynigion orfodi plant i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl, pan nad ydynt eisiau gwneud hynny o gwbl neu pan nad dyna sydd orau iddynt. Y bwriad yn hytrach oedd rhoi cyfle iddynt os ydynt am wneud hynny. Yn sgil yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau a ddyroddir gan Lywodraeth Cymru ddarparu nad yw'n orfodol i blant fynychu addysg awyr agored breswyl.

**403.** Dangosodd yr ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc (yn ogystal â'r ymgynghoriad cyffredinol) fod amrywiaeth barn ynghylch yr oedran gorau i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl. Nododd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr mai Blwyddyn 5 neu 6 fyddai'r oedran gorau i gymryd rhan mewn addysg awyr agored breswyl, a nododd 70% o'r ymatebwyr oedrannau o fewn ystod ychydig yn ehangach, sef rhwng Blwyddyn 4 a Blwyddyn 8. Fodd bynnag, nid oedd consensws eang o blaid un grŵp blwyddyn neu oedran. Yn ogystal, nododd

disgyblion oedran ysgol uwchradd a gymerodd ran mewn cyfarfodydd yn y Senedd mai Blynyddoedd 7 i 9 oedd yr adeg orau.[197]

**404.** Felly, nid yw'r Bil yn rhagnodi oedran pan ddylai disgyblion gael cyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl, er bod y Memorandwm Esboniadol cynharach (Awst 2022)[198] a'r ddogfen ymgynghori[199] yn nodi bod Blwyddyn 6 yn oedran cyffredin i blant wneud hynny wrth iddynt baratoi i adael yr ysgol gynradd a dechrau yn yr ysgol uwchradd. Er bod cyrsiau addysg awyr agored breswyl yn cynnig manteision amlwg wrth bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, ac er bod yr ymgynghori'n ategu hyn, oherwydd nad oes dewis clir sy'n cael ei ffafrio, mae'r Bil yn cynnig hyblygrwydd ynghylch pryd y rhoddir cyfle i fynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl. Mae'r Bil yn darparu y caiff canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru nodi'r oedrannau neu'r blynyddoedd ysgol pan fo addysg awyr agored breswyl i'w darparu.

**405.** Roedd safbwyntiau cymharol ranedig hefyd yn yr ymgynghoriadau ynghylch hyd mwyaf addas cwrs addysg awyr agored breswyl. Y cynnig o'r cychwyn cyntaf[200] oedd i ddisgyblion gael cyfle i gael o leiaf wythnos o addysg awyr agored breswyl. Mae hyn yn seiliedig ar ymchwil sy'n dangos bod ymweliadau preswyl hwy yn cael mwy o effaith na rhai byrrach, a'u bod hefyd yn cynnig gwell gwerth am arian o ran costau cludiant a ffioedd darparwyr.[201] Fodd bynnag, o ystyried amrywiaeth barn plant a phobl ifanc ynghylch yr hyd mwyaf addas, er bod hawl i gael gwerth pedair noson / pum niwrnod o addysg awyr agored breswyl, mae'r Bil yn darparu y caiff hyn ddigwydd naill ai ar un ymweliad neu y caiff ymestyn dros fwy nag un ymweliad.

[197] Gweler Pennod 7 o Sam Rowlands AS, Crynodeb o'r ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc ynghylch y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) arfaethedig (Gorffennaf 2023)
[198] Sam Rowlands AS: Memorandwm Esboniadol y cynnig, Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) (Awst 2022)
[199] Sam Rowlands AS: Ymgynghoriad, y Bil Addysg Awyr Agored (Cymru) Arfaethedig
[200] Senedd Cymru, Cynnig 029 – Sam Rowlands, AS (Gorffennaf 2022)
[201] Gweler paragraffau 129 i 130 o'r Memorandwm Esboniadol hwn

## C) Yr Effaith ar y Gymraeg

### Diben y Bil

**406.** Nod y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) yw creu dyletswydd statudol i sicrhau bod pob disgybl mewn ysgolion a gynhelir yn cael cyfle i brofi addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim, unwaith yn ystod ei flynyddoedd ysgol.

**407.** Bydd y Bil hefyd yn creu rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i alluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i wneud hyn.

**408.** Mae addysg awyr agored yn cynnig manteision cydnabyddedig i blant a phobl ifanc, o ran eu hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol, eu dysgu personol a chymdeithasol, eu datblygiad gwybyddol, a deall eu lle yn y byd.

**409.** Mae'r Bil yn ceisio datblygu dull cydgysylltiedig, wedi'i ariannu, er mwyn rhoi cyfle i bob plentyn mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru gael profiad addysg awyr agored breswyl yn rhad ac am ddim unwaith yn ystod ei flynyddoedd yn yr ysgol, beth bynnag fo'i gefndir economaidd-gymdeithasol, anableddau, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), cefndir diwylliannol neu leoliad daearyddol. Mae hyn yn golygu y bydd addysg awyr agored yn newid o fod yn weithgaredd sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm i fod yn hawl o dan y cwricwlwm, gan gael gwared ar yr ansicrwydd yn ei gylch o ran cyllid awdurdodau lleol, a sicrhau tegwch i blant a phobl ifanc Cymru.

### Ymgynghori

**410.** Ni chyfeiriodd yr un o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn yr ymgynghoriadau cyhoeddus ar gynigion y Bil, gan gynnwys yr ymgynghori ar y Bil drafft, at unrhyw ffordd y gallai'r cynigion hyn niweidio'r Gymraeg. Ni fydd y cynigion yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith nac ar addysg Gymraeg na dysgwyr Cymraeg o unrhyw oedran.

### Ymateb Comisiynydd y Gymraeg

**411.** Wrth ymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion y Bil, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

> *"O safbwynt ieithyddol, gall addysg awyr agored gynnig cyfleoedd pwysig i blant a phobl ifanc glywed a defnyddio'r iaith Gymraeg y tu allan i'r dosbarth ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol a hwyliog. Mae cyrsiau preswyl yr Urdd er enghraifft, yn cynnig cyfleoedd arwyddocaol i ddisgyblion ar draws Cymru brofi ystod o weithgareddau awyr agored tra hefyd yn cael eu trwytho yn yr*

*iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae gan addysg awyr agored felly'r potensial i gyfrannu'n sylweddol at y nod o sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus. Mae manteision hefyd wrth i blant ddod yn gyfarwydd â'r cynefin o'u cwmpas a'r iaith Gymraeg o ganlyniad i ddealltwriaeth o enwau lleoedd sydd gan fwyaf yn Gymraeg trwy Gymru."*

**412.** Aeth Comisiynydd y Gymraeg ymlaen wrth ymateb i'r ymgynghoriad i ddweud:

*"... gallasai'r Bil gynnig cyfle i fwy o blant Cymru dderbyn profiad addysg breswyl cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Byddai hyn yn ddatblygiad cadarnhaol i blant ar draws Cymru, ond yn enwedig i'r rhai hynny sy'n derbyn addysg drwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf, ac efallai sydd heb gymaint o gyfleoedd i glywed a defnyddio'r Gymraeg. Dylid hefyd nodi y gallasai'r Bil gynnig cyfleoedd i blant o gefndiroedd difreintiedig na fyddai fel arall â chyfleoedd amlwg i deithio i ardaloedd eraill yng Nghymru, i ddysgu am ddiwylliant yr ardaloedd hyn, ac i gael profiad cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, fel y mae nid yw'r Bil yn cynnig dim byd penodol er mwyn sicrhau'r uchod. Dylid felly ei gryfhau er mwyn sicrhau y gall gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg."*

## Darpariaethau penodol yn y Bil

**413.** Y dull a ddefnyddir yn y Bil yw diwygio Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 i gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer addysg awyr agored breswyl yn y cwricwlwm. Mae hyn yn cynnwys gosod dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ddyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl, ac i ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl. Mae'r Bil yn mynd ymhellach ac yn pennu'r hyn y mae rhaid i'r canllawiau statudol hynny ei gynnwys neu'r hyn y cânt ei gynnwys. Yn rhannol mewn ymateb i'r sylwadau gan Gomisiynydd y Gymraeg a rhanddeiliaid eraill, mewn perthynas â'r Gymraeg, mae'r darpariaethau hynny'n cynnwys, o ran y canllawiau:

- bod rhaid iddynt ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny. (Nid yw hyn wedi'i gyfyngu i gais gan ysgol cyfrwng Cymraeg, ac mae'n golygu y gallai ysgolion cyfrwng Saesneg ofyn i addysg awyr agored gael ei darparu yn Gymraeg pe byddent o'r farn y byddai hynny'n fuddiol);

- y cânt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o’r Gymraeg a diwylliant Cymru;

**414.** Er efallai nad yw darpariaethau'r Bil yn effeithio'n uniongyrchol ar bolisïau Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg, gallai cynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil arwain at nifer o effeithiau cadarnhaol. Mae cysylltiadau posibl clir rhwng mynd ar gwrs addysg awyr agored breswyl yng Nghymru a gweld a chlywed y Gymraeg a dysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru. Er efallai na fydd hyn yn bosibl ar bob achlysur ac ym mhob lleoliad, wrth weithredu'r Bil gallai Llywodraeth Cymru ystyried sut i fodloni diddordebau polisi eraill megis Cymraeg 2050 a dealltwriaeth pobl ifanc o'u 'cynefin' a diwylliant Cymru yn fwy cyffredinol, a'u cysylltiad â hwy.

## D) Asesiadau effaith eraill

**415.** Bydd amcanion polisi'r Bil yn effeithio’n uniongyrchol ar sawl agwedd ar fywyd. Trafodir manteision a goblygiadau hyn yn fanwl ym mhrif gorff y Memorandwm Esboniadol.

**416.** Trafodir yr effaith benodol ar wahanol feysydd yn Rhan 1, Pennod 3: Diben y Bil a'r effaith y bwriedir iddo'i chael; a Rhan 2: Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cynnwys yr effeithiau ar feysydd sy’n cynnwys iechyd a llesiant a'r amgylchedd, a’r manteision i’r meysydd hynny.

# Rhan 3 – Nodiadau Esboniadol a Mynegai o’r Rheolau Sefydlog

# 11. Nodiadau Esboniadol

## Cyflwyniad

**417.** Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer y Ddeddf Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), y rhoddwyd caniatâd i Sam Rowlands AS ei chyflwyno ar 26 Hydref 2022, a gyflwynwyd ar 24 Tachwedd 2023 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar [XXXX]. Fe’u lluniwyd gan Sam Rowlands AS er mwyn cynorthwyo’r sawl sy’n darllen y Ddeddf.

**418.** Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â’r Ddeddf, ond nid ydynt yn rhan ohoni. Ni fwriedir iddynt fod yn ddisgrifiad cynhwysfawr o'r Ddeddf, a phan nad oes angen esboniad neu sylw ar adran unigol o'r Ddeddf, nis rhoddir.

## Trosolwg Cyffredinol o’r Ddeddf

**419.** Mae tair adran o sylwedd i’r Ddeddf. Mae adran 1 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod pobl disgybl yn profi addysg awyr agored breswyl o leiaf unwaith yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol. Mae adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddarparu cyllid ychwanegol digonol i awdurdodau lleol i sicrhau y gall ysgolion ddarparu addysg awyr agored breswyl fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Mae adran 3 yn gwneud diwygiad canlyniadol technegol i ddarparu na chaniateir codi tâl ar ddisgyblion am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr agored breswyl a ddarperir o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”).

## Sylwebaeth ar yr adrannau

### Adran 1 – Darparu addysg awyr agored breswyl

**420.** Adran 1 yw'r brif adran o sylwedd yn y Ddeddf. Mae'n gosod nifer o ddyletswyddau rhyng-gysylltiedig ar Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn ysgol yng Nghymru hawl, unwaith ac yn rhad ac am ddim yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol, i brofi addysg awyr agored breswyl.

**421.** Mae adran 1 yn gweithio drwy wneud nifer o ddiwygiadau i Ddeddf 2021 sy'n darparu ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru.

**422.** Mae adran 1(2) yn cyflwyno adran newydd 64A i Ddeddf 2021. Mae'r adran newydd 64A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob disgybl mewn ysgol a gynhelir yn profi un cwrs addysg awyr agored breswyl. Gweinidogion Cymru sydd i benderfynu sut i gyflawni'r canlyniad hwn, ond rhaid i'r camau gynnwys gwneud y cwrs addysg awyr agored breswyl hwnnw'n rhan o gwricwlwm ac yn rhad ac am ddim i ddisgyblion. Diffinnir cwrs addysg awyr agored breswyl fel un sy'n cynnwys o leiaf 4 noson a 5 niwrnod yn aros mewn llety preswyl. Gallai hyn fod ar un ymweliad, neu gallai ymestyn dros nifer o ymweliadau.

**423.** Gan ddefnyddio iaith Deddf 2021, mae addysg awyr agored breswyl yn dod yn rhan o gwricwlwm drwy ei gwneud yn "gysyniad allweddol" o fewn "maes dysgu a phrofiad". Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd ddyroddi Cod Addysg Awyr Agored Breswyl (yn debyg i godau presennol o dan Ddeddf 2021 megis Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd). Oherwydd ei bod yn rhan o gwricwlwm, mae'n ofynnol i ysgolion gynllunio ar gyfer addysg awyr agored breswyl, ei darparu a'i gweithredu. Nid yw'r hawl yn benagored, a dim ond un cwrs addysg awyr agored breswyl y mae gan ddisgyblion hawl iddo, yn rhad ac am ddim, o dan Ddeddf 2021 (er bod rhwydd hynt i ysgolion ei darparu'n amlach os dymunant).

**424.** Mae adran 1(3) yn cyflwyno adran newydd 71A i Ddeddf 2021. Mae'r adran newydd 71A yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar addysg awyr agored breswyl. Mae hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru lenwi'r manylion ymarferol a gweithredol. Mae cynnwys y canllawiau'n gymysgedd o faterion gorfodol a dewisol. Mae'r canllawiau'n rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar baramedrau beth yn union y mae rhaid ei ddarparu.

### Adran 2 – Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl

**425.** Mae adran 2 yn ymdrin â chyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl. Mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael cyllid ychwanegol digonol i dalu ysgolion fel y gall yr ysgolion ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl i bob plentyn yn rhad ac am ddim. Mae hon yn rhwymedigaeth ychwanegol ar ben y rheolau presennol ar gyllid i ysgolion a nodir o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

### Adran 3 – Dim caniatáu codi tâl am fwyd a llety ar gyfer addysg awyr agored breswyl

**426.** Mae adran 3 yn ymdrin â'r taliadau ar gyfer disgyblion mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl.

**427.** Yn rhinwedd Pennod 3 o Ran 6 o Ddeddf Addysg 1996 (“Deddf 1996”), os darperir addysg yn ystod oriau ysgol, neu os darperir addysg yn unol â dyletswydd a osodir gan neu o dan Ddeddf 2021, ni chaniateir codi tâl amdani. Fodd bynnag, mae adran 455 o Ddeddf 1996 yn nodi nifer o eithriadau i hyn. O dan adran 455(1)(d), caniateir codi tâl am fwyd a llety ar gyfer teithiau preswyl. Mae'r diwygiad y mae'r Ddeddf hon yn ei wneud yn adran 3(3) yn darparu na chaniateir codi’r tâl adran 455(1)(d) pan fo’r daith breswyl ar gyfer addysg awyr agored breswyl a ddarperir fel rhan orfodol o gwricwlwm o dan y diwygiadau a wneir gan y Ddeddf hon.

**428.** Mae Adran 452 o Ddeddf 1996 hefyd yn caniatáu codi tâl am fwyd a llety ar daith breswyl. Mae'r diwygiad a wneir gan adran 3(2) yn nodi nad yw hyn yn gymwys i addysg awyr agored breswyl a ddarperir fel rhan o gwricwlwm.

**429.** Effaith hyn gyda’i gilydd yw na chaniateir codi tâl ar ddisgybl am ei gwrs addysg awyr agored breswyl (unwaith yn ei yrfa ysgol). Nid yw hyn yn effeithio ar adran 460 o Ddeddf 1996, sy'n dal i ganiatáu i ysgolion godi arian drwy gyfrwng cyfraniadau gwirfoddol.

**430.** Mae geiriad y diwygiadau a nodir yn adran 3 yn cynnwys y gair "trip" yn hytrach na'r gair "visit" a ddefnyddir yn adran 1 o'r Ddeddf. Bwriad defnyddio’r gair "trip" yw bod yn gyson â gweddill y darpariaethau yn adrannau 452 a 455 o Ddeddf 1996 ac ni fwriedir iddo fod ag ystyr gwahanol i'r gair "visit" yn y Ddeddf.

## Adran 4 – Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol

**431.** Mae adran 4 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i sefydlu trefniadau dros dro. Mae'r rhain yn caniatáu ar gyfer trosglwyddo’n fwy hwylus i'r system newydd. Er enghraifft, os nad yw'n ymarferol rhoi hawl i bob plentyn ar unwaith, gallai trefniadau trosiannol olygu bod yr hawl yn dechrau fesul cam fel mai dim ond rhai grwpiau oedran sy'n cael addysg awyr agored breswyl ar y dechrau.

# 12. Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

**432.** Mae Rheol Sefydlog 26.6 yn ei gwneud yn ofynnol i ddogfennau penodol gyd-fynd â Bil. Mae'r mynegai canlynol yn nodi lle y gellir dod o hyd i'r rhain yn y Memorandwm Esboniadol.

Tabl 24: Mynegai o ofynion y Rheolau Sefydlog

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 26.6(i) | Datganiad y byddai darpariaethau'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. | Datganiad yr Aelod | Tudalen i |
| 26.6(ii) | Nodi amcanion polisi y Bil. | Pennod 3 –<br>Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael<br>Pennod 4 –<br>Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham | Tudalennau 3 i 39<br>Tudalennau 40 i 51 |
| 26.6(iii) | Nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 67 i 96 |
| 26.6(iv) | Nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:<br>(a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;<br>(b) manylion y Bil; ac | Pennod 5 – Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghori â'r cyhoedd | Tudalennau 52 i 62 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| | (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau). | | |
| 26.6(v) | Nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio. | Pennod 5 – Cefnogaeth i'r Bil ac ymgynghori â'r cyhoedd | Tudalennau 52 i 62 |
| 26.6(vi) | Os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw. | Ddim yn berthnasol i'r Bil hwn gan ei fod wedi'i gyhoeddi o'r blaen fel drafft. | Amherthnasol |
| 26.6(vii) | Crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil. | Pennod 11 – Nodiadau Esboniadol | Tudalennau 116 i 118 |
| 26.6(viii) | Nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:<br>(a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;<br>(b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;<br>(c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;<br>(d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac<br>(e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio. | Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 67 i 96 |

| Rheol Sefydlog | | Adran | Tudalen |
|---|---|---|---|
| 26.6(ix) | Nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol.<br><br>*Sylwer: ni nodwyd unrhyw anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil, ac o'r herwydd nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn ymdrin â hwy. | Pennod 3 –<br><br>Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael<br><br>Pennod 4 –<br><br>Yr hyn y mae'r Bil yn ei wneud a pham<br><br>Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol | Tudalennau 3 i 39<br><br>Tudalennau 40 i 51<br><br>Tudalennau 67 i 96 |
| 26.6(x) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:<br><br>(a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;<br><br>(b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac<br><br>(c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall). | Pennod 6 – Y pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth | Tudalennau 63 i 66 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 26.6(xi) | Os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio. | Nid yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth a fyddai'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru ac felly nid yw'r gofyniad yn Rheol Sefydlog 26.6(xi) yn berthnasol i'r Bil hwn.<br><br>Derbyniwyd llythyr oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol i gadarnhau'r safbwynt hwnnw. | Amherthnasol |
| 26.6(xii) | Nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. | Pennod 10(A)<br><br>Asesiad o'r Effaith ar y System Gyfiawnder | Tudalennu 97 a 98 |
| 26.6A | Rhaid i'r Memorandwm Esboniadol i'r Bil ddangos lle ynddo yn union y gellir dod o hyd i bob un o ofynion Rheol Sefydlog 26.6, drwy gyfrwng mynegai neu mewn rhyw ffordd arall. | Atodiad: Mynegai o Ofynion y Rheolau Sefydlog | Y Bennod hon |
| 26.6B | Pan fo darpariaethau'r Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol, boed at ddibenion diwygio neu gydgrynhoi, rhaid darparu tabl tarddiadau i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol er mwyn esbonio'n glir beth yw'r berthynas rhwng y Bil a'r fframwaith cyfreithiol presennol. | Nid oes unrhyw ddarpariaethau yn y Bil yn deillio o ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol. Felly, nid oes angen y tabl tarddiadau a | Amherthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | nodir yn Rheol Sefydlog 26.6B. | |
| 26.6C | Pan fo’r Bil yn cynnig diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol yn sylweddol, rhaid darparu atodlen i gyd-fynd â'r Memorandwm Esboniadol, yn nodi geiriad deddfwriaeth bresennol sy’n cael ei diwygio gan y Bil, ac yn nodi’n eglur sut y caiff y geiriad hwnnw ei ddiwygio gan y Bil. | Pennod 13 – Atodlen o Ddiwygiadau | Tudalennau 124 i 130 |

# 13. Rheol Sefydlog 26.6C Atodlen o Ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol bresennol

**433.** Bwriad y ddogfen hon yw dangos sut y byddai darpariaethau'r ddeddfwriaeth a ganlyn fel y maent yn gymwys o ran Cymru yn edrych o'u diwygio gan y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) (pe bai'n dod yn Ddeddf fel y'i cyflwynwyd ar 24 Tachwedd 2023).

**434.** Rhoddwyd llinell drwy'r deunydd sydd i'w ddileu gan y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru), e.e. ~~mae deunydd sydd wedi'i hepgor yn edrych fel hyn~~. Mae'r deunydd sydd i'w ychwanegu gan y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) wedi'i danlinellu, e.e. mae deunydd sydd wedi'i ychwanegu yn edrych fel hyn. Cyfeirir at ddarpariaethau diwygio perthnasol y Bil yn y golofn dde ar bob tudalen.

**Rhybudd**

**435.** Lluniwyd y testun hwn gan swyddogion Senedd Cymru sy'n cynorthwyo Sam Rowlands AS i ddatblygu'r Bil. Er y gwnaed ymdrechion i sicrhau ei fod yn gywir, ni ddylid dibynnu arno fel testun diffiniol o'r Ddeddf na'r Bil.

**436.** Dim ond er mwyn helpu pobl i ddeall effaith y Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) y'i lluniwyd. Ni fwriedir iddo gael ei ddefnyddio mewn unrhyw gyd-destun arall.

Tabl 25: Atodlen o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol

| **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** | **Diwygiwyd gan** |
|---|---|
| Mewnosod adran newydd 64A<br>*Addysg awyr agored breswyl*<br>64A Darparu addysg awyr agored breswyl<br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cwrs addysg awyr agored breswyl yn cael ei ddarparu unwaith, yn rhad ac am ddim fel rhan o gwricwlwm, i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir.<br>(2) Mae'r camau hynny yn cynnwys Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, ac yn benodol—<br>(a) yn arfer swyddogaethau o dan adran 6 er mwyn gwneud darparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn gysyniad allweddol o fewn maes dysgu a phrofiad; | Adran 1(2) |

| **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** | **Diwygiwyd gan** |
|---|---|
| (b) yn arfer swyddogaethau o dan adran 71A i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl.<br>(3) Rhaid i gwrs addysg awyr agored breswyl gynnwys o leiaf bedair noson a phum niwrnod yn aros mewn llety preswyl.<br>(4) Caiff cwrs addysg awyr agored breswyl—<br>(a) ddigwydd ar un ymweliad, neu<br>(b) ymestyn dros fwy nag un ymweliad.<br>(5) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "Cod Addysg Awyr Agored Breswyl") sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysg awyr agored breswyl.<br>(6) Rhaid dyroddi'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl cyntaf o fewn blwyddyn i'r adran hon ddod i rym.<br>(7) Nid yw cwricwlwm yn cydymffurfio â'r Ddeddf hon oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl.<br>(8) O ran Gweinidogion Cymru—<br>(a) rhaid iddynt gadw'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl o dan adolygiad, a<br>(b) cânt ei ddiwygio.<br>(9) Yn yr adran hon, mae cyfeiriad at ddarparu cwrs addysg awyr agored breswyl yn gyfeiriad at ddarparu cwrs o'r fath unwaith i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir cyn iddynt beidio â bod yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir.<br>(10) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl, gweler adran 76.<br>(11) Nid oes dim byd yn yr adran hon sy'n atal addysg awyr agored breswyl rhag cael ei darparu y tu allan i gwricwlwm, pa un a gaiff ei darparu i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir ai peidio. | |
| Mewnosod adran newydd 71A<br>71A Dyletswydd i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl<br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau o dan adran 71 mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl.<br>(2) Rhaid dyroddi'r canllawiau cyntaf o fewn blwyddyn i'r adran hon ddod i rym.<br>(3) O ran y canllawiau hynny— | Adran 1(3) |

| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 | Diwygiwyd gan |
|---|---|
| (a) cânt nodi'r oedran neu'r oedrannau, neu'r flwyddyn ysgol neu'r blynyddoedd ysgol, pan fwriedir darparu addysg awyr agored breswyl;<br>(b) rhaid iddynt ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu;<br>(c) rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn disgybl, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo;<br>(d) rhaid iddynt ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny;<br>(e) cânt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru;<br>(f) cânt nodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg awyr agored breswyl;<br>(g) rhaid iddynt wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r costau y byddai'n rhesymol mynd iddynt mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, gan gynnwys costau bwyd a llety a chludiant ond heb fod yn gyfyngedig iddynt;<br>(h) cânt wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chostau staff ysgolion mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl; ac<br>(i) cânt gynnwys unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol. | |
| Diwygio adran 76<br>76 Cod yr Hyn sy'n Bwysig, ~~a'r~~ y Cod Cynnydd a'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl: y weithdrefn<br>(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r canlynol—<br>(a) Cod yr Hyn sy'n Bwysig;<br>(b) y Cod Cynnydd;<br>(c) y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl.<br>(2) Cyn dyroddi neu ddiwygio'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru—<br>(a) ymgynghori â'r personau y maent yn meddwl eu bod yn briodol (os oes rhai), a<br>(b) gosod gerbron Senedd Cymru ddrafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, o'r Cod diwygiedig arfaethedig).<br>(3) Os yw'r Senedd, cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a osodwyd ger ei bron o dan is-adran (2)(b), | Adran 1(4) |

| **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** | **Diwygiwyd gan** |
|---|---|
| ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod neu'r Cod diwygiedig ar ffurf y drafft hwnnw (nac ar unrhyw ffurf arall, oni bai bod drafft o'r ffurf arall honno wedi ei osod gerbron y Senedd o dan is-adran (2)(b)).<br>(4) Os na wneir unrhyw benderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw mewn cysylltiad â drafft a osodwyd gerbron y Senedd o dan is-adran (2)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ar ffurf y drafft.<br>(5) O ran y cyfnod o 40 niwrnod, mewn perthynas â drafft—<br>(a) mae'n dechrau â'r diwrnod y gosodir y drafft gerbron y Senedd o dan is-adran (2)(b), a<br>(b) nid yw'n cynnwys unrhyw gyfnod y mae'r Senedd wedi ei diddymu neu y mae'r Senedd mewn toriad am fwy na phedwar diwrnod ynddo.<br>(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag unrhyw bersonau ynghylch Cod y cyfeirir ato yn is-adran (1) cyn i'r adran hon ddod i rym, mae'r ymgynghoriad hwnnw i'w drin fel pe bai'n cyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (2)(a) mewn perthynas â'r Cod hwnnw. | |
| Mewnosod yn y Mynegai o Ymadroddion yn adran 83, Tabl 1<br>Ymadrodd — Darpariaeth berthnasol<br>Cod ACRh ("*RSE Code*") — adran 8(1)<br>Cod Addysg Awyr Agored Breswyl (*"Residential Outdoor Education Code*") — adran 64A<br>Cod Cynnydd ("*Progression Code*") — adran 7(1) | Adran 1(5) |
| Mewnosod adran newydd 64B<br>64B Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl<br>(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i awdurdod lleol sy'n ddigonol i alluogi'r swyddogaethau a roddir gan neu o dan adrannau 64A ac 71A, mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, i gael eu cyflawni.<br>(2) Nid yw'r adran hon yn lleihau effaith Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) (ariannu ysgolion a gynhelir). | Adran 2 |
| Mewnosod adran newydd 74A<br>74A Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl | Adran 4(1) |

| **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** | **Diwygiwyd gan** |
|---|---|
| (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dod ag adrannau 64A, 64B ac 71A i rym.<br>(2) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (1), yn benodol, addasu neu oedi pryd y daw'r adrannau hynny i rym mewn cysylltiad ag oedrannau gwahanol, neu flynyddoedd ysgol gwahanol, ddisgyblion cofrestredig. | |
| Diwygio adran 75(2)(a)<br>75 Rheoliadau<br>(1) Mae pŵer i wneud rheoliadau o dan y Ddeddf hon—<br>(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol, a<br>(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol.<br>(2) Ni chaniateir gwneud offeryn statudol sy'n cynnwys—<br>(a) rheoliadau o dan adran 5, 31 ~~neu 48~~, 48 neu 74A, neu<br>(b) rheoliadau o dan adran 74 sy'n diwygio neu'n diddymu unrhyw ddeddfiad sydd wedi ei gynnwys mewn deddfwriaeth sylfaenol,<br>oni bai bod drafft o'r offeryn wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad. | Adran 4(2) |
| **Deddf Addysg 1996** | **Diwygiwyd gan** |
| Diwygio adran 452(6)<br>452 Application of section 451 where education is provided partly during and partly outside school hours etc.<br>(1) Where a period allowed for any educational activity at a maintained school falls partly during school hours and partly outside school hours, then—<br>(a) if 50 per cent. or more of the time occupied by that period together with any connected school travelling time falls during school hours, so much of the education provided during that period as is provided outside school hours shall be treated for the purposes of section 451 as provided during school hours, and<br>(b) in any other case, so much of the education provided during that period as is provided during school hours shall be treated for those purposes as provided outside school hours.<br>(2) In subsection (1) "connected school travelling time" means time spent during school hours by the pupils taking part in the educational activity concerned in getting to or from the place where the activity takes place. | Adran 3(2) |

| **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021** | **Diwygiwyd gan** |
| --- | --- |
| (3) Where any education provided at a maintained school is provided on a residential trip, then—<br>(a) if the number of school sessions taken up by the trip is equal to or greater than 50 per cent. of the number of half days spent on the trip, any education provided on the trip which is provided outside school hours shall be treated for the purposes of section 451 as provided during school hours, and<br>(b) in any other case, any education provided on the trip which is provided during school hours shall be treated for those purposes as provided outside school hours.<br>(4) In this section "half day" means any period of 12 hours ending with noon or midnight on any day.<br>(5) For the purposes of subsection (3)—<br>(a) where 50 per cent. or more of a half day is spent on a residential trip, the whole of that half day shall be treated as spent on the trip, and<br>(b) a school session on any day on which such a session takes place at the school concerned shall be treated as taken up by a residential trip if the time spent on the trip occupies 50 per cent. or more of the time allowed for that session at the school.<br>(6) Nothing in section 451 shall be read as prohibiting the making of a charge in respect of board and lodging provided for a registered pupil at a maintained school on a residential trip<u>, other than a residential trip provided in respect of residential outdoor education in pursuance of a duty imposed by or under the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021</u>. | |
| Diwygio adran 455(1)(d)<br>455 Permitted charges.<br>(1) Subject to subsection (2), a charge may be made in respect of—<br>(a) education provided for a registered pupil at a maintained school other than education in respect of which, by virtue of section 451, no charge may be made,<br>(b) the entry of a registered pupil at a maintained school for a public examination in any syllabus for that examination otherwise than in circumstances in which, by virtue of section 453(1), no charge may be made,<br>(ba) travel arrangements provided under section 6 of the Learner Travel (Wales) Measure 2008 ("the Measure") for a registered pupil at a maintained school in Wales, other than arrangements in respect of which, | Adran 3(3) |

| Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 | Diwygiwyd gan |
|---|---|
| by virtue of section 454(3) of this Act or sections 3 or 4 of the Measure, no charge may be made,<br>(c) transport provided for a registered pupil at a maintained school in England other than transport in respect of which, by virtue of section 454(3) or 508B(1), 508F(3), or section 508E(2)(d) and paragraph 5(2) of Schedule 35C, no charge may be made, and<br>(d) board and lodging provided for a registered pupil at a maintained school on a residential trip, other than a residential trip provided in respect of residential outdoor education in pursuance of a duty imposed by or under the Curriculum and Assessment (Wales) Act 2021. | |